



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

2/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

09/01/2020

Deall effaith credyd cynhwysol ar gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng nghymru: adroddiad interim

Teitl: Deall effaith credyd cynhwysol ar gynllun gostyngiadau'r
dreth gyngor ac ôl-ddyledion rhent yng nghymru
Isdeitl: adroddiad interim

Awdur(on): Zoe Charlesworth, Sam Tims, George Sanderson

Policy in Practice

Adroddiad Ymchwil Llawn: Charlesworth, Z; Tims, S; Sanderson, G; (2019).
Deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-
ddyledion Rhent yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad
Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 2/2020.>
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/credyd-cynhwysol-cynllun-gostyngiadau-dreth-gyngor-ac-ol-ddyledion-rhent-yng-nghymru-adroddiad>

Barn yr ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid
ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr John Broomfield

Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: LocalTaxationPolicy@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad a Chefnidir	25
	Yr adroddiad terfynol 2020	26
	Yr adroddiad interim	27
	Cefndir	27
	Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru	28
	Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	30
	Effaith Credyd Cynhwysol ar Lwyth achosion Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	32
	Cyfradd Hawlio Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor ac Ymwybyddiaeth o'r Cynllun yng Nghymru	33
	Effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor	35
	Effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion Rhent	37
2.	Methodoleg	41
3.	Dadansoddiad o'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru	43
	Y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol	44
	Llwyth Achosion Cyfredol a Chyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	46
	Dadansoddiad Demograffig o Gyfanswm Gwerth Cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Lefelau Dyfarnu (Aelwydydd Oedran Gweithio)	49
	Cynnal y Cynllun Cyfredol yn 2021-22	54
	Effeithiau cymdeithasol a gwleidyddol cynnal y cynllun cyfredol hyd 2021-22	57
	Y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cyfredol Tablau Ategol	63
4.	Dadansoddiad Effaith o Addasiadau Cynllun	67
	Model 1: Didyniadau cyfradd safonol i bobl nad ydynt yn ddibynyddion	69
	Model 2: Tapr Diwygiedig	74
	Model 3: Cyflwyno Dyfarniad Gwarantiedig	82
	Model 4: Lleihau'r Llawr Isafswm Incwm at ddibenion Lleihau'r Dreth Gyngor ar gyfer Aelwydydd Hunangyflogiedig	88
	Model 5: Cael gwared â'r terfyn dau blentyn (aelwydydd UC)	96
	Model 6: Cynllun Band Incwm	103

Cymharu Modelau	110
Cymharu Modelau Canfyddiadau allweddol	111
5. Casgliadau a Chamau Nesaf	116
6. Atodiadau	122
Atodiad A: Y Cyngorau sydd wedi cymryd rhan	122
Atodiad B: Codiadau yn y Dreth Gyngor a ddefnyddiwyd wrth Fodelu	123
Atodiad C: Nodiadau Methodoleg.....	124

Rhestr o dablau a ffigyrau

Tabl 1.1: Newid mewn llwyth achosion cymorth gyda'r dreth gyngor 2013 – 2019	32
Tabl 3.1: Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Llwyth Achosion: Cynllun Cyfredol yng Nghymru yn ôl Grŵp Oedran.....	48
Tabl 3.2: Cynnal y system gyfredol hyd 2021-22: Cyfanswm Blyneddol Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.....	55
Tabl 3.3: Cynnal y system gyfredol hyd 2021-22: Lefelau Gostyngiad Wythnosol.....	56
Tabl 3.4: Cymharu'r Gostyngiad yn y Dreth Gyngor (£/wythnos) rhwng 2018-19 a 2021-22 a'r Newid Cymharol i'r Cynnydd mewn Atebolrwydd i Dalu'r Dreth Gyngor.....	58
Tabl 3.5: Cymhariaeth o Ddyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor (£ yr wythnos)	64
Tabl 3.6: Cymhariaeth o Incwm Mynd Adref (£/mis) yn ôl Math o Aelwyd	65
Tabl 3.7: Cymhariaeth o Incwm Mynd Adref (£/mis) yn ôl Math o Fudd-dal yn 2021-22.....	66
Tabl 4.1: Model 1: Cyfanswm gostyngiadau treth gyngor y model (£ y flwyddyn).....	70
Tabl 4.2: Model 1: Dyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor Wythnosol ar gyfartaledd, £ yr wythnos, ar gyfer Aelwydydd yr Effeithir arnynt.....	71
Tabl 4.3: Model 1: Aelwydydd y mae newid mewn didyniadau i bobl nad ydynt yn ddibynyddion yn cael effaith arnynt - canfyddiadau allweddol.....	74
Tabl 4.4: Model 2: Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor y Model (£ y flwyddyn) gyda'r Tapr wedi'i Ostwng i 10%	76
Tabl 4.5: Model 2: Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor y Model (£ y flwyddyn) gyda'r Tapr wedi'i Ostwng i 15%	77
Tabl 4.6: Model 2: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar gyfartaledd, £ yr wythnos, gyda'r Tapr ar 10% (Aelwydydd yr Effeithir arnynt yn Unig)	78
Tabl 4.7: Model 2: Aelwydydd y mae'r newid yn y Gyfradd Tapr yn cael effaith arnynt - canfyddiadau allweddol.....	81
Tabl 4.8: Model 3: Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y model (£ y flwyddyn) ..	83
Tabl 4.9: Model 3: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar Gyfartaledd, £ yr wythnos, i aelwydydd yr effeithir arnynt.....	84
Tabl 4.10: Model 3: Aelwydydd y mae dyfarniad gwarantedig yn cael effaith arnynt – canfyddiadau allweddol.....	87
Tabl 4.11: Model 4: Cyfanswm gostyngiadau treth gyngor y model (£ y flwyddyn).....	90

Tabl 4.12: Model 4: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar Gyfartaledd, £ yr wythnos, i aelwydydd yr effeithir arnynt.....	92
Tabl 4.13: Model 4: Aelwydydd yr Effeithir arnynt gan Leihad yn y Llawr Isafswm Incwm - Canfyddiadau Allweddol.....	95
Tabl 4.14: Model 5: <i>Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor</i> y Model (£ y flwyddyn).....	97
Tabl 4.15: Model 5: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar Gyfartaledd, £ yr wythnos, aelwydydd yr effeithir arnynt yn unig	99
Tabl 4.16: Model 5: Aelwydydd yr Effeithir arnynt gan Gael Gwared â'r Terfyn Dau Blentyn - Canfyddiadau Allweddol.....	102
Tabl 4.17: Bandiau Incwm ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cyngor Dinas Newcastle.....	105
Tabl 4.18: Model 6: Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y model (£ y flwyddyn)	106
Tabl 4.19: Model 6: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar Gyfartaledd, £ yr wythnos, ar draws pob Aelwyd	107
Tabl 4.21: Cymharu Modelau Canfyddiadau allweddol	114
Tabl 6.1: Codiadau yn y Dreth Gyngor a ddefnyddiwyd wrth Fodelu	123

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
Trefniadau Talu Amgen (APAs)	Term cyffredinol am dri dull ansafonol ar gyfer talu Credyd Cynhwysol i hawliwr: • Talu elfen tai Credyd Cynhwysol yn syth i'r landlord. • Talu Credyd Cynhwysol bob pythefnos (neu weithiau bob wythnos) yn lle bob mis. • Rhannu taliadau Credyd Cynhwysol rhwng cwpl, yn hytrach na thalu i un ohonynt, fel safon.
Swm Cymwys	Fe'i hadwaenir hefyd fel 'Ochr Anghenion' neu 'Asesiad o Angen', neu mewn Credyd Cynhwysol fel 'Uchafswm Credyd Cynhwysol'. Dyma'r swm a ganiateir ar gyfer costau byw wrth gyfrifo hawl i fudd-dal. O'r herwydd, dyma'r dyfarniad mwyaf posib y gall person ei dderbyn o ystyried ei amgylchiadau, cyn rhoi cyfrif am unrhyw incwm y byddo ganddo. Mae gwahanol amgylchiadau personol - fel plentyn, anabledd, neu os yw'r hawliwr yn ofalwr - yn ychwanegu symiau gwahanol at y cyfanswm cymwys. Y swm cymwys yw hanner cyfrifiad yr hawl i fudd-dal, gweler 'Incwm', ar gyfer y llall.
Asesiad o Angen	Gweler 'Swm Cymwys'
Cyfrifiannell Budd-daliadau a Chyllidebu	Peiriant cyfrifo a ddefnyddir gan Policy in Practice ar gyfer ei waith modelu dadansoddol.
Cynyddu Budd-daliadau	Y broses lle caiff dyfarniadau budd-daliadau eu cynyddu'n flynyddol, fel arfer trwy fesur o chwyddiant. Ar hyn o bryd, mae cynyddu budd-daliadau yn cael ei atal gan y rhewi budd-daliadau.
Elfen Plant	Rhan o gyfrifiad swm cymwys Credyd Cynhwysol. Fe'i rhoddir i deuluoedd sydd â phlentyn. Y gwerth yw £2,780 y flwyddyn y

	plentyn. O.N. Mae yna derfynau i'r cymorth hwn, gweler 'Terfyn dau blentyn'.
Amodoldeb	Egwyddor lle mae talu budd-daliadau'n amodol ar yr hawliwr yn bodloni rhwymedigaethau penodol. Er enghraifft, ceisio am nifer penodol o swyddi er mwyn derbyn Lwfans Ceisio Gwaith. Mae amodoldeb hefyd yn gosod nifer yr oriau y mae disgwyl i berson weithio o ystyried ei amgylchiadau.
Budd-dal y Dreth Gyngor	Budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd a oedd yn helpu i dalu'r dreth gyngor cyn iddo gael ei ddiddymu yn 2013. Fe'i disodlwyd yng Nghymru a'r Alban gan Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a ddyluniwyd gan y gweinyddiaethau datganoledig, a chan Gymorth y Dreth Gyngor Lleol a ddyluniwyd gan awdurdodau lleol unigol yn Lloegr.
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	Fe'i gelwir hefyd yn ostyngiad y dreth gyngor neu gymorth y dreth gyngor, mae hwn yn fath o gymorth sy'n darparu ar gyfer gostwng y dreth gyngor mewn rhai amgylchiadau diffiniedig. Fe'i gweinyddir gan awdurdodau lleol ar wahân i'r system fudd-daliadau, ond mae'r gwaith cyfrifo'n dibynnu ar p'run a yw ymgeiswyr yn derbyn budd-daliadau etifeddol (gweler isod) neu Gredyd Cynhwysol (gweler isod).
Band y Dreth Gyngor	Mae pob eiddo domestig ym Mhrydain Fawr (mae Gogledd Iwerddon yn defnyddio system wahanol) yn cael ei roi mewn braced gwerth, neu fand, sy'n pennu atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor am yr eiddo hwnnw.
Echdyniad Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	Set ddata a ddefnyddir gan Policy in Practice ar gyfer y prosiect dadansoddol hwn.
Dibynnydd	Aelod o'r aelwyd yw hwn sy'n dibynnu ar berson arall, aelod o'r

	teulu fel arfer, am gymorth ariannol ac felly ni ddisgwylir iddo gyfrannu at incwm yr aelwyd. Yn y system fudd-daliadau, plentyn neu berson ifanc mewn addysg neu hyfforddiant yw dibynnydd fel arfer.
Budd-dal Anabledd	At ddibenion yr adroddiad hwn, mae hwn yn derm ar y cyd ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (AFIP), a Lwfans Gweini (AA).
Premiwm Anabledd	Elfen budd-dal ychwanegol y gellir ei hychwanegu at rai budd-daliadau etifeddol (gweler isod), ond dim ond os yw'r hawliwr dan oedran pensiwn a naill ai'n ddall neu'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl (gweler isod), Taliad Annibyniaeth Personol (gweler uchod), Lwfans Gweini neu fudd-dal anabledd penodol arall.
Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)	Budd-dal nad yw'n dibynnu ar brawf modd ac nad yw'n drethadwy ac fe'i telir i bobl y mae angen eu goruchwyllo neu eu helpu gyda'u gofal yn ystod y dydd neu'r nos, neu i bobl sydd â phroblemau symudedd. Mae bellach wedi'i ddisodli gan Daliad Annibyniaeth Personol ar gyfer y mwyafrif o bobl o oedran gweithio ond mae'n dal i gael ei dalu ar gyfer plant.
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Adran o'r Llywodraeth ganolog, sy'n gyfrifol am y mwyafrif (er nad pob un) o'r budd-daliadau etifeddol ym Mhrydain Fawr ac sy'n arwain ar ddarparu Credyd Cynhwysol.
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)	Budd-dal a delir i bobl o oedran gweithio sydd â salwch, cyflwr iechyd neu anabledd sy'n ei gwneud hi'n anodd neu'n amhosib iddynt weithio. Nid yw'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Gyfraniadau (a adwaenir hefyd fel 'Arddull Newydd' y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth) yn dibynnu ar brawf modd ond, yn hytrach, mae'n seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm (a adwaenir hefyd fel 'Arddull Hen' y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth) yn dibynnu ar brawf

	modd.
Elfen Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith yr ESA	A elwir hefyd yn 'Premiwm Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith' (Premiwm WRAG) Roedd hwn yn rhan o'r swm cymwys (gweler isod) mewn budd-daliadau etifeddol a'r dyfarniad lleihau'r dreth gyngor. Roedd yn elfen atodol o'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (gweler isod), gyda'r bwriad o gefnogi'r rhai sy'n paratoi i ddychwelyd i'r gwaith. Fe'i diddymwyd ar gyfer hawlwyr newydd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Ebrill 2017. D.S. Er nad yw'r budd-dal hwn bellach yn cael ei ychwanegu at y swm cymwys mewn budd-daliadau etifeddol, yng Nghymru mae cymhwysedd aelwyd ar gyfer Premiwm WRAG yn dal i gael ei gynnwys yn y cyfrifiad swm cymwys ar gyfer cymorth gyda'r dreth gyngor yn achos ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Fodd bynnag, ni chaiff ei gynnwys os yw'r ymgeiswyr sy'n derbyn cymorth gyda'r Dreth Gyngor yn derbyn Credyd Cynhwysol. Canlyniad hyn yw bod ymgeiswyr Cymorth gyda'r Dreth Gyngor sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn cael eu trin yn fwy hael na'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.
Premiwm Anabledd Uwch (EDA)	Elfen budd-dal ychwanegol y gellir ei hychwanegu at rai budd-daliadau etifeddol, ond dim ond os yw'r hawliwr dan oedran pensiwn a naill ai'n ddall neu'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl (gweler uchod), Taliad Annibyniaeth Personol (gweler uchod), neu Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.
Taliadau Estynedig	Adwaenir hefyd fel 'rhedeg ymlaen', mae'r rhain yn daliadau ychwanegol o ddyfarniad lleihau'r dreth gyngor. Pan fydd hawliwr yn dechrau gweithio neu'n cynyddu oriau gwaith uwchlaw 16 awr yr wythnos, yn ddarostyngedig i rai amodau cymhwyso, telir budd-dal ar y gyfradd allan o waith am gyfnod o bedair wythnos. Caniataodd Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol Cymru ymestyn y cyfnod gras hwn pe byddent yn dewis gwneud hynny, ond nid oes yr un

	ohonynt wedi dewis hynny.
Premiwm Teulu	Roedd hon yn elfen ychwanegol i deuluoedd â phlant yn y swm cymwys ar gyfer budd-daliadau etifeddol a Chymorth gyda'r Dreth Gyngor. Fe'i dyfarnwyd i deuluoedd ar enedigaeth eu plentyn cyntaf (dim ond un Premiwm Teulu y gallai pob teulu ei dderbyn, nid oedd plant ychwanegol yn gwneud unrhyw wahaniaeth). Diddymwyd hwn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2016 ar gyfer pob hawliad newydd. O.N. Er nad yw'r premiwm bellach yn cael ei ychwanegu at y swm cymwys mewn budd-daliadau etifeddol, yng Nghymru mae cymhwysedd aelwyd ar gyfer Premiwm Teulu yn dal i gael ei gynnwys yng nghyfrifiadau swm cymwys Cymorth gyda'r Dreth Gyngor os yw'r aelwyd honno'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Fodd bynnag, ni chaiff ei gynnwys os yw'r ymgeisydd am Gymorth gyda'r Dreth Gyngor yn derbyn Credyd Cynhwysol. Canlyniad hyn yw bod ymgeiswyr Cymorth gyda'r Dreth Gyngor sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn cael eu trin yn fwy hael na'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.
Didyniadau cyfradd safonol i'r rhai nad ydynt yn ddibynyddion	Mae hwn yn fath o ddidyniad i'r rhai nad ydynt yn ddibynyddion. Gweler 'didyniad i'r rhai nad ydynt yn ddibynyddion' isod am fanylion.
Dyfarniad Gwarantedig	Mae hwn yn opsiwn polisi posibl sydd wedi'i fodelu yn yr adroddiad hwn. Isafswm dyfarniad ydyw wedi'i warantu ar gyfer pob aelwyd sy'n derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd ac sydd ag incwm islaw trothwy penodol. Mae hwn yn fodd i gyfleu cymhwysedd yn hawdd: 'os ydych yn ennill dan hyn, byddwch yn derbyn o leiaf gymaint â hyn'.
Cymdeithas dai	Sefydliadau dielw sy'n berchen ar aelwydydd rhent ac yn eu rhentu a'u rheoli. Mae aelwydydd sy'n cael eu rhentu gan gymdeithasau

	tai'n cael eu hystyried yn 'dai cymdeithasol', ynghyd ag eiddo sy'n eiddo i'r cyngor. Er bod y ddau fath o dai cymdeithasol yn cynnig llety sy'n is na chyfraddau'r farchnad, mae rhenti cymdeithasau tai'n tueddu i fod yn uwch na rhenti tai cyngor.
Budd-dal Tai	Budd-dal cysylltiedig ag incwm (prawf modd) a delir i denantiaid ar incwm isel (naill ai mewn gwaith neu allan o waith) i helpu i dalu eu rhent. Gweinyddir y cynllun gan awdurdodau lleol yn unol â deddfwriaeth genedlaethol a chaiff ei ddisodli gan yr elfen tai mewn Credyd Cynhwysol.
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)	Adran llywodraeth ganolog yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am gyfrifo a chasglu trethi. Mae CThEM yn olrhain gwybodaeth am enillion drwy'r system 'talu wrth ennill' a defnyddir y data hwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (gweler isod) wrth gyfrifo Credyd Cynhwysol.
Incwm	Wrth gyfrifo Credyd Cynhwysol, mae holl fathau'r incwm y mae hawliwr yn eu derbyn yn cael eu hystyried a'u tynnu o'r swm cymwys (gweler uchod). Y gweddill yn dilyn y cyfrifiad hwn yw'r hyn y mae'r hawliwr yn ei dderbyn fel ei ddyfarniad Credyd Cynhwysol. Y syniad yw y dylid tynnu incwm y gellid ei ddefnyddio i dalu costau byw o'r swm cymwys. Yn y bôn, rhennir incwm yn bedwar math, sy'n cael eu tynnu o'r swm cymwys mewn gwahanol ffyrdd. Nid yw rhai mathau o incwm, sydd â phwmpas penodol y tu hwnt i gostau byw sylfaenol (fel Lwfans Byw i'r Anabl, gweler isod), yn cael eu tynnu o gwbl o'r Swm Cymwys, ond mae'r mwyafrif yn achosi rhywfaint o dynnu o leiaf.
Cynlluniau â Band Incwm	Ffordd arall o gyfrifo cymorth gyda'r dreth gyngor i aelwydydd; ac mae'n fwyfwy poblogaidd gydag awdurdodau lleol yn Lloegr oherwydd heriau gyda'r broses asesu gyfredol (gweler 'Cyfnod Asesu Credyd Cynhwysol'). Mae cynlluniau'n amrywio ond, yn eu

	hanfod, maent yn cynnwys gosod hawlwr mewn un o sawl band incwm er mwyn cyfrifo'u dyfarniad, yn lle gwneud cyfrifiadau pwrpasol gan ddefnyddio union incwm pob unigolyn. Mae hyn yn gwneud symiau dyfarnu'n fwy sefydlog i'r hawliwr o fis i fis, ac mae'n golygu bod angen ailasesu'n llai aml, sy'n gwneud y gwaith gweinyddu'n haws ac yn llai costus.
Cymhorthdal Incwm (IS)	Budd-dal cysylltiedig ag incwm (prawf modd) a delir i bobl o oed gweithio ar incwm isel fel gofaliwr ac unig rieni. Nid yw fel arfer yn cael ei dalu i rywun sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)	Budd-dal cysylltiedig ag incwm a delir i bobl o oedran gweithio ar incwm isel sydd allan o waith ac wrthi'n chwilio am waith. Nid yw Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar Gyfraniadau'n dibynnu ar brawf modd ond mae'n seiliedig ar gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae Lwfans Ceisio Gwaith seiliedig ar incwm yn dibynnu ar brawf modd.
System/Budd-daliadau Etifeddol	Mae hwn yn derm cyffredinol am fudd-daliadau a chredydau sydd wedi'u disodli gan Gredyd Cynhwysol neu a fydd yn cael eu disodli ganddo.
Gallu Cyfyngedig i Weithio	Canlyniad posibl Asesiad Gallu i Weithio (gweler uchod) lle bernir bod hawlydd yn rhy sâl neu anabl i weithio, ond sy'n gallu ymgymryd â 'gweithgaredd cysylltiedig â gwaith'. Yna rhoddir yr hawlwr hyn mewn Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith (WRAG) (gweler isod).
Gallu Cyfyngedig ar gyfer Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith (LCWRA)	Canlyniad posibl asesiad gallu i weithio (gweler uchod) lle bernir bod hawlydd nid yn unig yn rhy sâl neu anabl i weithio, ond hefyd yn rhy sâl neu anabl i berfformio 'gweithgaredd cysylltiedig â gwaith', megis paratoi i symud i waith yn y dyfodol. Mae hawlwr yr ystyrir bod ganddynt Allu Cyfyngedig ar gyfer Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn cael mwy o fudd-daliadau o ganlyniad, ac

	nid oes amodoldeb ar y buddion hyn (gweler uchod).
Lwfans Tai Lleol (LHA)	Ffordd o gyfrifo Budd-dal Tai neu elfen tai Credyd Cynhwysol i hawliwr sy'n rhentu eiddo gan landlord preifat. Mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn seiliedig ar nifer y bobl ar aelwyd yr hawliwr, a'r ardal lle maent yn byw. Mae symiau Lwfans Tai Lleol yn seiliedig ar 30 ^{ain} canradd o renti yn yr ardal leol fel yr oeddent cyn i'r budd-daliadau rewi yn 2016. Os yw'r hawliwr yn dewis rhentu eiddo sy'n costio llai na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol briodol, caiff y swm y mae'n ei dderbyn ei gyfyngu i'r rhent gwirioneddol y mae'n ei dalu.
Ymfudo a Reolir	Dyma'r broses o symud hawlwyrr yn weithredol o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol, er nad oes dim wedi newid yn amgylchiadau'r hawliwr. Dechreuodd Ymfudo a Reolir gydag arbrawf fis Gorffennaf 2019 ac mae'n debygol o ddechrau'n llawn ddiwedd 2020. Mae hwn yn wahanol i 'Ymfudo Naturiol' (gweler isod).
Swm Uchaf Posib (Credyd Cymhwysol)	Swm a ddefnyddir mewn cyfrifiadau Cymorth gyda'r Dreth Gyngor ar gyfer hawlwyrr sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Dyma'r uchafswm damcaniaethol y gallai person ei dderbyn dan Gredyd Cynhwysol pe na bai ganddo incwm arall ac fe'i defnyddir fel rhan o gyfrifiad Cymorth gyda'r Dreth Gyngor.
Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol	Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol - adran llywodraeth ganolog yn y Deyrnas Unedig, a elwid gynt yn yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.
Isafswm Dyfarniad	Gweler 'Dyfarniad Gwarantedig'.
Llawr Isafswm Incwm	Ffordd a ddefnyddir wrth gyfrifo Credyd Cynhwysol i hawlwyrr hunangyflogedig a hefyd wrth gyfrifo cymorth gyda'r dreth gyngor i hawlwyrr Credyd Cynhwysol. Mae'n gweithio trwy dybio lefel benodol o incwm ar ôl cyfnod gras o flwyddyn. Cyfrifir lefel yr incwm gan

	ddefnyddio'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer grŵp oedran yr ymgeisydd, wedi'i luosi â nifer yr oriau y mae disgwyl iddo chwilio am waith a bod ar gael i weithio.
Ymfudo Naturiol	Dyma pryd mae hawliwr budd-dal yn symud o fudd-daliadau etifeddol (gweler uchod) i Gredyd Cynhwysol (gweler uchod), wedi'i sbarduno gan newid yn ei amgylchiadau (e.e. genedigaeth plentyn). Mae hwn yn wahanol i 'Ymfudo a Reolir' (gweler isod).
Pobl nad ydynt yn ddibynyddion	Person sy'n byw fel aelod o aelwyd yr hawliwr, ond nad yw'n bartner i'r hawliwr, yn blentyn iddo, nac yn berson ifanc y mae'r hawliwr yn gyfrifol amdano. Mae yna rai eithriadau, fel cyd-ddeiliaid, lletywyr a gofalwyr a delir.
Didyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion	Didyniad a wneir i daliadau budd-dal yn seiliedig ar y cyfraniad a ddisgwylir gan oedolion eraill (h.y. pobl nad ydynt yn ddibynyddion) yn yr aelwyd. Fel arfer, mae cyfradd y didyniad yn seiliedig ar incwm ac amgylchiadau'r bobl nad ydynt yn ddibynyddion, ond dull arall yw'r didyniad 'cyfradd safonol' person nad yw'n ddibynnydd, lle mae'r gyfradd didynnu'r un peth i bawb y bernir bod disgwyl iddynt dderbyn un.
Budd-daliadau allan o waith	Mae hwn yn derm cyffredinol ar gyfer budd-daliadau sy'n berthnasol yn unig pan fo'r hawliwr allan o waith. Mae hyn yn cynnwys Lwfans Ceisio Gwaith (gweler isod), Lwfans Cefnogaeth a Chymorth (gweler isod), a rhannau o Gredyd Cynhwysol (gweler isod).
Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)	Taliad Annibyniaeth Personol - Mae hwn yn fudd-dal newydd ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl (gweler uchod), wedi'i gynllunio i roi help i bobl dros 16 oed y mae angen gofal arnynt neu sydd ag anghenion symudedd. Nid yw'n dibynnu ar brawf modd nac yn drethadwy.
Rhedeg Ymlaen	Gweler 'Taliadau Estynedig'.

Premiwm Anabledd Difrifol (SDP)	Mae hon yn elfen budd-dal ychwanegol y gellir ei hychwanegu at rai mathau o fudd-daliadau, ond dim ond os yw'r hawlydd yn derbyn naill ai Lwfans Byw i'r Anabl (gweler uchod), PIP (gweler isod), neu Lwfans Gweini. Gellir cymhwyso'r Premiwm Anabledd Difrifol i'r Cymhorthdal Incwm (gweler uchod), y Lwfans Ceisio Gwaith (gweler uchod), y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (gweler uchod), Budd-dal Tai (gweler uchod), neu Gredyd Pensiwn. Caiff ei dalu fel arfer lle nad oes gan hawlydd unrhyw un arall yn byw gyda nhw.
Detholiad Budd Aelwyd Sengl (SHBE)	Set ddata a ddefnyddir gan Policy in Practice ar gyfer y prosiect dadansoddol hwn.
Cyfradd Tapr	Ar y gyfradd hon y mae budd-daliadau'n cael eu tynnu'n ôl pan fydd hawliwr wedi ennill incwm. Os yw cyfradd tapr yn 20%, am bob punt o incwm a enillir, mae'r cymorth yn gostwng 20c. Po isaf yw'r gyfradd ganrannol, y mwyaf hael yw'r cynllun. Mae cyfraddau tapr yn cael eu defnyddio fel bod pobl yn teimlo budd gwaith ac yn osgoi'r risg o fod yn waeth eu byd wrth ddechrau gweithio. Gallai fod yn wir pe na bai tapr ac y câi budd-daliadau eu tynnu'n ôl bunt am bunt. Mae cyfradd tapr yn berthnasol ar gyfer yr incwm mwyaf a enillir, ond mae eithriad mewn rhai achosion lle mae 'Lwfans Gwaith' yn berthnasol (gweler isod).
Terfyn Dau Blentyn	Mae hwn yn derfyn ar y cymorth a roddir gan Elfenn Plant Credyd Cynhwysol. Mae'r terfyn yn golygu bod y swm sy'n gymwys i Gredyd Cynhwysol yn cydnabod y ddau blentyn hynaf yn unig ar aelwyd. Golyga hyn mai'r ddau blentyn cyntaf yn unig mewn aelwyd sy'n derbyn yr elfen plentyn ac mae'n cael sgîl-effaith ar gymorth gyda'r dreth gyngor i hawlwyd Credyd Cynhwysol. Mae'r terfyn hwn yn berthnasol i drydydd plentyn (neu blant dilynol) a anwyd ar ôl 6 Ebrill 2017 yn unig. O.N. Ni chaiff y terfyn hwn ei ddefnyddio gyda chymorth gyda'r dreth gyngor i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau

	etifeddol, ond mae wedi'i ymgorffori yng nghyfrifiadau cymorth gyda'r dreth gyngor i hawlwyd Credyd Cynhwysol.
Credyd Cynhwysol (UC)	Budd-dal sy'n gysylltiedig ag incwm (prawf modd) ar gyfer pobl o oedran gweithio sydd ar incwm isel. Mae'n disodli pedwar budd-dal prawf modd presennol, gan gynnwys Budd-dal Tai a dau gredyd treth.
Asesiad Credyd Cynhwysol	Y broses sy'n penderfynu faint y bydd hawlwyd UC yn ei gael. Mae hyn yn cymryd swm cymwys aelwyd ac yn tynnu eu hincwm o'r swm hwnnw. Y swm sy'n weddill yw dyfarniad Credyd Cynhwysol yr hawllydd. D.S. Mae dyfarniadau UC yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio union symiau incwm. Gall hyn fod yn gostus yn weinyddol, mae'n gofyn am ailasesiadau rheolaidd ac mae'n arwain at ordaliadau damweiniol, sy'n arwain at filiau annisgwyl i hawlwyd.
Cynyddu	Gweler 'Cynyddu Budd-daliadau'.
Pensiwn Anabledd Rhyfel (WDP)	Mae'r rhain yn fathau o fudd-daliadau sydd ar gael i'r rhai a anafwyd neu a anablwyd yn ystod gwasanaeth yn Lluoedd Arfog Prydain. Mae Llywodraeth Cymru'n caniatáu i awdurdodau lleol Cymru fod yn fwy hael na'r ddiystyriaeth safonol o £10 o arian Pensiynau Anabledd Rhyfel a dderbynnir gan yr hawlwyd hyn wrth gyfrifo eu hincwm at ddibenion cymorth gyda'r dreth gyngor (gweler uchod). Mae pob awdurdod lleol wedi dewis bod mor hael â phosib; gan ddiystyru 100% o'r pensiynau hyn.
Pensiynau Gweddwon Rhyfel	Mae'r rhain yn fathau o fudd-daliadau sydd ar gael i weddwon, gwŷr gweddw neu blant rhywun a laddwyd yn ystod gwasanaeth yn Lluoedd Arfog Prydain, neu oherwydd anafiadau wedi hynny. Mae Llywodraeth Cymru'n caniatáu i awdurdodau lleol Cymru fod yn fwy hael na'r ddiystyriaeth safonol o £10 o arian Pensiynau Gweddwon Rhyfel a dderbynnir gan yr hawlwyd hyn wrth gyfrifo'u hincwm at ddibenion cymorth gyda'r dreth gyngor (gweler uchod). Mae pob

	awdurdod lleol wedi dewis bod mor hael â phosib; gan ddiystyru 100% o'r pensiynau hyn.
Lwfans Gweithio	Y swm y caniateir i aelwydydd ei ennill mewn rhai amgylchiadau heb iddo beri i'w dyfarniad Credyd Cynhwysol ostwng. Y prif amgylchiadau yw aelwyd sydd â phlant neu bobl sydd â gallu cyfyngedig i weithio.
Asesiad Gallu i Weithio	Mae hon yn broses lle mae hawlwr sy'n sâl neu'n anabl yn cael eu hasesu'n ôl eu gallu i weithio. Mae yna dri chanlyniad posib: gellid barnu bod hawlwr yn ffit i weithio, gellid barnu bod ganddyn nhw 'allu cyfyngedig i weithio' (gweler isod), neu gellid barnu bod ganddyn nhw 'allu cyfyngedig ar gyfer gweithgaredd cysylltiedig â gwaith' (gweler isod).
WRAG	'Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith' Mae'r Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith yn categori lle mae rhywun yn cael ei leoli ar ôl ymgymryd ag Asesiad Gallu i Weithio ac y bernir bod ganddo Allu Cyfyngedig i Weithio (gweler uchod). Hyd at 2016, derbyniodd hawlwr yn y Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith breimiwm Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith (gweler isod).
A elwir hefyd yn 'Premiwm Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith'	Gweler 'Elfen Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith yr ESA'

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad interim hwn yn rhan o brosiect ymchwil blwyddyn o hyd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o ddeall effaith Credyd Cynhwysol yng Nghymru.

Y symbyliad i'r prosiect hwn yw cyflwyno Credyd Cynhwysol a'i roi ar waith ledled Cymru. Mae Credyd Cynhwysol yn disodli'r mwyafrif o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a chredydau treth sy'n gysylltiedig ag incwm i bobl o oedran gweithio ac mae bellach yn cael ei roi ar waith ledled y Deyrnas Unedig. Bydd y niferoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cynyddu'n sylweddol wrth i'r ymarfer 'Ymfudo a reolir' ddechrau (gan ddechrau gydag arbrawf yn Harrogate o fis Gorffennaf 2019) sy'n cynnwys trosglwyddo pawb sy'n dal i dderbyn budd-daliadau etifeddol i Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn debygol o ddechrau tua diwedd 2020, ar ôl cwblhau'r arbrawf.

Er mwyn deall effaith Credyd Cynhwysol yng Nghymru, ym mis Ionawr 2019 comisiynodd Llywodraeth Cymru Policy in Practice i gynnal astudiaeth gynhwysfawr ar ei effeithiau; astudiaeth blwyddyn o hyd. Mae'r prosiect yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth, arolygon gyda rhanddeiliaid a hawlwr UC, dadansoddiad o ddata gweinyddol a gedwir gan awdurdodau lleol, a dadansoddiad o'r data a roddir gan landlordiaid cymdeithasol. Mae'r ymchwil yn eang: mae holl awdurdodau lleol Cymru, pymtheng cymdeithas dai, a sawl cynrychiolydd sector rhent preifat wedi cymryd rhan hyd yma.

Yr hyn y mae'r prosiect yn canolbwyntio arno fwyaf yw dadansoddiad hydredol o effaith Credyd Cynhwysol dros gyfnod y prosiect. Mae hyn yn cynnwys olrhain data awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar incwm ac ôl-ddyledion aelwydydd dros amser. Nid oes gan landlordiaid y sector preifat y wybodaeth am yr aelwydydd - rhywbeth sy'n angenrheidiol i gymryd rhan yn yr agwedd hon ar yr ymchwil - ond maent yn cymryd rhan mewn arolwg sy'n ceisio deall effaith Credyd Cynhwysol. Bydd canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad terfynol yn gynnar yn 2020 a fydd yn cynnwys:

- Dealltwriaeth o gyfraddau ymfudo i Credyd Cynhwysol.
- Effaith Credyd Cynhwysol ar ddyledion rhent a'r dreth gyngor
- Effaith Credyd Cynhwysol ar lwyth achosion gostyngiadau'r dreth gyngor
- Golwg ar effaith Credyd Cynhwysol ar hawlwr a rhanddeiliaid, yn seiliedig ar arolygon ansoddol a chyfweliadau, gan ganolbwyntio ar ôl-ddyledion, cael at gymorth, a threfniadau talu amgen.

Mae'r adroddiad interim hwn yn canolbwyntio'n llwyr ar un elfen o'r gwaith ymchwil: effaith Credyd Cynhwysol ar Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) a diwygiadau posibl i'r CTRS fel bod lefel y cymorth a gynigir i ddinasyddion yng Nghymru, ac i'r niferoedd sy'n cael cymorth, yn cael ei chynnal yn gyffredinol wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol.

I aelwydydd, gall symud i Gredyd Cynhwysol gael effaith sylweddol ar ddyfarniadau gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae hyn yn bennaf oherwydd gwahaniaethau wrth asesu cymorth dan Gredyd Cynhwysol a than y systemau budd-daliadau etifeddol. Nid yw'r gwahaniaethau hyn yn cael effaith ar y rhai sy'n derbyn uchafswm dyfarniadau gostyngiadau'r Dreth Gyngor nad oes ganddynt incwm; mae'r rhain yn parhau i dderbyn dyfarniadau'n seiliedig ar 100% o atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Fodd bynnag, i aelwydydd eraill, gall symud i Gredyd Cynhwysol arwain at ostyngiadau sylweddol mewn cymorth gyda'r dreth gyngor.

Caiff y gwahaniaeth hwn mewn cymorth rhwng y ddwy gyfundrefn fudd-daliadau ei ddwysáu yng Nghymru gan nad yw cynllun cyfredol Cymru ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn cynnwys mesurau diweddar diwygio lles, megis cyflwyno'r terfyn dau blentyn neu gael gwared â'r premiwm teulu. Fodd bynnag, mae'r mesurau hyn wedi'u cynnwys yn yr asesiad o gymorth gyda'r dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Golyga hyn nad oes gan rai aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol hawl i gymaint o gymorth gyda'r dreth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried diwygiadau i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fydd yn cynyddu cydraddoldeb rhwng y ddwy gyfundrefn fudd-daliadau.

Pryder arall i Lywodraeth Cymru yw bod llwyth achosion CTRS wedi bod yn gostwng. Dechreuodd y gostyngiad hwn mewn llwyth achosion cyn i nifer sylweddol o drigolion symud i Gredyd Cynhwysol ac felly mae'n gysylltiedig â ffactorau eraill (megis newidiadau mewn amodau economaidd). Bydd astudiaeth hydredol o lwyth achosion, a gwaith ymchwil ansoddol i agwedd aelwydydd at ostyngiadau'r dreth gyngor, yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol yn gynnar yn 2020 ac, felly, dylid gallu deall mwy am y duedd hon. Serch hynny, mae pryder y bydd llwyth achosion yn gostwng hyd yn oed ymhellach wrth i fwy o aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol, yn bennaf oherwydd gwahanu'r prosesau hawlio cymorth tai a gostyngiad y dreth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried mesurau i

gynnal neu gynyddu llwyth achosion i sicrhau bod gostyngiad y dreth gyngor yn cyrraedd mwy o'r rhai hynny sy'n gymwys.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o'r ddarpariaeth gyfredol o ostyngiad y dreth gyngor ledled Cymru, a'r cynllun cyfredol fel yn y flwyddyn ariannol 2021-22 pan fydd mwy o boblogaeth Cymru wedi symud i Gredyd Cynhwysol. At hyn, dadansoddir cyfanswm gwerth y gostyngiadau ac effaith gymdeithasol cyflwyno chwe diwygiad gwahanol i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol. Dyluniwyd y diwygiadau posibl hyn i gynyddu cydraddoldeb rhwng aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol, ac i gynnal llwyth achosion. Mae'r adroddiad yn cynnwys canfyddiadau yn sgîl modelu'r chwe newid a ganlyn i'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS):

1. Cyflwyno didyniadau cyfradd safonol ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion - a fydd yn cynyddu haelioni'r cynllun.
2. Gostwng y tapr lle mae cymorth yn cael ei thynnu'n ôl yn raddol. Bwriad y mesur hwn yw cynyddu cymhellion i weithio a chynyddu haelioni ar gyfer aelwydydd sy'n gweithio.
3. Cyflwyno isafswm dyfarniad er mwyn creu neges syml ynghylch cymhwysedd ac, felly, hybu'r nifer sy'n derbyn cymorth.
4. Gostwng y Llawr Isafswm Incwm wrth asesu incwm aelwyd at ddibenion gostyngiad y dreth gyngor. Ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, ymdrinnir ag incwm o hunangyflogaeth mewn ffordd wahanol wrth asesu gostyngiad y dreth gyngor nag ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Dan fudd-daliadau etifeddol, mae asesiad o gymorth gyda'r dreth gyngor (a budd-daliadau eraill sy'n dibynnu ar brawf modd) yn seiliedig ar enillion hunangyflogedig yr adroddir amdanynt. Bydd y rhain yn debyg i enillion y rhoddir gwybod i Gyllid a Thollau EM amdanynt at ddibenion treth. Fodd bynnag, os yw'r aelwyd yn derbyn Credyd Cynhwysol, defnyddir incwm tybiannol yn seiliedig ar yr isafswm cyflog, ar gyfer Credyd Cynhwysol a Gostyngiad y Dreth Gyngor. Yr enw ar hyn yw'r Llawr Isafswm Incwm. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth hon, a luniwyd ar gyfer asesu Credyd Cynhwysol, yn cael ei hefelychu yng Nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru. Bwriad y diwygiadau i lefel y Llawr Isafswm Incwm a ddefnyddir i asesu gostyngiad y dreth gyngor yw cynyddu mwy o gydraddoldeb rhwng aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol.

5. Cael gwared â'r terfyn dau blentyn o'r asesiad o ostyngiad y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol er mwyn cynyddu cydraddoldeb rhwng aelwydydd â phlant sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, a
6. Cyflwyno cynllun â band incwm i symleiddio'r asesiad a chynnwys nifer yr ailasesiadau o geisiadau sy'n digwydd dan Gredyd Cynhwysol.

Mae'r adroddiad interim hwn yn rhoi gwybodaeth gychwynnol i Lywodraeth Cymru am yr effaith ar gyfanswm gwerth gostyngiadau a goblygiadau cymdeithasol cyflwyno'r mesurau hyn a bydd yn llywio penderfyniadau ar ragor o fodelau cymorth gyda'r dreth gyngor i'w cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Canfyddiadau allweddol

Gostyngiadau'r dreth gyngor yn 2018-19 a 2021-22

Yn 2018-19, cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ledled Cymru ar sail data byw heb ei archwilio oedd £265 miliwn. Cyfartaledd y cymorth i aelwydydd oedran pensiwn yng Nghymru oedd £18.80 yr wythnos tra bod hyn ychydig yn is i aelwydydd oedran gweithio, sef £18.00 yr wythnos. Roedd aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yng Nghymru'n derbyn dyfarniad Gostyngiad yn Nhreth y Cyngor oedd â chyfartaledd is, £16.30 yr wythnos, o'i gymharu â'u cymheiriaid sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol oedd yn cael £18.50 yr wythnos. Daw'r gwahaniaeth hwn yn sgîl cyfran uwch o aelwydydd un person yn derbyn Credyd Cynhwysol a'r gwahaniaeth mewn asesu Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

Pe câi'r cynllun cyfredol ei gadw hyd 2021-22, bydd cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor yn cynyddu i £303M oherwydd y cynnydd mewn atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor. Mae hyn yn gynydd o 14%, ychydig yn is na'r cynnydd cyfartalog mewn atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor, y mae disgwyl iddo fod yn 16%. Y prif reswm am hyn yw'r gostyngiad mewn cymorth i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Er bod y mwyafrif o grwpiau'n gweld cynnydd mewn cymorth, mae aelwydydd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol ac aelwydydd â pherson ag anabledd yn fwyaf tebygol o weld gostyngiad yn eu dyfarniad. Mae nifer o ffactorau'n gyfrifol am hyn:

- Mae cadw mwy o enillion a lwfans gweithio mwy hael dan Gredyd Cynhwysol yn arwain at incwm aelwyd uwch ac, felly, dyfarniad is o ran gostyngiad yn y dreth gyngor.
- Gwahaniaethau yn elfen “anghenion” yr asesiad dan Gredyd Cynhwysol. Mae symiau ychwanegol mewn perthynas ag anabledd (Premiymau Anabledd) wedi cael eu dileu¹ a darpariaethau diwygio lles eraill, megis y terfyn dau blentyn, cael gwared ar y premiwm Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA WRAG), a chael gwared ar yr hyn sy'n cyfateb i'r premiwm teulu wedi cael eu cyflwyno.
- Cyflwyno'r Llawr Isafswm Incwm mewn Credyd Cynhwysol ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig. Mae'r mesur hwn yn rhagdybio incwm tybiannol sy'n cyfateb i'r isafswm cyflog wedi'i luosi â'r oriau y mae disgwyl i'r hawlydd weithio. I lawer o aelwydydd hunangyflogedig mae hyn yn uwch na'r incwm hunangyflogedig sy'n cael ei ddatgan.
- Dileu diystyru enillion ar gyfer asesu gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

Bydd gostyngiadau'r dreth gyngor i aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gostwng 12% tra bydd aelwydydd hunangyflogedig yn gweld gostyngiad o 79% mewn cymorth.

Bydd aelwydydd sy'n gweithio ac sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu Daliadau Annibyniaeth Personol (PIP) sy'n ymfudo i Gredyd Cynhwysol yn gweld cymorth cyfartalog yn gostwng 22% oherwydd cael gwared â phremiymau anabledd.

Modelau

Nodir isod ganfyddiadau allweddol y modelau a archwiliwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil:

- Byddai **cyflwyno didyniadau safonol ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion (Model 1)** a osodir ar y gyfradd gyfredol isaf yn cael effaith ar 1,520 o aelwydydd ledled Cymru yn 2021-22. Byddai'r aelwydydd hyn yn gweld cynnydd o £5.70 yr wythnos ar gyfartaledd o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22. Aelwydydd

¹ Ni fydd aelwydydd sy'n derbyn y Premiwm Anabledd Difrifol yn symud i Gredyd Cynhwysol nes bod ymfudo a reolir yn digwydd a bod amddiffyn wrth bontio ar waith. Bydd aelwydydd sy'n derbyn premiymau anabledd eraill yn colli'r rhain os byddant yn symud i Gredyd Cynhwysol cyn ymfudo a reolir.

heb blant dibynnol fyddai'n gweld y cynnydd cyfartalog mwyaf yn y cymorth gyda'r dreth gyngor. Byddai cyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor yn 2021-22 yn cynyddu £0.4M.

- Byddai **newid y gyfradd tapr i 10%** (Model 2) yn cael effaith ar 26,400 o aelwydydd ledled Cymru yn 2021-22. Mae'r aelwydydd hyn yn gweld cynnydd o £6.00 yr wythnos ar gyfartaledd o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22. Yr aelwydydd fyddai fwyaf ar eu hennill ar y mesur hwn fyddai teuluoedd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol. Aelwydydd hunangyflogedig fyddai'n gweld y cynnydd cyfartalog mwyaf mewn cymorth (225%). Bydd cyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor hyd 2021-22 yn cynyddu £8M.
- Byddai **cyflwyno isafswm dyfarniad wedi'i osod ar 15% o atebolrwydd** (Model 3) yn cael effaith ar 2,620 o aelwydydd ledled Cymru yn 2021-22. Byddai'r aelwydydd hyn ar eu hennill o £1.60 yr wythnos ar gyfartaledd o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22. Y rhai fyddai'n fwyaf tebygol o fod ar eu hennill fyddai teuluoedd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol. Aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol fyddai'n gweld y cynnydd cyfartalog mwyaf mewn cymorth (9%). Byddai'r effaith ar gyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor hyd 2021-22 yn gynydd o lai nag 1%.
- Byddai **lleihau'r Llawr Isafswm Incwm yn y CTRS i fod yn seiliedig ar 16 awr yr wythnos (Model 4)** yn effeithio ar 510 o aelwydydd ledled Cymru yn 2021-22. Byddai'r aelwydydd hyn yn gweld cynnydd o £6.00 yr wythnos o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22. Byddai aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld cymorth yn cynyddu 328%. Byddai'r effaith ar gyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor hyd 2021-22 yn gynydd o lai nag 1%.
- Amcangyfrifir y bydd **dileu'r terfyn dau blentyn yn y CTRS (Model 5)** yn cael effaith ar 343 o aelwydydd ledled Cymru. Fodd bynnag, byddai'r nifer hon yn debygol o dyfu wrth i fwy o aelwydydd gael plant wedi'u geni ar ôl dyddiad gweithredu'r polisi ym mis Ebrill 2017. Byddai'r aelwydydd yr effeithir arnynt yn gweld cynnydd mewn dyfarniadau o £9.40 yr wythnos o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22. Yr aelwydydd fyddai'n fwyaf tebygol o fod ar eu hennill fyddai cyplau â phlant

(cynnydd o 2% ar gyfartaledd). Byddai'r effaith ar gyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor hyd 2021-22 yn gynydd o lai nag 1%.

- Byddai **cyflwyno cynllun â band incwm (Model 6) yn seiliedig ar y cynllun a gyflwynwyd gan Gyngor Dinas Newcastle** yn ailddosbarthol iawn ac ni fyddai 13,900 o aelwydydd yn gymwys i gael cymorth mwyach. Byddai'r model hwn yn golygu y bydd cyfanswm gwerth gostyngiadau gyda'r dreth gyngor £7M yn llai na phe câi'r cynllun cyfredol ei gadw hyd 2021-22.

Methodoleg a Chyfyngiadau

Mae modelu ar gyfer 2021-22 yn cynnwys newidiadau tebygol i gyfraddau cymorth lles, yr isafswm cyflog cenedlaethol, lwfansau treth, cyfraddau Lwfans Tai Lleol (LHA), costau rhent, a newid rheoliadol hysbys².

Ni all modelu blynyddoedd i ddod ystyried amodau macro-economaidd na newidiadau mewn polisi sy'n deillio o newid llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn benodol, nid yw'r gwaith modelu'n ystyried unrhyw effeithiau economaidd o adael yr Undeb Ewropeaidd nac unrhyw newidiadau polisi a allai ddeillio o newid llywodraeth rhwng 2019 a 2022.

Dim ond aelwydydd a gynrychiolir yn y setiau data a ddefnyddir ar gyfer y gwaith ymchwil hwn y caiff gwaith modelu ei ystyried. O'r herwydd ni all fodelu'r effaith ar lwyth achosion ac, felly, gost mesurau sy'n arwain at lwyth achosion uwch.

Mae lefel o ymfudo i Gredyd Cynhwysol hefyd wedi'i chynnwys. Bydd modelu yn cynnwys ymfudiad disgwyliedig o 15.5% o aelwydydd ychwanegol i Gredyd Cynhwysol erbyn 2021-22³.

Er mwyn galluogi cymharu cynlluniau wedi'u modelu yn erbyn y cynllun cyfredol yn 2021-22, mae cynnydd blynyddol cytunedig yn y dreth gyngor wedi'i gynnwys⁴.

Er bod yr holl awdurdodau lleol yn cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn, adeg y dadansoddiad, dim ond Detholiad Budd Aelwyd Sengl a Detholiad Cynlluniau

² Mae cyfraddau budd-daliadau yn unol â'r mesur chwyddiant a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cynyddu budd-daliadau (y codiad blynyddol i gyfraddau budd-daliadau, ym mis Ebrill yn nodweddiadol). Mae newidiadau eraill yn cael eu llywio gan ragfynegiadau o gyfradd chwyddiant a gyhoeddir yn flynyddol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Caiff cyfraddau LHA eu modelu gan dybio y daw unrhyw uwchraddio o'r lefel sylfaen gyfredol yn hytrach nag o fynd yn ôl i gyd-fynd â thrydydd ddegradd rhentu cyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor

³ Cytunwyd ar y lefel hon gyda Llywodraeth Cymru ac mae'n seiliedig ar y lefelau cyfredol a arsylwyd o 10% y flwyddyn yn cael eu cario drwodd i 2021-22 a rhagdybiaeth o lefelau ymfudo yn gostwng i 5% y flwyddyn erbyn 2021-22.

⁴ Gweler Atodiad A

Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, ar gyfer Mawrth 2019 yr oedd Policy in Practice wedi'u derbyn gan 16 o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Am y rheswm hwn, defnyddir ffactor cydraddoli ar gyfer aelwydydd i gynrychioli cyfanswm gwerth gostyngiadau ledled Cymru'n well.

1. Cyflwyniad a Chefnidir

- 1.1 Mae'r adroddiad interim hwn yn rhan o brosiect ymchwil blwyddyn o hyd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o ddeall effaith Credyd Cynhwysol yng Nghymru.
- 1.2 Y symbyliad i'r prosiect yw deall ymhellach effaith cyflwyno a rhoi Credyd Cynhwysol ar waith ledled Cymru. Mae Credyd Cynhwysol yn disodli'r mwyafrif o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a chredydau treth sy'n gysylltiedig ag incwm i bobl o oedran gweithio ac mae bellach yn cael ei roi ar waith ledled y Deyrnas Unedig. Mae gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol wedi bod ar gael ym mhob ardal yng Nghymru er mis Ionawr 2019, sy'n golygu bod yn rhaid i bob hawliwr budd-dal newydd sy'n dibynnu ar brawf modd a'r rheini ar fudd-daliadau 'etifeddol' y mae eu hamgylchiadau'n newid yn sylweddol, hawlio Credyd Cynhwysol yn unig. Bydd y niferoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cynyddu'n sylweddol wrth i'r ymarfer 'ymfudo a reolir' gychwyn (gan ddechrau gydag arbrawf o fis Gorffennaf 2019) sy'n cynnwys trosglwyddo pawb sy'n dal i gael budd-daliadau etifeddol i Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn debygol o ddechrau tua diwedd 2020, ar ôl cwblhau'r cyfnod peilot.
- 1.3 Nid yw cymorth ar gyfer y dreth gyngor wedi'i gynnwys yn y Credyd Cynhwysol ac, er 2013, mae Cynlluniau Lleol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru wedi rhoi cymorth i'r rhai mewn angen ariannol. Fodd bynnag, gall Credyd Cynhwysol gael effaith sylweddol ar ddyfarniadau gostyngiadau'r dreth gyngor, ac o bosibl llwyth achosion CTRS, ac mae angen deall yr effaith hon yn llawn. Dymuna Llywodraeth Cymru hefyd ystyried diwygiadau i ostyngiadau'r dreth gyngor yn lleol ac mae angen asesiadau effaith o wahanol fodelau amgen er mwyn dod i benderfyniad ar sail gwybodaeth.

- 1.4 At hyn, mae adroddiadau amrywiol ledled Prydain Fawr⁵ yn nodi bod dyluniad Credyd Cynhwysol hefyd yn cael effaith andwyol ar ôl-ddyledion treth a rhent cyngor, ac mae'n werth ymchwilio ymhellach i'r sefyllfa yng Nghymru.
- 1.5 Dymuna Llywodraeth Cymru hefyd gael gwell dealltwriaeth o effaith Credyd Cynhwysol ar drigolion a pha un a allai trefniadau talu amgen gynorthwyo preswylwyr wrth iddynt symud i'r budd-dal newydd.
- 1.6 Er mwyn deall y materion hyn, ym mis Ionawr 2019 comisiynodd Llywodraeth Cymru Policy in Practice i gynnal astudiaeth gynhwysfawr blwyddyn o hyd ar effeithiau. Mae'r prosiect yn cynnwys adolygiad llenyddol, arolygon gyda rhanddeiliaid a hawlwr Credyd Cynhwysol, dadansoddiad o ddata gweinyddol a gedwir gan awdurdodau lleol, a dadansoddiad o'r data a roddir gan landlordiaid cymdeithasol. Ymhlith y cyfranogwyr yn yr ymchwil hyd yma mae awdurdodau lleol Cymru, cymdeithasau tai, cynrychiolwyr y sector rhentu preifat, a hawlwr UC.

Yr adroddiad terfynol 2020

- 1.7 Yr hyn y mae'r prosiect yn canolbwyntio arno fwyaf yw dadansoddiad hydredol o effaith Credyd Cynhwysol dros gyfnod y prosiect. Mae hyn yn cynnwys olrhain data awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ar incwm ac ôl-ddyledion aelwydydd dros amser. Bydd canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad yn gynnar yn 2020. Bydd hyn yn cynnwys:
- Dealltwriaeth o gyfraddau ymfudo i Credyd Cynhwysol.
 - Effaith Credyd Cynhwysol ar ddyledion rhent a'r dreth gyngor
 - Effaith Credyd Cynhwysol ar lwyth achosion gostwng y dreth gyngor a newidiadau posib i'r cynllun CTRS.
 - Golwg ar effaith Credyd Cynhwysol ar hawlwr a rhanddeiliaid, yn seiliedig ar arolygon ansoddol a chyfweliadau, gan ganolbwyntio ar ôl-ddyledion, cael at gymorth, a threfniadau talu amgen.

⁵ Er enghraifft: J Millar and F Bennett, [Universal Credit: Assumptions, Contradictions and Virtual reality](#). (Cambridge Core: Social Policy and Society, 16(2), 169-182, 2017) a P Williams, A Clarke a C Whitehead, [Intended and unintended consequences? A case study survey of housing associations and welfare reforms](#), (Cambridge: Cambridge Centre for Housing & Planning Research, 2013)

Yr adroddiad interim

- 1.8 Mae'r adroddiad interim hwn yn canolbwyntio'n llwyr ar un elfen o ymchwil: effaith gwneud diwygiadau i Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor fel bod lefel y cymorth a gynigir i ddinasyddion yng Nghymru a'r niferoedd a gaiff gymorth yn cael eu cynnal yn gyffredinol wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol.
- 1.9 Mae'n edrych ar y ddarpariaeth gyfredol o ostyngiadau'r dreth gyngor cyfredol ledled Cymru, y cynllun cyfredol fel y bydd yn 2021-22 pan fydd mwy o boblogaeth Cymru wedi symud i Gredyd Cynhwysol ac effaith cyflwyno chwe addasiad gwahanol i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ar effaith addasiadau ar gyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor a goblygiadau cymdeithasol newid y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a bydd yn llywio penderfyniadau ar fodelau pellach i'w cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Cefndir

- 1.10 Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal newydd sy'n disodli ystod o fudd-daliadau a chredydau treth cysylltiedig ag incwm ar gyfer aelwydydd oedran gweithio. Mae Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn cyfeirio at y budd-daliadau a'r credydau treth y mae Credyd Cynhwysol yn eu disodli fel 'budd-daliadau etifeddol'. Pan gaiff ei roi ar waith yn llawn, bydd tua saith miliwn o aelwydydd yn y Deyrnas Unedig yn derbyn Credyd Cynhwysol a bydd y taliadau'n dod i gyfanswm o oddeutu £60 biliwn y flwyddyn.⁶
- 1.11 Hyd at fis Mai 2019, roedd 91,674 o aelwydydd yn derbyn Credyd Cynhwysol yng Nghymru. Nawr bod gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol wedi'i ei roi ar waith i bob Canolfan Gwaith, mae'n debygol y bydd y nifer hon yn cynyddu'n gyson wrth i aelwydydd ymfudo'n naturiol trwy newidiadau mewn amgylchiadau. Rhagwelir y bydd y nifer yn cynyddu i 400,000 o aelwydydd erbyn diwedd y cyfnod ymfudo a reolir, y mae disgwyl iddo gael ei gwblhau ar hyn o bryd yn 2023.⁷

⁶ [Universal Credit roll-out: 2018-19](#) (Papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin Rhif 8299, 14 Mehefin 2018)

⁷ [Dadansoddiad o effaith diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system les ar aelwydydd yng Nghymru](#) (Llywodraeth Cymru, Ionawr 2019)

- 1.12 Mae'r prosiect hwn yn archwilio sut mae'r broses o roi Credyd Cynhwysol ar waith yn cael effaith ar drigolion Cymru. Mae disgwyl i'r effaith fod yn eang, gan gael effaith ar ddyfarniadau gostyngiadau'r dreth gyngor lleol, lefelau ôl-ddyledion y dreth gyngor, llwyth achosion gostyngiadau'r dreth gyngor ac ôl-ddyledion rhent.

Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru

Cefndir y Cynllun yng Nghymru

- 1.13 Yn 2012, penderfynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddiddymu Budd-dal y Dreth Gyngor ac, yn lle hynny, hwyluso Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol i roi cymorth i'r aelwydydd hynny sydd ag angen ariannol yn Lloegr. Esboniodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig mai'r rhesymeg dros leoleiddio cymorth gyda'r Dreth Gyngor yn Lloegr, oedd, rhoi i awdurdodau lleol Lloegr fwy o ran yn nyfodol economaidd eu hardal leol. Gwnaed toriad o 10% yn y gyllideb yr un pryd, fel cyfraniad at y diffyg yng nghyllideb y DU. Nod Llywodraeth y Deyrnas Unedig oedd i awdurdodau lleol weithio ar dyfu eu heconomiâu lleol er mwyn gostwng nifer y preswylwyr oedd yn derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor. Defnyddiwyd y diffyg o 10% yn y cyllid hefyd i drosglwyddo cyllid i Lywodraethau Cymru a'r Alban a arweiniodd at drosglwyddo £222 miliwn i Gymru yn hytrach na chwrdd â'r swm llawn o dalu Budd-dal y Dreth Gyngor ar y pwynt trosglwyddo, sef £244 miliwn y flwyddyn.
- 1.14 Rhoddwyd pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru fabwysiadu cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a rhagnodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn cynllun neu beidio. Mae'n bwysig nodi nad yw'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn rhan o'r system fudd-daliadau - mae'n rhan annatod o system y dreth gyngor.
- 1.15 Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi nodi eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Yr egwyddorion allweddol yw:
- Cysondeb a thegwch mewn triniaeth ledled Cymru;
 - Fforddiadwyedd
 - Lleihau i'r eithaf y risg o beidio â chael cynllun newydd mewn pryd;
 - Osgoi newidiadau sydyn yn lefel y cymorth a ddarperir;

- Symleiddio a gwella system flaenorol Budd-dal y Dreth Gyngor lle bo hynny'n bosib.
- 1.16 Mae dyluniad y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol yng Nghymru'n dilyn yr egwyddorion hyn mewn sawl ffordd.
 - 1.17 Yn gyntaf, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol yng Nghymru'n cyd-fynd yn agos â hen Fudd-dal y Dreth Gyngor. Felly, mae'r rheoliadau'n dilyn yn agos y rhai hynny sy'n llywodraethu hen Fudd-dal y Dreth Gyngor, ac mae'r diwygiadau, er 2013, wedi bod yn dechnegol yn bennaf neu'n gysylltiedig â chynyddu cyfraddau budd-daliadau.
 - 1.18 Yn ail, rhoddodd Llywodraeth Cymru £22 miliwn yn ychwanegol yn 2013-14 "i gefnogi awdurdodau lleol i roi i bob aelwyd cymwys ei hawl lawn i gymorth, er gwaethaf y diffyg cyllid a drosglwyddwyd gan Lywodraeth y DU." Cyfrifwyd y cyllid ychwanegol hwn i gwrdd â swm llawn system Budd-dal y Dreth Gyngor ar adeg ei diddymu (£244 miliwn) ac mae'r un lefel o gymorth i gynghorau wedi'i chynnal ers hynny. Mae disgwyl i awdurdodau lleol yng Nghymru gynllunio ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor sy'n deillio o godiadau lleol yn y dreth gyngor. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r trefniant hwn yn adlewyrchu'r cyfrifoldeb a rennir am y cynlluniau.
 - 1.19 Yn drydydd, symleiddiodd Llywodraeth Cymru'r cynllun trwy ddiddymu'r Ad-daliad Ail Oedolyn ar gyfer pob ymgeisydd gan gynnwys pensiynwyr (yn wahanol i awdurdodau lleol Lloegr, mae gan Weinidogion Cymru'r awdurdod i benderfynu sut mae ei gynllun, a bennir yn ganolog, yn gweithredu ar gyfer pensiynwyr yn ogystal ag ar gyfer aelwydydd oedran gweithio).
 - 1.20 Yn olaf, penderfynodd Llywodraeth Cymru greu cynllun fframwaith cenedlaethol gyda'r disgresiwn lleiaf posib. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru fabwysiadu ei gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor ei hun yn seiliedig ar reoliadau'r gofynion rhagnodedig, gyda dim ond meysydd disgresiwn cyfyngedig i'w galluogi i "ystyried yr anghenion a'r blaenoriaethau yn eu hardaloedd lleol". Mae'r meysydd disgresiwn fel a ganlyn:

- Taliadau estynedig - cynyddu'r cyfnod y mae gan ymgeiswyr hawl i barhau i dderbyn gostyngiad mewn rhai amgylchiadau (rhedeg ymlaen) y tu hwnt i'r cyfnod safonol o bedair wythnos;
- Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel - diystyru mwy na'r £10 a ragnodir yn statudol o'r arian a dderbynnir mewn perthynas â'r pensiynau hyn wrth gyfrifo incwm;
- Ôl-ddyddio ceisiadau - ôl-ddyddio ceisiadau am ostyngiadau y tu hwnt i'r cyfnod safonol o dri mis; a
- Rhoi gwybod am benderfyniad - rhoi mwy na'r wybodaeth sylfaenol a ragnodir fel rhan o'u gwaith o roi gwybod am weithdrefnau penderfynu.

1.21 Mae pob awdurdod wedi diystyru 100% o bensiynau rhyfel (megis Pensiwn Gweddwon Rhyfel a Phensiwn Anabledd Rhyfel), nid oes unrhyw awdurdod wedi newid taliadau estynedig, ac mae un awdurdod (Bro Morgannwg) wedi cynyddu ôl-ddyddio o 3 i 6 mis.

1.22 Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi darparu ar gyfer cynllun diofyn a fyddai'n berthnasol pe bai awdurdod lleol yn methu â gosod ei gynllun ei hun, ond nid yw hyn wedi bod yn angenrheidiol hyd yn hyn. Mae rheoliadau'r cynllun diofyn hefyd yn dilyn hen reoliadau Budd-dal y Dreth Gyngor yn agos.

Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

1.23 Pan fydd aelwyd yn derbyn Credyd Cynhwysol, caiff hawl i gymorth gyda'r dreth gyngor ei gyfrifo yn wahanol i aelwydydd eraill ar incwm isel. Y swm cymwys o ran gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gartref sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yw uchafswm y Credyd Cynhwysol y gellir ei ddyfarnu dan amgylchiadau'r aelwyd honno. Incwm a chyfalaf yr ymgeisydd yw'r symiau a ddefnyddir wrth i'r Adran Gwaith a Phensiynau gyfrifo Credyd Cynhwysol, ynghyd â swm y dyfarniad Credyd Cynhwysol. Pwrpas y darpariaethau hyn yw sicrhau bod cyfrifo gostyngiadau'r dreth gyngor yn efelychu gwaith cyfrifo Credyd Cynhwysol cyn belled ag y bo modd ac y caiff cymhellion gweithio eu gwarchod.

- 1.24 Mae'r darpariaethau hyn yn bwysig er mwyn deall effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru. Penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio ag ymgorffori diwygiadau lles ehangach, megis y terfyn dau blentyn a diddymu'r premiwm teulu yn ei Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Felly, nid yw'r diwygiadau hyn yn y rheoliadau rhagnodedig, ac ni chânt eu defnyddio wrth gyfrifo gostyngiadau'r dreth gyngor i ymgeiswyr sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud newidiadau i'r rheoliadau rhagnodedig sy'n nodi sut y dylid cyfrifo cymorth gyda'r dreth gyngor pan fydd rhywun yn derbyn Credyd Cynhwysol (er y gallai wneud hynny). Fel y disgrifir uchod, mae'r gwaith cyfrifo'n cynnwys defnyddio uchafswm y Credyd Cynhwysol, ynghyd â'r incwm a dyfarniad y Credyd Cynhwysol a bennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Golyga hyn y bydd unrhyw ddiwygiadau lles sy'n cael effaith ar Credyd Cynhwysol (gan gynnwys y terfyn dau blentyn) yn cael eu defnyddio'n awtomatig wrth gyfrifo gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer hawl wyr Credyd Cynhwysol.
- 1.25 Oni bai bod Llywodraeth Cymru'n gwneud newidiadau i adrannau Credyd Cynhwysol y rheoliadau rhagnodedig, ni fydd gan rai aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol hawl i gymaint o ostyngiad yn y dreth gyngor o ganlyniad i ddiwygiadau lles sy'n gostwng y swm cymwys (megis y terfyn dau blentyn a diddymu'r premiwm teulu). Bydd rheolau Credyd Cynhwysol llai hael, megis y Llawr Isafswm Incwm, yn cael yr un effaith. Yn fyr, bydd y rhai sy'n colli dan Credyd Cynhwysol oherwydd y diwygiadau lles hyn, yn gyffredinol, yn cael llai o ostyngiad yn y dreth gyngor (oherwydd caiff gostyngiadau'r dreth gyngor eu cyfrifo gan ddefnyddio rheolau Credyd Cynhwysol) ac efallai bydd rhai yn colli gostyngiad yn y dreth gyngor yn gyfan gwbl.
- 1.26 Ar y llaw arall, bydd rhai aelwydydd yn ennill yn sylweddol dan Credyd Cynhwysol, yn enwedig y rhai sydd â lwfansau gwaith mwy hael, a bydd eu hincwm *cyffredinol* yn cynyddu hyd yn oed os bydd y gostyngiadau yn y dreth gyngor yn gostwng. Mae'n bwysig nodi pa aelwydydd y mae'r amrywiol ganlyniadau hyn yn cael effaith arnynt.

Effaith Credyd Cynhwysol ar Llwyth achosion Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

- 1.27 Mae tystiolaeth bod llwyth achosion gostyngiadau'r dreth gyngor yn syrthio ledled y Deyrnas Unedig, gan gyd-fynd â chyflwyno Credyd Cynhwysol. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (yr IFS) yn nodi bod llwyth achosion wedi syrthio 17% rhwng 2012-13 a 2017-18.⁸
- 1.28 Yng Nghymru, mae llwyth achosion CTRS hefyd wedi bod yn lleihau, er o ystyried y niferoedd cymharol fach sy'n derbyn Credyd Cynhwysol hyd yn hyn, gall y duedd hon fod am resymau eraill (e.e. amodau economaidd). Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adroddiad blynyddol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am llwyth achosion a chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae'r adroddiad diweddaraf, ar gyfer 2018-19, yn dangos bod 277,989 o aelwydydd yng Nghymru wedi cael gostyngiad yn y dreth gyngor yn 2018-19, o'i gymharu â 284,581 yn 2017-18, cwmp o 6,592 o achosion (2.4%).

Tabl 1.1: Newid mewn llwyth achosion cymorth gyda'r dreth gyngor 2013 – 2019

Llwyth Achosion CTRS	Mawrth 2013	Mawrth 2014	Mawrth 2015	Mawrth 2016	Mawrth 2017	Mawrth 2018	Mawrth 2019	% gostyngiad 2014-19
Cyfanswm	329,000*	316,732	307,137	299,185	291,891	284,581	277,989	12.2%
Pensiynwyr	-	133,000	127,098	124,065	119,930	116,823	113,966	14.3%
Oedran Gweithio	-	183,732	180,039	175,120	171,961	167,758	165,118	10.1%

*Llwyth achosion ym Mawrth 2013 pan gafodd Budd-dal y Dreth Gyngor ei ddiddymu

- 1.29 Awgryma Adroddiad Blynyddol 2018-19 Llywodraeth Cymru⁹ bod llwyth achosion oedran gweithio wedi gostwng oherwydd bod pobl yn gadael y system fudd-daliadau'n gyfan gwbl o ganlyniad i welliant yn y sefyllfa economaidd gyffredinol

⁸ Adam, Joyce & Pope, [The impacts of localised Council Tax Reduction Schemes](#) (IFS, 2019)

⁹ [Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Adroddiad Blynyddol 2018-19](#) (Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2019, tudalen 10-11 paragraff 3.3)

a/neu effeithiau cronnus diwygiadau lles. Mae'n awgrymu yr achosir gostyngiadau mewn llwyth achosion pensiynwyr gan gyfuniad o newidiadau diweddar i oedran pensiwn y wladwriaeth i fenywod, a'r ffaith bod carfanau newydd o bensiynwyr yn tueddu i fod ag incwm uwch, yn fwy tebygol o fod yn berchnogion-feddianwyr, ac yn llai tebygol o dderbyn gostyngiad yn y dreth gyngor. Ategir yr esboniadau hyn gan y ffaith y bu gostyngiadau mewn llwyth achosion ymhlith aelwydydd Lwfans Ceisio Gwaith a Chymhorthdal Incwm a chynnydd mewn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ac aelwydydd nad oes ganddynt hawl iddynt (mewn gwaith yn bennaf). Dadansoddodd Policy in Practice ddata gweinyddol 2019 gan bob awdurdod lleol ond un yng Nghymru i roi dadansoddiad pellach o'r llwyth gwaith cyfredol ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn yr adroddiad hwn.

Cyfradd Hawlio Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor ac Ymwybyddiaeth o'r Cynllun yng Nghymru

- 1.30 Mae Adroddiad¹⁰ diweddar gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn dyfynnu asesiad Llywodraeth Cymru o'i chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor sy'n awgrymu y gallai nifer yr aelwydydd incwm isel yng Nghymru sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor fod rhwng 55% a 65%. Mae hyn yn gyson â thueddiadau hanesyddol mewn cyfraddau hawlio¹¹ Budd-daliadau'r Dreth Gyngor ac mae'n golygu nad yw nifer sylweddol o aelwydydd incwm isel yn derbyn y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo.
- 1.31 Gallai Credyd Cynhwysol wneud y gyfradd hawlio gymharol isel hon yn waeth byth. Yn gyntaf, roedd Budd-dal y Dreth Gyngor yn aml yn cael ei hawlio ar yr un pryd â'r Budd-dal Tai, ond mae'n rhaid gwneud cais am ostyngiad yn y dreth gyngor ar wahân. Felly, efallai na fydd rhai aelwydydd yn gwneud cais. Yn ail, gallai darpar hawlwr Credyd Cynhwysol fynd ar goll yn y broses. Y rheswm dros hyn yw bod awdurdodau lleol yn dibynnu'n llwyr ar dderbyn data am Gredyd Cynhwysol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn cyfrifo hawl i ostyngiad yn y dreth gyngor. Fel rhan o'r hawliad am Gredyd Cynhwysol, lle nodir atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor,

¹⁰ [Ymateb i ddinasyddion sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus](#) (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Chwefror 2019)

¹¹ [Budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm: Amcangyfrif o'r gyfradd hawlio yn 2009-10: Datganiad Cyntaf Ystadegau Gwladol](#), Yr Adran Gwaith a Phensiynau (Ystadegau Gwladol), Mehefin 2013, tudalen 2 (amcangyfrifir bod y nifer sy'n hawlio Budd-dal y Dreth Gyngor fesul llwyth achos rhwng 62% a 69%).

gofynnir i'r hawliwr a ydyw eisoes yn hawlio gostyngiad yn y dreth gyngor gan ei awdurdod lleol, yn bwriadu hawlio, neu ddim eisiau hawlio. Os yw hawliwr Credyd Cynhwysol yn nodi ei fod yn hawlio, neu'n bwriadu hawlio cymorth gyda'r dreth gyngor, gosodir marciwr diddordeb sy'n sbarduno'r gwaith o drosglwyddo data o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Os bydd unrhyw un o'r trefniadau hyn yn torri i lawr, efallai na fydd rhai aelwydydd yn cael gwybod bod angen iddynt wneud cais ar wahân am ostyngiad yn y dreth gyngor.

- 1.32 Er mwyn mynd i'r afael â'r gyfradd hawlio CTRS isel, mae Llywodraeth Cymru wedi codi ymwybyddiaeth o'r gwahanol gymorth a gostyngiadau'r dreth gyngor sydd ar gael i aelwydydd - ymgyrch barhaus sy'n cynnwys posteri, cynnwys trwy sianeli digidol Llywodraeth Cymru a chyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu. Un o nodau'r ymgyrch yw annog aelwydydd i droi at wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwiriwr cymhwysedd am ostyngiad yn y dreth gyngor. Mae adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru¹² yn dadlau bod cyswllt personol wedi'i dargedu yn gweithio'n well na hysbysebu heb ei dargedu (megis taflenni neu hysbysebion radio), a bod gweithio mewn partneriaeth yn lleol (e.e. awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol a meddygon teulu) yn hanfodol bwysig. Bydd ymgyrch Llywodraeth Cymru yn cael ei hadolygu.
- 1.33 Un maes a adolygwyd fel rhan o'r prosiect hwn (ym mis Mawrth 2019) yw'r wybodaeth am y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar bob gwefan awdurdod lleol yng Nghymru. Gwelsom fod manylion sylfaenol am y cynllun ar gael ar y mwyafrif o wefannau ac yn benodol, ym mis Mawrth 2019:
- Ni chynigiodd pum awdurdod (23%) wasanaeth ar-lein i wneud cais am ostyngiad yn y dreth gyngor, er bod gan bob awdurdod rhywfaint o wasanaethau ar-lein.
 - Ar saith gwefan (32%), nid oedd dolen i ostyngiadau'r dreth gyngor trwy'r adran 'Y Dreth Gyngor' - yr unig ddolen oedd trwy 'Budd-dal Tai' neu 'Budd-daliadau'. Mae'r gwefannau gorau yn cyfuno 'Y Dreth Gyngor a Budd-daliadau'.

¹² [Ymateb i ddinasyddion sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus](#) (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Chwefror 2019)

- Dim ond dwy wefan oedd yn rhoi unrhyw wybodaeth fanwl, hygyrch am rôl Llywodraeth Cymru, lle esboniwyd elfennau dewisol y cynllun yn llawn.
- Nid oedd gan un awdurdod unrhyw wybodaeth am ostyngiadau'r Dreth Gyngor o gwbl.
- Rhestrwyd Gostyngiadau'r Dreth Gyngor mewn 11 rhestr A-Y o wasanaethau, ond nid oedd wedi'i restru mewn pump. Nid oedd gan bum gwefan restr A-Y o wasanaethau ac roedd un nad oedd yn gweithio ar y pryd.
- Roedd gan 17 gwefan (77%) gyfrifiannellau budd-daliadau ond roedd llawer o amrywiad a dim ond pedair wedi'u cysylltu â'r tair cyfrifiannell oedd ar gael ar wefan y llywodraeth.

1.34 Mae ein dadansoddiad o'r gwefannau hyn yn awgrymu y gallai bod yn ddefnyddiol cael gwybodaeth gliriach a chyfeiriadau at wefannau o ran y nifer sy'n hawlio gostyngiad yn y dreth gyngor. Dylid medru canfod eich ffordd yn hawdd o amgylch y wefan a dylai ceisiadau ar-lein fod yn rhywbeth arferol.

Effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion y Dreth Gyngor

1.35 Yn Lloegr, daw adroddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (yr IFS)¹³ i'r casgliad bod gostwng hawl aelwyd i ostyngiad yn y dreth gyngor wedi arwain at godiadau sylweddol yn swm y dreth gyngor sydd ddim yn cael ei chasglu. Mae'r IFS yn amcangyfrif na chaiff tua chwarter yr atebolrwydd ychwanegol i dalu'r Dreth Gyngor sy'n deillio o doriadau mewn cymorth ei gasglu yn ystod y flwyddyn y mae'n ddyledus. Mae hyn tua 10 gwaith yn uwch na'r gyfradd arferol o beidio â chasglu'r dreth gyngor. Fodd bynnag, oherwydd bod toriadau i ostyngiadau'r dreth gyngor yn fach o'i gymharu â chyfanswm y dreth gyngor, mae'r effaith ar gyfradd gyfanredol peidio â chasglu'n dal yn gymharol fychan - yn ei chynyddu o 2.5% i 2.7% ar gyfartaledd. Fe wnaeth cyflwyno isafswm taliad mewn awdurdod penodol hefyd achosi cynnydd sylweddol (15-20%) yn nifer y bobl yn yr awdurdod hwnnw oedd yn cysylltu â Chyngor ar Bopeth i gael cyngor neu help gyda'r dreth gyngor neu gyda Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Ymddengys mai'r prif fater sy'n arwain at y cynnydd

¹³ Adam, Joyce & Pope, [The impacts of localised Council Tax Reduction Schemes](#) (IFS, 2019)

yw ei gwneud yn ofynnol i aelwydydd dalu rhywfaint o'r dreth gyngor pan na fyddent fel arall wedi cael bil, yn hytrach na maint y biliau hynny.

- 1.36 Yng Nghymru, nid oes yr un aelwyd sy'n wynebu bil y Dreth Gyngor am y tro cyntaf yn uniongyrchol o ganlyniad i doriadau yn lefel y cymorth. Mae lefelau ôl-ddyledion y dreth gyngor wedi aros yn gyson dros amser neu wedi gostwng¹⁴. Yn y cyswllt hwn, ymddengys bod penderfyniad Llywodraeth Cymru i wneud iawn am y diffyg sy'n gysylltiedig â'r toriad o 10% mewn cyllid (yn hytrach na mentro bod awdurdodau lleol am ei drosglwyddo i aelwydydd incwm isel) wedi bod â goblygiadau cadarnhaol eraill.
- 1.37 Mae'r adolygiad tair blynedd o Gynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor¹⁵, oedd yn cynnwys Cymru yn ogystal â Lloegr, yn nodi bod y trefniadau yng Nghymru wedi golygu y bu gan awdurdodau lleol llai o feichiau gweinyddol, bod cyfraddau casglu wedi parhau'n dda, a nifer yr apeliadau'n isel o gymharu â Lloegr.
- 1.38 Fodd bynnag, noda data gan Gyngor ar Bopeth¹⁶ bod nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n ceisio cyngor ar ôl-ddyledion y Dreth Gyngor wedi cynyddu o oddeutu 100,000 -115,000 rhwng 2011-12 a 2013-14 i 150,000 -160,000 yn 2014-15 a 2015-16. Mae hyn yng nghyd-destun casglu cynyddol o'r dreth gyngor ledled Cymru a allai, mewn rhai achosion, arwain at fwy o ddyled a chaledi ariannol.
- 1.39 Yn yr un adroddiad, rhoddodd Cyngor ar Bopeth broffil o'r rhai sy'n ceisio cymorth mewn perthynas ag ôl-ddyledion y Dreth Gyngor ledled Cymru a Lloegr:
- Roedd bron i 90% o oedran gweithio;
 - Roedd bron i 3 o bob 10 yn byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd tymor hir;
 - Roedd 1 o bob 5 yn gyflogedig;
 - Roedd 6 o bob 10 yn rhentu eu haelwydydd, naill ai'n landlord preifat neu gymdeithasol;
 - Roedd gan 2 o bob 5 blant dibynnol ar yr aelwyd.

¹⁴ [Ôl-ddyledion treth gyngor, yn ôl awdurdod bilio \(£ mil\)](#) (Ffynhonnell: StatsCymru)

¹⁵ Eric Ollerenshaw, [Three years on: an independent review of local council tax support schemes](#) (Tudalennau 88-90, Mawrth 2016)

¹⁶ [Tegwch i Bawb: Gwella sut y cesglir dyledion y dreth gyngor yng Nghymru](#) (Cyngor ar Bopeth, tud 13 a 15, 20-16)

Effaith Credyd Cynhwysol ar Ôl-ddyledion Rhent

1.40 Mae'r potensial i Gredyd Cynhwysol arwain hawlwr i gronni ôl-ddyledion rhent, neu fynd i ddyled yn ehangach, wedi'i nodi'n gyson mewn ymchwil ar y pwnc. Dadleuir bod sawl nodwedd o Gredyd Cynhwysol sy'n gwneud ôl-ddyledion o'r fath yn debygol:

- Gorfod aros pum wythnos cyn y gwneir taliad Credyd Cynhwysol cychwynnol;
- Talu unrhyw elfen dai o ddyfarniad Credyd Cynhwysol yn uniongyrchol i denantiaid yn hytrach na thalu hwn i landlordiaid. Dan Fudd-dal Tai, gwnaed taliadau i landlordiaid rhent cymdeithasol yn ddiofyn ac i landlordiaid y sector preifat ar gais;
- Strwythur talu misol Credyd Cynhwysol, sy'n hwy na chyfnodau cyllidebu llawer o hawlwr ac a allai hefyd ddwysáu pwysau cyllidebol.

1.41 Dengys adroddiadau ymchwil¹⁷ yn gyson bod Credyd Cynhwysol yn gysylltiedig â chyfraddau ôl-ddyledion rhent uwch na thenantiaid nad ydynt yn derbyn Credyd Cynhwysol, nac ymhlith y rhai sy'n derbyn Budd-dal Tai. Er enghraifft, canfu gwaith ymchwil gan The Smith Institute¹⁸ fod ôl-ddyledion rhent yn fwy o broblem dan Gredyd Cynhwysol na'r system Budd-dal Tai. Bu iddynt ddarganfod 'bod lefel y tandaliad yn amrywio'n helaeth er nad oedd tenantiaid Credyd Cynhwysol yn fwy tebygol o dandalu na thenantiaid Budd-dal Tai. Roedd 39% o achosion o dandaliad [mewn Credyd Cynhwysol] yn fwy na 75% o'r rhent sy'n ddyledus. 8% yn unig oedd y ffigur Budd-dal Tai. Maent yn nodi bod ôl-ddyledion yn cronni'n gyflym ac yna'n sefydlogi, gyda'r effaith bod 'ôl-ddyledion yn cronni'n gyflym o fewn cyfnod o dri mis.'

¹⁷ Er enghraifft: J Millar and F Bennett, [Universal Credit: Assumptions, Contradictions and Virtual reality](#). (Cambridge Core: Social Policy and Society, 16(2), 169-182, 2017) a P Williams, A Clarke a C Whitehead, [Intended and unintended consequences? A case study survey of housing associations and welfare reforms](#). (Cambridge: Cambridge Centre for Housing & Planning Research, 2013).

¹⁸ P Hunter, [Safe as houses: the impact of Universal Credit on tenants and their rent payment behaviour in the London boroughs of Southwark and Croydon, and Peabody, London](#) (The Smith Institute, 2017) [Safe as Houses 2: A follow-on report into the impact of Universal Credit on Southwark Council's housing tenants rent payment behaviour](#) (The Smith Institute, 2018)

- 1.42 Canfu adroddiad dilynol gan The Smith Institute¹⁹ bod patrwm o dandalu wedi ailymddangos dros y tymor hwy er bod ôl-ddyledion yn cael eu cynhyrchu yn ystod wythnosau cychwynnol hawliad. Maent yn nodi: ‘Yn wythnos 20 mae tenantiaid at ei gilydd yn talu’r rhent sy’n ddyledus. Fodd bynnag, wrth i amser fynd yn ei flaen, mae patrwm o dandalu’n ailymddangos. Mae’r canfyddiadau’n awgrymu bod gan y rhai sydd â hawliadau lluosog am Gredyd Cynhwysol ôl-ddyledion uwch ac y gallai hawliadau lluosog achosi ôl-ddyledion parhaus’.
- 1.43 Canfu arolwg o 174 o landlordiaid cymdeithasol yn Lloegr, yr Alban a Chymru, a gyhoeddwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam yn Chwefror 2015²⁰ ‘y bydd angen cymorth ar 26 y cant o denantiaid, ar gyfartaledd, i symud i daliadau uniongyrchol neu byddant yn ei chael yn anodd ymdopi â thaliadau uniongyrchol hyd yn oed gyda chymorth’ a bod landlordiaid yn credu y byddent yn cael trafferth ymlaen llaw i nodi aelwydydd sydd mewn perygl o fynd i ôl-ddyledion rhent. O’r rhai a arolygwyd, roedd bron pob un (98%) o landlordiaid yn disgwyl y byddai talu Budd-dal Tai yn uniongyrchol yn cynyddu ôl-ddyledion rhent.
- 1.44 Felly, mae’r ymchwili bresennol yn tueddu i dynnu sylw at gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent, yn enwedig ar y pwynt trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol. Mae llai o gytundeb ar yr hyn sy’n digwydd ar ôl y cyfnod cychwynnol o bum wythnos, gyda gwahanol astudiaethau (ac weithiau gwahanol landlordiaid yn yr un astudiaeth) yn nodi gwahanol ganlyniadau.
- 1.45 Ym Mehefin 2019 dywedodd Gweinidog yr Adran Gwaith a Phensiynau ar y pryd, Alok Sharma, fod yr Adran yn ymchwilio i’r cyswllt rhwng Credyd Cynhwysol ac ôl-ddyledion rhent.²¹ Aeth yn ei flaen i ddyfynnu adroddiad o Orffennaf 2018, gan Ffederasiwn Cenedlaethol y Sefydliadau Rheolaeth Hyd Braich (ALMOs) fod 75% o hawlwr oedd ag ôl-ddyledion rhent eisoes ag ôl-ddyled cyn i’w cais am gredyd cynhwysol ddechrau a chrybwyllodd ganfyddiadau’r Adran Gwaith a Phensiynau

¹⁹ [Safe as Houses 2: A follow-on report into the impact of Universal Credit on Southwark Council’s housing tenants rent payment behaviour](#) (The Smith Institute, 2018)

²⁰ S Green, K Reeve, D Robinson and E Sanderson, [Direct Payment of Housing Benefit: Are Social Landlords Ready?](#) (Sheffield: CRESR, Prifysgol Sheffield Hallam, 2015).

²¹ [Credyd Cynhwysol a Dyled](#) (Dadl yn Nhŷr Cyffredin, 5 Mehefin 2019)

mewn gwaith ymchwil cynnar²² fod nifer yr hawlwyd ag ôl-ddyledion wedi gostwng o draean ar ôl pedwar mis. Rhoddwyd ymateb tebyg i gwestiwn Seneddol yn 2017.²³

1.46 Os cydnabyddir bod hawlwr yn agored i niwed, gall fod eithriadau i'r ffordd y caiff Credyd Cynhwysol ei dalu, trwy ddefnyddio Trefniadau Talu Amgen. Gall Trefniadau Talu Amgen fod ar dair ffurf:

- Elfen tai y Credyd Cynhwysol yn cael ei thalu'n uniongyrchol i landlord yr hawlwr. Gelwir hyn yn 'Taliad a Reolir i Landlord';
- Strwythur talu'n amlach – gan amlafaf, symud i daliadau bob pythefnos. Ystyrir taliadau wythnosol hefyd mewn amgylchiadau eithriadol;
- Rhannu taliadau fel bod y ddau unigolyn mewn cwpl yn cael dyfarniad.

1.47 O ran cyffredinolrwydd Trefniadau Talu Amgen, dengys yr ystadegau Credyd Cynhwysol diweddaraf gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol adeg ysgrifennu (Mai 2019)²⁴ bod gan 20% o'r dyfarniadau (210,000), sy'n cynnwys elfen tai, drefniant Taliad a Reolir i Landlord. Mae hyn yn cynnwys 11,500 o ddyfarniadau yng Nghymru. Mae taliadau a reolir i landlordiaid yn llawer mwy cyffredin yn y sector rhentu cymdeithasol nag ar gyfer hawlwyd sy'n byw yn y sector rhentu preifat.

1.48 Yn Awst 2018, adroddodd Cartrefi Cymunedol Cymru²⁵ ganlyniadau arolwg o 23 o gymdeithasau tai. O'r 6,892 o denantiaid sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, newidiodd yr Adran Gwaith a Phensiynau 1,029 (14%) ohonynt i daliad a reolir oherwydd eu bod yn agored i niwed. At hyn, roedd didyniadau trydydd parti am ôl-ddyledion rhent yn cael eu tynnu oddi wrth 280 o'r 6,892 o denantiaid (4%). Cyfanswm ôl-ddyledion rhent y 6,892 o denantiaid hyn oedd £2.82 miliwn - £409 y tenant ar gyfartaledd.

1.49 Mae dadansoddwyr Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n cynnal gwaith ymchwil ar ôl-ddyledion rhent gyda nifer o ddarparwyr tai a'u gobaith yw bod mewn sefyllfa yn gynnar yn 2020 i gyhoeddi ei gasgliadau.

²² [Universal Credit: test and learn evaluation - families](#) (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Medi 2017)

²³ [Ôl-ddyledion rhent a Chredyd Cynhwysol](#) (Ymateb i Gwestiwn Seneddol – 13 Tachwedd 2017)

²⁴ [Ystadegau Credyd Cynhwysol](#) (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 13 Awst 2019)

²⁵ Sharon Collard, Helen Hodges a Paul Worthington, [Ymateb i ddinasyddion sydd mewn dyled i wasanaethau cyhoeddus: Adolygiad tystiolaeth cyflym](#) (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: tudalen 18 ar gyfer ymchwil gan Cartrefi Cymunedol Cymru, Chwefror 2019)

- 1.50 Bydd yr adroddiad terfynol ar gyfer Llywodraeth Cymru'n cynnwys dadansoddiad pellach o effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent trwy ddadansoddi data hydredol, arolygon a chyfweliadau.

2. Methodoleg

- 2.1 Cynhaliwyd y gwaith modelu yn yr adroddiad hwn ar lefel aelwydydd. Mae data aelwydydd ar hawlwyr gostyngiadau'r dreth gyngor cyfredol wedi'i roi i Policy in Practice ar ffurf y Detholiad Budd-dal Tai Sengl (SHBE)²⁶ a'r detholiad Data Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR)²⁷ gan awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan. Cynrychiolir data ar aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn y detholiad CTR yn unig. Mae data personol wedi'i eithrio. Mae Policy in Practice yn trosi'r data hwn i fformat y gellir ei ddefnyddio gan eu meddalwedd, y Gyfrifiannell Budd-daliadau a Chyllidebu (BBC). Mae'r peiriant cyfrifo'n ei gwneud yn bosib cael newidiadau bydeang mewn fformwleiddiadau budd-daliadau, a newidiadau wedi'u modelu ar gyfer pob aelwyd yn y set ddata. Yna crynhoir y rhain i ddod i werthoedd cyfanredol ar gyfer Gostyngiad yn y Dreth Gyngor a'i effaith.
- 2.2 Er mwyn galluogi cymharu cynlluniau wedi'u modelu yn erbyn y cynllun cyfredol yn 2021-22, mae cynnydd blynyddol cytunedig yn y dreth gyngor wedi'i gynnwys. Mae cyfradd y cynnydd yn y dreth gyngor a ddefnyddir yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer pob cyngor dros y tair blynedd diwethaf. Caiff hon ei chymhwyso, ar wahân, i dâl treth gyngor pob cyngor cyn dadansoddi data. Nodir yn atodiad A y codiadau yn y dreth gyngor a ddefnyddir yn y gwaith modelu.
- 2.3 Cynhwysir lefel o ymfudo y cytunwyd arni i Gredyd Cynhwysol hefyd. Bydd y gwaith modelu yn cynnwys ymfudiad disgwylidig o 15.5% ychwanegol o hawlwyr i Gredyd Cynhwysol erbyn 2021-22. Cytunwyd ar y lefel hon gyda Llywodraeth Cymru ac mae'n seiliedig ar y lefelau cyfredol a arsylwyd o 10% y flwyddyn yn cael eu cario drwodd i 2021-22 a rhagdybiaeth o lefelau ymfudo yn gostwng i 5% y flwyddyn erbyn 2021-22.
- 2.4 Mae modelu ar gyfer 2021-22 yn cynnwys newidiadau tebygol i gyfraddau cymorth lles, yr isafswm cyflog cenedlaethol, lwfansau treth, cyfraddau Lwfans Tai Lleol (LHA), costau rhent, a newid rheoliadol hysbys. Mae cyfraddau budd-daliadau'n unol â'r mesur chwyddiant a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cynyddu budd-

²⁶ Mae'r Detholiad Budd-dal Tai Sengl (SHBE) yn sgan electronig misol o ddata lefel hawlwyr yn uniongyrchol o systemau cyfrifiadurol awdurdodau lleol ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

²⁷ Mae'r Detholiad Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTR) yn sgan electronig o ddata gostyngiadau'r dreth gyngor a roddir i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG).

daliadau (y codiad blynyddol a ddefnyddir gyda chyfraddau budd-daliadau, ym mis Ebrill fel arfer). Caiff newidiadau eraill eu llywio gan ragfynegiadau o gyfraddau chwyddiant a gyhoeddir yn flynyddol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol²⁸. Mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol wedi'u modelu gan dybio y daw unrhyw uwchraddio o'r lefel sylfaen gyfredol yn hytrach nag o ddychwelyd i gyd-fynd â'r drydydd ddegradd o daliadau rhent.

- 2.5 Mae'n werth nodi na all modelu blynyddoedd i ddod ystyried amodau macro-economaidd na newidiadau mewn polisi sy'n deillio o newid llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn benodol, nid yw'r gwaith modelu'n ystyried unrhyw effeithiau economaidd o adael yr Undeb Ewropeaidd nac unrhyw newidiadau polisi a allai ddeillio o newid Llywodraeth rhwng 2019 a 2022.
- 2.6 At hyn, dim ond yr aelwydydd a gynrychiolir ar hyn o bryd yn y setiau data y gall y gwaith modelu eu hystyried. O'r herwydd, ni all ragweld newid ymddygiad mewn ymateb i addasu'r cynllun. Ni all mesurau penodol sy'n arwain at gymhwysedd ehangach fodelu cynnydd mewn llwyth achosion na'r cynnydd yn sgil hyn yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor. Lle digwydd hyn, gallai modelu arwain at roi amcangyfrif rhy isel ar y gost. Fodd bynnag, lle gall addasu arwain at fwy o faich achosion, nodir hyn yn nhestun yr adroddiad hwn.
- 2.7 Defnyddiodd Policy in Practice ddata poblogaeth o 16 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Er mwyn rhoi cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor a ffigurau llwyth achosion ledled Cymru, defnyddiwyd lluosydd yn seiliedig ar lwyth achosion gan yr awdurdodau oedd yn weddill ac a dynnwyd o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Adroddiad Blynyddol 2018-2019.²⁹
- 2.8 Mae'r holl waith modelu ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar lwyth achosion y flwyddyn gyfredol (2018-19). Fel y cyfryw, nid yw gwaith modelu'n ystyried unrhyw newid yng nghynrychiolaeth gyfrannol gwahanol fathau o aelwydydd.
- 2.9 Mae mwy o wybodaeth am ffynonellau data, prosesu data, rhagdybiaethau modelu a phrosesu dadansoddol ar gael yn atodiad C yr adroddiad hwn.

²⁸ [The economy forecast: Inflation](#) (y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol)

²⁹ [Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Adroddiad Blynyddol 2018-19](#) Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2019)

3. Dadansoddiad o'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru

- 3.1 Dan gynllun cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru, mae'r asesiad i ddarganfod lefel y gostyngiadau'r dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn wahanol i'r broses asesu ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Golyga hyn bod symud i Gredyd Cynhwysol yn aml yn sbarduno newid yn swm y gostyngiad yn y dreth gyngor. Er bod hyn yn wir am y mwyafrif o'r cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn y Deyrnas Unedig, gall y gwahaniaeth yn lefel y gostyngiad yn y dreth gyngor rhwng y ddwy gyfundrefn fudd-daliadau fod yn fwy yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Y rheswm am hyn yw nad yw cynllun Cymru ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn ymgorffori diwygiadau lles ehangach Llywodraeth y Deyrnas Unedig megis y terfyn dau blentyn, diddymu elfen ychwanegol Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA WRAG), a diddymu'r premiwm teulu. I aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, mae'r newidiadau hyn wedi'u hymgorffori yn ochr "anghenion" ac incwm yr asesiad ar gyfer Gostyngiadau'r Dreth Gyngor.
- 3.2 Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried addasu'r cynllun cyfredol i sicrhau tegwch rhwng aelwydydd dan y ddwy gyfundrefn fudd-daliadau. Amcan ychwanegol yw sicrhau bod unrhyw gynllun newydd yn cynnal, neu'n cynyddu, nifer yr aelwydydd sy'n derbyn cymorth. Mae hyn yn peri pryder arbennig o ystyried effaith bosibl Credyd Cynhwysol ar lwyth achosion.
- 3.3 Yn y rhan hon o'r adroddiad ceir archwiliad o Gynllun cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru ac effaith cadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22, pan fydd mwy o aelwydydd wedi ymfudo drosodd i Gredyd Cynhwysol. Yn Rhan 3 o'r adroddiad hwn ceir effaith gymdeithasol ac ariannol nifer o fodelau ar gyfer addasu'r cynllun. Bydd effaith y modelau hyn yn llywio dyluniad rhagor o fodelau i'w cynnwys yn yr adroddiad terfynol i'w gynhyrchu gan Policy in Practice ar gyfer Llywodraeth Cymru yn 2020.

Y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol

- 3.4 Ers diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor yn 2013, mae'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru wedi cyd-fynd yn agos â rhagflaenydd Llywodraeth y DU a ddyluniwyd yn ganolog. Er 2013, mae diwygiadau wedi bod yn fân a naill ai o natur dechnegol neu'n ymwneud â chodi cyfraddau budd-daliadau. Mae'r cynllun yn caniatáu cyn lleied o ddisgresiwn lleol â'r rheoliadau rhagnodedig.
- 3.5 Mae pob aelwyd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol sy'n dibynnu ar brawf modd (fel Lwfans Ceisio Gwaith (JSA), Cymhorthdal Incwm (IS) a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)) ac aelwydydd sy'n derbyn yr uchafswm Credyd Cynhwysol yn derbyn cymorth yn seiliedig ar 100% o'u hatebolrwydd. I'r aelwydydd hyn, yr unig reswm y caiff lefel y cymorth ei gostwng dan 100% o'r atebolrwydd yw er mwyn ystyried cyfraniadau disgwylidig oedolion eraill ar yr aelwyd (didyniadau person nad yw'n ddibynnydd).
- 3.6 Mae asesiad o gymorth i aelwydydd nad ydynt yn derbyn budd-dal etifeddol sy'n dibynnu ar brawf modd, neu Gredyd Cynhwysol llawn yn wahanol yn ôl trefn budd-daliadau.
- I aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, caiff incwm a enillir ei gymharu ag asesiad o anghenion. Gelwir cyfanswm yr anghenion ar gyfer aelwyd yn y *Swm Cymwys*. Mae hyn yn cynnwys symiau penodol ar gyfer yr aelwydydd ac ychwanegiadau penodol (premiymau ac elfennau) yn seiliedig ar amgylchiadau fel anabledd, salwch, neu gyfrifoldebau gofalu. Wrth fesur yr angen, dewisodd Llywodraeth Cymru beidio â chynnwys mesurau diwygio lles megis y terfyn dau blentyn, diddymu'r Premiwm Teulu a diddymu'r premiwm Grŵp Gweithgareddau Cysylltiedig â Gwaith y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA WRAG). Mae unrhyw incwm sy'n uwch na'r Swm Cymwys yn cael ei leihau trwy ddiystyru enillion penodol. Mae'r gweddill yn lleihau uchafswm y dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor 20%. Caiff swm unrhyw ddyfarniad ei ostwng ymhellach gan unrhyw ddiidyniad ar gyfer person nad yw'n ddibynnydd.
 - I aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, gan gynnwys y rhai hynny a gaiff eu rheoli gan drefniadau amddiffyn wrth bontio dan ymfudo a reolir, caiff

incwm ei gymharu ag uchafswm y dyfarniad Credyd Cynhwysol ar gyfer yr aelwyd honno. Mae'r uchafswm dyfarniad hwn yn ymgorffori newidiadau i fudd-daliadau lles Llywodraeth y DU megis y terfyn dau blentyn, diddymu'r premiwm Grŵp Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, diddymu'r hyn sy'n cyfateb i'r premiwm teulu (dyfarniad ychwanegol i'r plentyn cyntaf), a chyflwyno incwm tybiannol ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig (y Llawr Isafswm Incwm). Mae cyfrifo uchafswm y Credyd Cynhwysol yn cynnwys swm ar gyfer pob person yn yr aelwyd, ynghyd â symiau ychwanegol ar gyfer tai, salwch, costau gofal plant a gofalu (gelwir y rhain yn elfennau). Nid oes unrhyw beth sy'n cyfateb â'r premiymau anabledd etifeddol wrth asesu angen. Caiff incwm ei gymharu ag uchafswm y Credyd Cynhwysol ac mae unrhyw incwm uwchben lefel uchafswm y Credyd Cynhwysol yn gostwng uchafswm dyfarniad y gostyngiad yn y dreth gyngor 20%. Caiff didyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion eu defnyddio yn yr un modd â than asesiad budd-daliadau etifeddol.

- 3.7 Mae'r gwahaniaethau asesu hyn yn arwain at rai aelwydydd yn colli gostyngiad yn y dreth gyngor wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. Dim ond nifer gymharol fach o aelwydydd sy'n gweld eu dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu ar ôl symud i Gredyd Cynhwysol. Y rheswm dros hyn yw oherwydd bod y mesur o angen dan Gredyd Cynhwysol fel arfer yr un peth neu'n is na than fudd-daliadau etifeddol, lle mae incwm a ystyrir at ddibenion asesu fel arfer yr un peth neu'n uwch na than fudd-daliadau etifeddol.
- 3.8 I rai o'r aelwydydd sy'n colli gostyngiad yn y dreth gyngor, daw'r golled yn sgîl incwm uwch dan Gredyd Cynhwysol, felly, efallai na fyddant yn gweld llai o incwm cyffredinol ar yr aelwyd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y rheini ag enillion sy'n elwa o lwfansau gweithio Credyd Cynhwysol ac yn cadw mwy o'r incwm a enillir dan Gredyd Cynhwysol o'i gymharu â buddion etifeddol. Mae lwfansau gweithio yn fodd i aelwydydd gadw lefel benodol o enillion cyn i Gredyd Cynhwysol gael ei ostwng ac mae'n berthnasol i'r rheini â phlant neu'r rhai sy'n rhy sâl i weithio.

- 3.9 Fodd bynnag, gallai aelwydydd eraill weld gostyngiad yn y Credyd Cynhwysol a'r gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae hyn yn digwydd pan fydd newidiadau'n gostwng ochr anghenion yr asesiad a'r dyfarniad Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar aelwydydd hunangyflogedig (oherwydd cymhwyso'r Llawr Isafswm Incwm), ac aelwydydd gyda pherson anabl (oherwydd cael gwared ar y premiymau anabledd).


Llwyth Achosion Cyfredol a Chyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

- 3.10 Mae cyfrif y llwyth achosion ar gyfer CTRS yng Nghymru yn 2018-19 yn defnyddio data'r llwyth achosion gwirioneddol a dderbyniwyd gan 16 awdurdod lleol yng Nghymru. Er mwyn rhoi cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor a ffigurau llwyth achosion ledled Cymru, defnyddiwyd lluosydd yn seiliedig ar lwyth achosion gan yr awdurdodau oedd yn weddill ac a dynnwyd o Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Adroddiad Blynyddol 2018-2019.³⁰ Yn 2018-19, derbyniodd 277,600 o aelwydydd ostyngiad yn y dreth gyngor yng Nghymru.
- 3.11 Dim ond i'r 166,600 o aelwydydd o oedran gweithio y mae diwygiadau i'r CTRS sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymchwil hon yn cael eu cymhwyso gan fod ffocws yr ymchwil ar yr aelwydydd hynny y mae Credyd Cynhwysol³¹ yn effeithio arnynt. Nid yw'r 111,000 o aelwydydd oedran pensiwn yn gweld effaith y Credyd Cynhwysol ac, felly, cânt eu modelu trwy'r adroddiad hwn dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol.
- 3.12 O'r aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn cymorth ar hyn o bryd, mae 31,800 yn derbyn Credyd Cynhwysol ac mae 134,800 yn derbyn budd-daliadau etifeddol.

³⁰ [Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Adroddiad Blynyddol 2018-19](#) (Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2019)

³¹ Mae cyplau sy'n cynnwys un person o oedran pensiwn ac un o oedran gweithio (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel Cyplau Oedran Cymysg) yn parhau i dderbyn buddion etifeddol nes bydd newid mewn amgylchiadau ac felly byddant yn cael eu cynnwys yn bennaf fel o oedran pensiwn ar gyfer yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae unrhyw hawliadau gan gyplau oedran cymysg a wneir ar ôl 15 Mai yn cael eu cyfrif fel oedran gweithio yn unol â'r rheoliadau Credyd Cynhwysol.

Ffigwr 3.1: Cyfran Cyfanswm y Llwyth Achosion yng Nghymru yn ôl Grŵp Oedran
 Dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor yn ôl grŵp oedran



- 3.13 £265M oedd cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor yn 2018-19. Mae £109M o'r swm hwn ar gyfer cymorth i'r rhai o oedran pensiwn a £156M ar gyfer cymorth i'r rhai o oedran gweithio. Y dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfartaledd ar gyfer aelwydydd oedran gweithio yn 2018-19 yw £18.00 yr wythnos. Mae aelwydydd oedran pensiwn yn derbyn dyfarniad cyfartalog ychydig yn uwch o £18.80 yr wythnos.
- 3.14 Mae aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn derbyn cymorth wythnosol is ar £16.30 yr wythnos nac aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (£18.50 yr wythnos). Mae nifer o ffactorau'n gyfrifol am hyn:
- Y gyfradd tapr a lwfansau gweithio:** Dan Gredyd Cynhwysol mae aelwydydd sy'n gweithio yn cadw, yn gyffredinol, gyfran uwch o'r incwm a enillir. Y rheswm dros hyn yw bod cymorth yn cael ei dynnu ar 63c am bob punt a enillir. Dan fudd-daliadau etifeddol, caiff cymorth ei dynnu ar gyfradd gyflymach (mae'r gyfradd yn dibynnu ar y budd-dal a dderbynnir). At hyn, mae Credyd Cynhwysol yn cynnwys lwfansau gweithio ar gyfer aelwydydd â phlant ac ar gyfer y rhai sy'n rhy sâl i weithio. Mae'r rhain yn symiau y gall yr aelwyd eu hennill heb unrhyw ostyngiad yn y Credyd Cynhwysol a ddyfernir. Mae cadw'r incwm uwch a enillir dan Gredyd Cynhwysol oherwydd y gyfradd

tapr a'r lwfansau gweithio yn golygu bod incwm aelwyd rhai enillwyr yn uwch, sy'n arwain at lai o ostyngiad yn y dreth gyngor. Ni wneir iawn am hyn gan y rhai sydd ag incwm aelwyd is oherwydd terfyn y cymorth sy'n 100% o'r atebolrwydd.

- Gwahaniaethau Demograffig:** Mae demograffeg aelwydydd sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor ac yn derbyn Credyd Cynhwysol yn wahanol i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Mae cyfran uwch amlwg o'r rhai sy'n derbyn Lwfans Gofalwyr a'r rhai sydd yn y grŵp Cymorth Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu y bernir bod ganddynt allu cyfyngedig ar gyfer gweithgaredd cysylltiedig â gwaith (LCWRA) yn derbyn budd-daliadau etifeddol. Mae 14% o aelwydydd sy'n derbyn cymorth gyda'r dreth gyngor ac sy'n derbyn budd-dal etifeddol yn ofalwyr ac mae 47% yn y grŵp Cymorth Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (neu gyfwerth). Mae hyn yn cymharu â 4% a 12% yn y drefn hon dan Gredyd Cynhwysol. Y rheswm dros hyn yw natur cyflwyno'r Credyd Cynhwysol gan ganolbwyntio ar ei gyflwyno'n gynnar i ystod gul o hawl wyr. Ers hynny, mae symud i Gredyd Cynhwysol yn dibynnu ar newid mewn amgylchiadau ac mae hyn yn cael effaith anghymesur ar geiswyr gwaith sengl.

Tabl 3.1: Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Llwyth Achosion: Cynllun Cyfredol yng Nghymru yn ôl Grŵp Oedran


Grŵp oedran	Nifer yr aelwydydd	Gostyngiad yn y Dreth Gyngor £ yr wythnos	Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor £ y flwyddyn
Pawb o oedran gweithio	166,600	£18.00	£156M
Aelwydydd UC	31,800	£16.30	£27M
Aelwydydd nad ydynt yn derbyn CC	134,800	£18.50	£129M
Oedran pensiwn	111,100	£18.80	£109M
Cyfanswm	277,600	£18.40	£265M

Dadansoddiad Demograffig o Gyfanswm Gwerth Cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Lefelau Dyfarnu (Aelwydydd Oedran Gweithio)


Cyfansoddiad Aelwydydd

- 3.15 Mae aelwydydd person sengl yn cyfrif am 49% o aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Gostyngiad yn y Dreth Gyngor, tra bod 42% â phlant ar yr aelwyd. Mae'r 9% sy'n weddill yn gyplau heb blant. Rhennir cyfran yr aelwydydd â phlant yn aelwydydd unig riant (31%) ac aelwydydd â dau riant (11%). Mae'r ffigurau ar gyfer cyfran o gyfanswm gwerth gostyngiadau'r Dreth Gyngor a ddyfernir i'r is-setiau hyn yn debyg, er ei bod yn naturiol yn amrywio ychydig, gan y bydd gwerth ariannol y cymorth yn amrywio rhwng aelwydydd.
- 3.16 Mae'r gostyngiad cyfartalog wythnosol yn y dreth gyngor ar ei huchaf i gyplau heb blant, sef £22.90 yr wythnos, gydag unig rieni'n derbyn y lefel isaf o ostyngiad cyfartalog yn y dreth gyngor. Mae modd esbonio'r gwahaniaethau hyn gydag amgylchiadau'r aelwydydd hyn. Ymhlith yr aelwydydd incwm isel a gynrychiolir yn y set ddata, mae aelwydydd â phlant yn fwy tebygol o fod mewn gwaith. Felly, mae unig rieni'n fwy tebygol o fod mewn gwaith nac aelwydydd un person ac, o ganlyniad, yn derbyn llai o ostyngiad yn y dreth gyngor. Rhoddir mwy o ostyngiad yn y Dreth Gyngor i gyplau heb blant oherwydd bod llawer o'r aelwydydd hyn yn cynnwys rhywun sy'n rhy sâl i weithio, gyda'r partner yn ofalwr.

Ffigwr 3.2: Cyfran o Gyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2018-19, yn ôl Cyfansoddiad yr Aelwyd




Ffigwr 3.3: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2018-19, yn ôl Cyfansoddiad Aelwydydd




Statws economaidd

- 3.17 Mae'r mwyafrif o'r gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio yn cynorthwyo'r rhai nad ydynt mewn gwaith. Mae 84% o gyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor i bobl oedran gweithio yn mynd i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith. Mae 13% o'r cymorth ar gyfer aelwydydd cyflogedig incwm isel a 3% ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig incwm isel.
- 3.18 Mae'r cymorth wythnosol cyfartalog ar gyfer aelwydydd oedran gweithio ar ei uchaf i aelwydydd hunangyflogedig, sef £20.00 yr wythnos. Mae hyn yn cymharu â £14.10 yr wythnos i aelwydydd cyflogedig. Y rheswm pennaf am hyn yw llai o enillion aelwydydd hunangyflogedig nag aelwydydd cyflogedig.

Ffigwr 3.4: Cyfran Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2018/19, yn ôl Statws Economaidd




Ffigwr 3.5: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2018-19, yn ôl Statws Economaidd



Band y Dreth Gyngor

- 3.19 Mae'r mwyafrif o gyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor oedran gweithio ar gyfer aelwydydd yn y bandiau treth gyngor is, gyda 62% o'r gwariant yn mynd i aelwydydd ym mand A a B. Y rheswm dros hyn yw mai'r bandiau hyn yw'r rhai a gynrychiolir fwyaf yn y setiau data, gyda band Treth Gyngor B yn y dreth gyngor moddol yn y set ddata. Er hynny, er bod y mwyafrif o daliadau gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn mynd i aelwydydd band is, mae lefel y dyfarniad wythnosol cyfartalog i aelwydydd unigol yn cynyddu gyda'r band treth gyngor. Y rheswm dros hyn yw bod dyfarniadau'n seiliedig ar atebolrwydd i dalu felly mae'r rhai mewn bandiau uwch ac, felly, sydd ag atebolrwydd i dalu treth gyngor uwch, yn derbyn mwy o gymorth wythnosol.

Ffigwr 3.6: Cyfran Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2018/19, yn ôl Band y Dreth Gyngor




Ffigwr 3.7: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2018-19, yn ôl Band y Dreth Gyngor




Deiliadaeth

- 3.20 Mae'r gyfran fwyaf o ostyngiadau'r dreth gyngor oedran gweithio ar gyfer cefnogi aelwydydd sy'n rhentu eiddo. Yn y grŵp hwn, mae aelwydydd yn y sector rhentu cymdeithasol yn derbyn 49% o'r holl gymorth ac mae'r rhai yn y sector rhentu preifat yn derbyn 23% o'r holl gymorth.
- 3.21 Mae 28% o'r holl gymorth yn mynd i berchnogion-feddianwyr ac aelwydydd nad yw eu deiliadaeth yn hysbys. Serch hynny, mae dyfarniadau wythnosol cyfartalog ychydig yn uwch i berchnogion-feddianwyr, gyda dyfarniad wythnosol o £19 yr wythnos ar gyfartaledd o'i gymharu â dyfarniadau cyfartalog o £18 yr wythnos i denantiaid. Mae hyn yn adlewyrchu'r tebygolrwydd mwy y bydd perchnogion-feddianwyr mewn eiddo ym mandiau uwch y Dreth Gyngor.

Ffigwr 3.8: Cyfran Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2018/19, yn ôl Deiliadaeth




Ffigwr 3.9: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2018-19, yn ôl Deiliadaeth



Aelwydydd sy'n agored i niwed

- 3.22 Mae aelwydydd lle mae person o oedran gweithio'n byw ag anabledd neu salwch, neu lle mae person yn gofalu am blentyn bach dan bum mlwydd oed yn cael eu cynrychioli'n anghymesur ymhlith aelwydydd incwm isel. Y rheswm tebygol am hyn yw heriau wrth geisio cael gwaith. Mae 66% o'r gostyngiadau cyfredol yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran gweithio yn mynd i aelwydydd sy'n dod o fewn y categorïau hyn.
- 3.23 Mae unig rieni sydd â phlentyn dan bum mlwydd oed yn derbyn dyfarniadau treth gyngor wythnosol is, gyda dyfarniad cyfartalog o £16 yr wythnos. Mae hyn yn is na dyfarniadau treth gyngor i'r rhai sy'n sâl, sy'n byw ag anabledd, neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Y rheswm dros hyn yw'r tebygolrwydd uwch bod unig rieni mewn gwaith na grwpiau eraill sy'n agored i niwed. At hyn, mae'r asesiad o anghenion grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn uwch nag ar gyfer unig rieni gan ei fod yn ymgorffori symiau ychwanegol penodol oherwydd salwch neu ofalu.

Ffigwr 3.10: Cyfran Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2018-19 ar gyfer Aelwydydd sy'n Agored i Niwed, yn ôl Math o Aelwyd sy'n Agored i Niwed



Ffigwr 3.11: Gostyngiad Wythnosol Cyfartalog yn y Dreth Gyngor 2018-19, yn ôl Math o Aelwyd sy'n Agored i Niwed



Cynnal y Cynllun Cyfredol yn 2021-22

- 3.24 Byddai cynnal y cynllun cyfredol yn 2021-22 yn cynyddu cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn o £265M yn 2018-19 i £303M yn 2021-22 oherwydd codiadau mewn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Mae hyn yn gynydd o £38M neu 14% yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor.
- 3.25 Pe bai Llywodraeth Cymru yn cadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22, byddai nifer yr aelwydydd o oedran gweithio sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor yn lleihau ychydig o'i gymharu â 2018-19, gyda 1,350 o aelwydydd yn colli'r cymorth hwn yn gyfan gwbl. Daw colli cymorth yn sgîl cyfuniad o ffactorau, yn cynnwys cynnydd yn yr isafswm cyflog cenedlaethol a'r gostyngiad mewn cymorth i aelwydydd wrth iddynt ymfudo i Gredyd Cynhwysol.

Tabl 3.2: Cynnal y system gyfredol hyd 2021-22: Cyfanswm Blynyddol Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor pe bai'r cynllun cyfredol yn cael ei gadw yn 2021-2022		Cymhariaeth â chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y cynllun cyfredol	
Grŵp	£ y flwyddyn	Newid (£ y flwyddyn)	Newid (%)
Pawb o oedran gweithio	£176M	£20M	13%
Oedran Pensiwn	£127M	£18M	17%
Cyfanswm	£303M	£38M	14%

- 3.26 Byddai cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor yn cynyddu 13% i aelwydydd oedran gweithio o gymharu â 17% i aelwydydd oedran pensiwn. Mae'r gwahaniaeth mewn cynnydd rhwng aelwydydd o oedran gweithio ac aelwydydd oedran pensiwn yn bennaf oherwydd y gostyngiad llai yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd sy'n gweithio o dan Gredyd Cynhwysol, gan adlewyrchu'r ffaith bod mwy o'r incwm a enillir yn cael ei gadw yn y system Credyd Cynhwysol. In addition, the planned increases in the national minimum wage and personal tax allowance by 2021-22 will increase earnings and so reduce the number of working-age households receiving council tax reduction awards.
- 3.27 Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y bydd aelwydydd ar eu hennill o ran y gostyngiad yn y dreth gyngor, yn bennaf oherwydd codiadau yn y dreth gyngor (edrychir ar hyn isod).

Tabl 3.3: Cynnal y system gyfredol hyd 2021-22: Lefelau Gostyngiad Wythnosol

Grŵp	Gostyngiad yn y dreth gyngor o dan y cynllun cyfredol yn 2021-22 (£ yr wythnos)	Newid o'i gymharu â 2018-19 (£ yr wythnos)	Newid (%)
Pawb o oedran gweithio	£20.40	£2.30	13%
Credyd Cynhwysol	£18.90	£1.80	10%
Budd-daliadau etifeddol	£21.00	£2.60	14%
Oedran Pensiwn	£22.00	£3.10	17%
Cyfanswm	£21.00	£2.70	14%

3.28 Mae aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn gweld cynnydd o 14% ar gyfartaledd yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor (£2.60 yr wythnos). Mewn cymhariaeth, mae aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld eu gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu 10% (£1.80 yr wythnos) ar gyfartaledd. Mae'r cynnydd i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn unol â'r cynnydd yng nghodiad y dreth gyngor rhwng 2018-19 a 2020-21 (16% ar gyfartaledd ar draws yr holl awdurdodau lleol). Fodd bynnag, mae aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd o 4% yn is na'r codiad yn y dreth gyngor. Y rheswm dros y gwahaniaeth hwn yw bod llawer o'r aelwydydd hyn wedi'u modelu fel rhai sy'n ymfudo i Gredyd Cynhwysol o fudd-daliadau etifeddol ac, felly, yn cael eu hasesu dan ddarpariaethau'r Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf.

3.29 Disgwylir gostyngiad ar gyfartaledd yn y gostyngiad yn y dreth gyngor wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol oherwydd:

- Cadw mwy o enillion a lwfans gwaith mwy hael dan Gredyd Cynhwysol, sy'n arwain at ostwng mwy ar y gostyngiad yn y dreth gyngor gan y gyfradd tapr.
- Gwahaniaethau yn elfen "anghenion" yr asesiad dan Gredyd Cynhwysol. Cafwyd gwared â phremiymau anabledd a chyflwynwyd darpariaethau

diwygio lles eraill, megis y terfyn dau blentyn, cael gwared ar breimiwm Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, a chael gwared ar yr hyn sy'n cyfateb i'r premiwm teulu.

- Cyflwyno Llawr Isafswm Incwm ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig.
- Dileu diystyru enillion ar gyfer asesu gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

3.30 Fodd bynnag, mae'n werth nodi, i rai aelwydydd, yn enwedig y rhai sy'n ennill a hefyd nad ydynt yn cael eu heffeithio gan ddiwygiadau lles eraill, mae cadw mwy o enillion o dan Gredyd Cynhwysol yn golygu efallai na fydd yr aelwydydd hyn yn waeth eu byd yn gyffredinol.

Effeithiau cymdeithasol a gwleidyddol cynnal y cynllun cyfredol hyd 2021-22

- 3.31 Pe bai'r cynllun cyfredol yn cael ei gynnal hyd 2021-22, byddai aelwydydd oedran gweithio'n gweld cynnydd o 13% yn y eu gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae hyn yn ystyried y codiadau y mae eu disgwyl yn y dreth gyngor ym mhob awdurdod lleol erbyn 2021/22.³² Y cynnydd cyfartalog cyffredinol yn y dreth gyngor ledled Cymru yw 5% y flwyddyn ac 16% dros y tair blynedd. O'i gymharu â'r cynnydd cyfartalog hwn yn y dreth gyngor o 16%, mae'r cynnydd cyfartalog yn y dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor o 13% i bobl o oedran gweithio felly'n cynrychioli gostyngiad bach mewn gwirionedd yn y gefnogaeth gyfartalog.
- 3.32 Mae'r gwahaniaeth rhwng y codiadau y mae eu disgwyl mewn gostyngiadau yn y dreth gyngor ac atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor yn ymylol i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (-1%) ac yn fawr ddim i'r rhai sydd eisoes yn derbyn Credyd Cynhwysol (-0.4%). Fodd bynnag, bydd aelwydydd sy'n ymfudo i Gredyd Cynhwysol o fudd-daliadau etifeddol rhwng 2018-19 a 2021-22 yn gweld cynnydd yn y cymorth, sef 11% yn is na chyfradd y cynnydd mewn atebolrwydd.

³² Mae codiadau yn y dreth gyngor ar gyfer 2019 i 2021 yn cael eu cyfrifo ar gyfer pob awdurdod lleol yn seiliedig ar y codiad yn y dreth gyngor yn y 3 blynedd blaenorol.

Tabl 3.4: Cymharu'r Gostyngiad yn y Dreth Gyngor (£/wythnos) rhwng 2018-19 a 2021-22 a'r Newid Cymharol i'r Cynnydd mewn Atebolrwydd i Dalu'r Dreth Gyngor

	Cynllun cyfredol 2018-19	Cynllun cyfredol 2021-22	Newid mewn perthynas â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor
Pawb o oedran gweithio	£18.00	£20.40	-2%
Hawl wyr etifeddol	£18.50	£21.00	-1%
Hawl wyr Credyd Cymhwysol sydd wedi ymfudo	£18.40	£19.20	-11%
Hawl wyr cyfredol Credyd Cymhwysol	£16.30	£18.70	-0.04%

3.33 Yn gyffredinol, disgwylir lleihad mewn dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor oherwydd y cynnydd yn yr isafswm cyflog a lwfansau treth personol a fydd yn cynyddu enillion erbyn 2021-22. At hyn, mae disgwyl lleihad mewn dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol oherwydd cadw mwy o'r incwm a enillir a gwahaniaethau yn yr asesiad o gymorth.

3.34 Wrth ddadansoddi effeithiau cynnal y cynllun cyfredol hyd 2021-22, mae gwahaniaethau nodedig rhwng grwpiau.


Gwahaniaethau mewn effaith yn ôl statws economaidd

3.35 Byddai aelwydydd oedran gweithio ledled Cymru sy'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig yn gweld cynnydd o 2% ar gyfartaledd yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor, sy'n sylweddol is na'r cynnydd cyfartalog o 16% a ddisgwylir yn y dreth gyngor ond bydd y gostyngiad cyfartalog yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n gweithio ac sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gostwng o gymharu â lefelau cyfredol. Byddai aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld gostyngiad o £1.40 yr wythnos, neu 12%. Mewn cymhariaeth, mae aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn gweld cynnydd o £1.20 yr

wythnos neu 8%. Y rheswm pam fod y cyfartaledd cyffredinol ar gyfer aelwydydd sy'n gweithio yng Nghymru yn dangos cynnydd yw bod y rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn llawer uwch na'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw'r asesiad gwahanol o anghenion ac incwm rhwng y ddwy drefn fudd-daliadau.

- 3.36 Mae aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld gostyngiad o £15.20 yr wythnos neu 79% yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfartaledd. Y rheswm am hyn yw bod 98% o aelwydydd hunangyflogedig sydd wedi'u modelu fel rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn 2021-22 wedi ymfudo ar draws i'r budd-dal rhwng 2018-19 a 2021-22. O ganlyniad i hyn, mae aelwydydd hunangyflogedig y mae disgwyl iddynt fod mewn gwaith yn ddarostyngedig i'r Llawr Isafswm Incwm am y tro cyntaf. I'r aelwydydd hyn, mae incwm yn seiliedig ar swm tybiannol a ddaw o'r isafswm cyflog cenedlaethol sy'n uwch na'r enillion hunangyflogedig y rhoddir gwybod amdanynt ac a ddefnyddir i asesu budd-daliadau etifeddol. Mae aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol ac, felly, nad ydynt yn ddarostyngedig i'r Llawr Isafswm Incwm, yn gweld cynnydd o £2.60 yr wythnos neu 13% yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor.
- 3.37 Mae aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith, p'run a ydynt yn derbyn budd-daliadau etifeddol neu Gredyd Cynhwysol, yn gweld cynnydd yn eu dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor sydd yn fras yn unol â'r cynnydd mewn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Bydd yr aelwydydd hyn yn parhau i gael gostyngiad yn y dreth gyngor ar sail 100% o'u hatebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor, namyn unrhyw ddiidyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion.
- 3.38 Mae'r gyfran fawr o aelwydydd sydd allan o waith ac yn y set ddata oedran gweithio yn golygu bod aelwydydd oedran gweithio, ar gyfartaledd, yn gweld cynnydd yn eu dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor erbyn 2021-22, er gwaethaf y gostyngiad a brofir gan y rhai sy'n gyflogedig ac yn hunangyflogedig ac ar Gredyd Cynhwysol, fel y trafodir uchod.


Ffigwr 3.12: Newid Canrannol mewn Dyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor o'r Cyfredol i 2021-22, yn ôl Statws Economaidd ar gyfer Aelwydydd Oedran Gweithio



Gwahaniaethau yn ôl cyfansoddiad aelwydydd

- 3.39 Mae aelwydydd oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth (mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gyflogedig ac yn hunangyflogedig gyda'i gilydd) yn gweld y golled fwyaf mewn cymorth wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. Ymhlith yr aelwydydd incwm isel sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor ac a gynrychiolir yn y data sydd ar gael, mae aelwydydd â phlant yn fwy tebygol o weithio nac aelwydydd heb blant. Felly, mae cyplau â phlant yn fwy tebygol o weld colli cymorth cyfartalog wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. I lawer o'r aelwydydd hyn, gwneir iawn am y golled o ran y gostyngiad yn y dreth gyngor trwy'r incwm uwch a ddaw o Gredyd Cynhwysol.

Ffigwr 3.13: Newid Canrannol mewn Dyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor o'r Cyfredol i 2021-22, yn ôl Math o Aelwyd




Gwahaniaethau mewn effaith yn ôl salwch neu statws anabledd

- 3.40 Yn 2021-22, bydd y newid cyfartalog ar gyfer pob aelwyd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol lle mae person yn rhy sâl i weithio, neu'n derbyn budd-dal anabledd, yn gynydd o 12% ar y lefelau gostyngiadau'r dreth gyngor cyfredol. Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd oedran gweithio ar gyfer aelwydydd Credyd Cynhwysol (10%). Sylwer, mae aelwydydd oedran gweithio'n cynnwys y rhai sy'n gyflogedig, yn hunangyflogedig ac allan o waith.
- 3.41 Erbyn 2021-22, bydd y mwyafrif o aelwydydd lle caiff person ei ystyried yn rhy sâl i weithio neu i baratoi ar gyfer gwaith (h.y. y rhai yn y grŵp Cymorth Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu dan Gredyd Cynhwysol y bernir bod ganddynt Allu Cyfyngedig ar gyfer Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith) hefyd yn gweld lefel gyfartalog eu gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu. Fodd bynnag, bydd aelwydydd sy'n gweithio ac yn derbyn Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn aml yn wynebu lleihad yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor. Y rheswm am hyn yw nad yw asesiad o'r angen dan Gredyd Cynhwysol yn

efelychu symiau ychwanegol (premiymau anabledd) sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad ar gyfer y rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Ni fydd y rhai sy'n derbyn budd-daliadau anabledd ac yn gweithio'n cael eu dosbarthu fel rhai sydd â Gallu Cyfyngedig i Weithio, ac felly ni fyddant yn elwa o'r elfen Gallu Cyfyngedig ar gyfer Gweithgaredd sy'n Gysylltiedig â Gwaith o fewn Credyd Cynhwysol, a fydd yn gwneud iawn am golli premiymau anabledd i aelwydydd eraill. Mae hyn yn arwain i aelwydydd sy'n derbyn budd-dal anabledd yn gweld eu dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor yn gostwng 22%.

- 3.42 Ar hyn o bryd, mae darpariaeth yn ei lle i sicrhau nad yw'r rhai sy'n derbyn budd-dal anabledd ac nad oes neb yn darparu gofal ar eu cyfer yn cael eu symud i Gredyd Cynhwysol hyd nes bod trefniant amddiffyn wrth bontio yn ei lle. Mae hyn yn rhoi gwarchodaeth i'r rhai hynny sy'n derbyn Premiwm Anabledd Difrifol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni chaiff y warchodaeth hon ei hymestyn i'r rhai hynny sy'n derbyn premiymau anabledd eraill (megis y premiwm anabledd, y premiwm plentyn anabl neu'r premiwm anabl uwch) dan fudd-daliadau etifeddol.

Ffigwr 3.14: Newid Canrannol mewn Dyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor o'r Cyfredol i 2021-22, yn ôl Statws Anabledd



Y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cyfredol Tablau Ategol

3.43 Mae tablau data cryno ar y cynllun cyfredol (2018-19) a'r cynllun cyfredol a gedwir hyd 2021-22 i'w gweld isod. Mae'r tablau'n dangos:

- **Tabl 3.5:** lefelau wythnosol cyfartalog dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran gweithio, wedi'u dadansoddi'n ôl math yr aelwyd, ynghyd â'r dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor wythnosol yn 2021-22 a'r cynnydd canrannol. Sylwch fod y * yng ngholofn 7 yn dynodi maint poblogaeth fach o 474 o aelwydydd.
- **Tabl 3.6:** incwm mynd adref³³ aelwydydd oedran gweithio yn 2018-19 a 2021-22, wedi'i ddadansoddi'n ôl math yr aelwyd, ynghyd â'r newid canrannol. Mae incwm mynd adref yn cynnwys yr holl incwm a gynrychiolir yn y set ddata. Dengys aelwydydd Credyd Cynhwysol y rhai hynny'n unig sy'n ymfudo i Gredyd Cynhwysol o 2018-19 i 2021-22. Caiff aelwydydd sydd eisoes yn derbyn Credyd Cynhwysol eu heithrio gan fod y mwyafrif llethol yn geiswyr gwaith ac, felly, nid ydynt yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan ar incwm isel.
- **Tabl 3.7:** incwm mynd adref aelwydydd oedran gweithio yn 2018-19 a 2021-22, wedi'i ddadansoddi'n ôl y math o fudd-dal.

³³ Mae'r incwm mynd adref yn cynnwys yr holl incwm a gynrychiolir yn y set ddata. Mae hyn yn cynnwys incwm o fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd (fel -Lwfans Ceisio Gwaith sy'n dibynnu ar brawf moddy Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Seiliedig ar Incwm, y Cymhorthdal Incwm, Credyd Cynhwysol), gostyngiad yn y dreth gyngor, enillion, incwm hunangyflogedig, budd-dal plant, cynhaliaeth, incwm grant myfyrwyr ac incwm o fudd-daliadau arall (megis budd-dal plant, Lwfans Gofalwyr, Lwfans Byw i'r Anabl, Taliadau Annibyniaeth Personol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau.)

Tabl 3.5: Cymhariaeth o Ddyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor (£ yr wythnos)

		Cynllun cyfredol 2018- 19	Cynllun cyfredol 2021- 22	Hawlwyr etifeddol 2021- 22	Hawlwyr UC sydd wedi ymfudo 2021- 22	Hawlwyr UC cyfredol 2021- 22
Band y Dreth Gyngor	Band A y Dreth Gyngor	£15.51	£17.50	£17.84	£17.14	£16.59
	Band B y Dreth Gyngor	£17.56	£19.84	£20.46	£18.77	£18.31
	Band C y Dreth Gyngor	£19.31	£21.87	£22.72	£19.87	£20.02
	Band D y Dreth Gyngor	£21.72	£24.50	£25.28	£22.33	£22.68
	Band E+ y Dreth Gyngor	£28.40	£32.04	£33.32	£28.39	£29.22
Math o ddeiliadaeth	Rhentu cymdeithasol	£17.02	£19.42	£19.65	£18.39	£16.54
	Rhentu preifat	£18.14	£20.36	£20.59	£19.96	£19.72
	Y gweddill: Perchen- feddianwyr, deiliadaeth	£15.86	£18.37	£19.74	£19.74	£18.37
Math o aelwyd	Sengl	£17.01	£19.50	£19.91	£19.61	£18.07
	Unig Riant	£16.52	£18.47	£19.02	£16.34	£17.97
	Cwpl dim plant	£22.86	£25.93	£26.58	£25.19	£22.99
	Cwpl â phlant	£22.15	£24.28	£25.53	£19.89	£21.82
Statws economaidd	Cyflogedig	£14.11	£14.38	£16.69	£8.06	£11.53
	Hunangyflogedig	£20.02	£19.87	£22.75	£3.90	£12.07*
	Budd-daliadau allan o waith	£18.78	£21.61	£21.80	£21.93	£20.69
Rhwystrau rhag gweithio	Lwfans Byw i'r Anabl neu debyg	£19.57	£22.32	£22.53	£21.87	£21.18
	Unig Riant Plentyn dan 5 oed	£16.42	£18.51	£18.99	£17.27	£17.78
	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu debyg	£18.56	£21.27	£21.33	£21.11	£19.13
	Gofalwr	£21.39	£24.40	£24.80	£23.78	£21.12

Tabl 3.6: Cymhariaeth o Incwm Mynd Adref (£/mis) yn ôl Math o Aelwyd

		Cynllun cyfredol 2018- 19	Cynllun cyfredol 2021- 22	Hawlwyr etifeddol 2021- 22	Hawlwyr UC sydd wedi ymfudo 2021-22
Band y Dreth Gyngor	A	£1,324	£1,393	£1,395	£1,378
	B	£1,493	£1,571	£1,572	£1,567
	C	£1,604	£1,691	£1,695	£1,670
	D	£1,662	£1,753	£1,752	£1,761
	E+	£1,666	£1,766	£1,769	£1,746
Math o ddeiliadaeth	Rhentu cymdeithasol	£1,554	£1,639	£1,637	£1,648
	Rhentu preifat	£1,532	£1,603	£1,602	£1,581
	Y gweddiill: Perchen-feddianwyr, deiliadaeth anhysbys	£962	£1,210	£1,642	£1,642
Math o aelwyd	Sengl	£1,199	£1,263	£1,266	£1,244
	Unig Riant	£1,654	£1,737	£1,736	£1,740
	Cwpl dim plant	£1,503	£1,587	£1,587	£1,587
	Cwpl â phlant	£2,180	£2,229	£2,231	£2,220
Statws economaid	Cyflogedig	£1,751	£1,858	£1,859	£1,855
	Hunangyflogedig	£1,667	£1,771	£1,782	£1,710
	Budd-daliadau allan o waith	£1,426	£1,499	£1,501	£1,489
Rhwystrau rhag gweithio	Lwfans Byw i'r Anabl neu debyg	£1,592	£1,692	£1,699	£1,655
	Unig Riant Plentyn dan 5 oed	£1,597	£1,674	£1,673	£1,681
	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu debyg	£1,155	£1,218	£1,222	£1,195
	Gofalwr	£1,898	£1,999	£2,003	£1,979

Tabl 3.7: Cymhariaeth o Incwm Mynd Adref (£/mis) yn ôl Math o Fudd-dal yn 2021-22

	Cynllun cyfredol 2018-19	Cynllun cyfredol 2021-22
Pawb o oedran gweithio	£1,380.52	£1,444.02
Hawlwyr etifeddol	£1,484.98	£1,563.96
Hawlwyr Credyd Cymhwysol sydd wedi ymfudo	£1,475.01	£1,553.25
Hawlwyr Credyd Cynhwysol cyfredol	£944.00	£942.28

4. Dadansoddiad Effaith o Addasiadau Cynllun

- 4.1 Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried diwygio'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol. Er mwyn llywio dyluniad y cynllun, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am ddadansoddiad o effaith chwe newid gwahanol i'r cynllun. Dewiswyd y chwe model i fodloni un neu'r ddau o amcanion Llywodraeth Cymru. Yr amcanion yw sicrhau tegwch cefnogaeth a chynnal llwyth achosion gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd incwm isel. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried canfyddiadau'r modelau hyn er mwyn dylunio tri model pellach i'w cynnwys yn yr adroddiad ar yr ymchwil terfynol, y mae ei ddisgwyl yng Ngwanwyn 2020. Gallai'r modelau pellach hyn fod yn newidiadau i'r modelau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, cyfuniad o rai o fesurau'r modelau yn yr adroddiad hwn neu fodelau newydd.
- 4.2 Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried newidiadau i'r cynllun yn bennaf mewn ymateb i effaith Credyd Cynhwysol yng Nghymru. Mae'n dymuno sicrhau tegwch rhwng aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol, yn ogystal â sicrhau y caiff llwyth achosion ei gynnal. Mae hyn yn peri pryder, yn arbennig felly o ystyried effaith ddisgwyliedig Credyd Cynhwysol ar lwyth achosion.
- 4.3 Mae'r rhan hon o'r adroddiad interim yn archwilio newidiadau posib i gynllun Cymru. Mae'r gwaith modelu ar gyfer y flwyddyn 2021-22. Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis eleni er mwyn rhoi'r amcangyfrif gorau o gyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ac ystyried effaith ymfudo i Gredyd Cynhwysol.
- 4.4 Mae incwm, cyfraddau budd-daliadau, rhenti, atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor ac ymfudo i Gredyd Cynhwysol wedi'u huwchraddio i bob model yn yr un modd â gyda gwaith modelu'r cynllun cyfredol hyd 2021/22)³⁴:
- Er mwyn galluogi cymharu cynlluniau wedi'u modelu yn erbyn y cynllun cyfredol yn 2021-22, mae cynnydd blynyddol cytunedig yn y dreth gyngor wedi'i gynnwys. Mae cyfradd y cynnydd yn y dreth gyngor a ddefnyddir yr un

³⁴ Mae'r holl waith modelu ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar lwyth achosion y flwyddyn gyfredol (2018/19). Fel y cyfryw, nid yw gwaith modelu'n ystyried unrhyw newid yng nghynrychiolaeth gyfrannol gwahanol fathau o aelwydydd neu aelwydydd a allai ddod â hawl i gefnogaeth rhwng 2019/20 a 2021/22. Er bod yr holl awdurdodau lleol yn cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn, adeg y dadansoddiad, dim ond Detholiad Budd Aelwyd Sengl (SHBE) a Detholiad Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS), ar gyfer Mawrth 2019 yr oedd Policy in Practice wedi'u derbyn gan 16 o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Am y rheswm hwn, defnyddir ffactor cydraddoli ar gyfer aelwydydd i gynrychioli cyfanswm gwerth gostyngiadau ledled Cymru'n well. Mae nodiadau pellach ar gyfyngiadau a methodoleg i'w gweld yn Atodiad C.

fath â'r cyfartaledd ar gyfer pob cyngor dros y tair blynedd diwethaf. Caiff hon ei chymhwyso, ar wahân, i dâl treth gyngor pob cyngor cyn dadansoddi data. Rhoddir codiadau'r Dreth Gyngor a ddefnyddir yn y modelu yn Atodiad A.

- Cynhwysir lefel o ymfudo y cytunwyd arni i Gredyd Cynhwysol hefyd. Bydd modelu yn cynnwys ymfudiad disgwyledig o 15.5% o aelwydydd ychwanegol i Gredyd Cynhwysol erbyn 2021-22. Cytunwyd ar y lefel hon gyda Llywodraeth Cymru ac mae'n seiliedig ar y lefelau cyfredol a arsylwyd o 10% y flwyddyn yn cael eu cario drwodd i 2021-22 a rhagdybiaeth o lefelau ymfudo yn gostwng i 5% y flwyddyn erbyn 2021-22.
- Mae modelu ar gyfer 2021-22 yn cynnwys newidiadau tebygol i gyfraddau cymorth lles, yr isafswm cyflog cenedlaethol, lwfansau treth, cyfraddau Lwfans Tai Lleol (LHA), costau rhent, a newid rheoliadol hysbys. Mae cyfraddau budd-daliadau'n unol â'r mesur chwyddiant a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cynyddu budd-daliadau (y codiad blynyddol a ddefnyddir gyda chyfraddau budd-daliadau, ym mis Ebrill fel arfer). Caiff newidiadau eraill eu llywio gan ragfynegiadau o gyfraddau chwyddiant a gyhoeddir yn flynyddol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol³⁵. Mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol wedi'u modelu gan dybio y daw unrhyw uwchraddio o'r lefel sylfaen gyfredol yn hytrach nag o ddychwelyd i gyd-fynd â'r drydydd ddegradd o daliadau rhent.

4.5 Darperir y dadansoddiad a ganlyn yn yr adroddiad hwn i bob model;

- Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor
- Dadansoddi Effaith
 - Llwyth Achosion
 - Yr effaith ar Ostyngiadau'r Dreth Gyngor yn wythnosol
 - Yr effaith ar aelwydydd sy'n agored i niwed
 - Effaith Credyd Cynhwysol
 - Yr effaith ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio

³⁵ [The economy forecast: Inflation](#) (y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol)

Model 1: Didyniadau cyfradd safonol i bobl nad ydynt yn ddibynyddion

- 4.6 Mae Cynllun cyfredol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru yn cynnwys didyniadau o ddyfarniadau treth gyngor sy'n adlewyrchu'r cyfraniad y mae ei ddisgwyl gan oedolion eraill yn yr aelwyd (didyniadau i bobl nad ydynt yn ddibynyddion). Mae swm y didyniad yn seiliedig ar y cyfraddau a osodwyd yn y rheoliadau Budd-dal y Dreth Gyngor cyn 2013, sydd, yn gyffredinol, yn seiliedig ar incwm ac amgylchiadau'r person nad yw'n ddibynnydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r cyfraddau hyn yn flynyddol er 2013 yn unol â chwyddiant.
- 4.7 Mae'r model hwn yn cyflwyno un didyniad cyfradd safonol i bobl nad ydynt yn ddibynyddion i'r cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio. Mae hyn yn berthnasol i bob person nad yw'n ddibynnydd ac sy'n gorfod talu'r dreth ar hyn o bryd. O dan y rheoliadau cyfredol, ni ddefnyddir didyniadau i bobl nad ydynt yn ddibynyddion mewn rhai amgylchiadau lle mae'r hawliwr, neu ei bartner, yn byw ag anabledd neu y mae'n ddall. Mae'r eithriadau hyn yn parhau i'r model hwn.
- 4.8 Mae'r model yn berthnasol i aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb penodol yn effaith y model hwn ar grwpiau sy'n agored i niwed; y rhai sy'n byw ag anabledd neu salwch, gofaliwyr, ac unig rieni sydd â phlentyn dan bum mlwydd oed. Bydd y model hwn yn defnyddio'r didyniad cyfredol isaf i sicrhau nad oes yr un aelwyd yn waeth ei fyd. £4.83 yr wythnos yw'r lefel hon yn 2021/22.³⁶
- 4.9 Bydd cyflwyno Didyniadau Cyfradd Safonol i Bobl nad ydynt yn ddibynyddion yn cynyddu haelioni'r cynllun. At hyn, bydd yn symleiddio gwaith gweinyddol gan na fydd yn rhaid i asesiadau ystyried mwyach incwm y rhai nad ydynt yn ddibynyddion.
- 4.10 Mae'r gwaith dadansoddi'n berthnasol i aelwydydd oedran gweithio'n unig gan fod y gwaith ymchwil hwn yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol sy'n cael effaith ar ostyngiadau'r dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio'n unig. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn newidiadau mewn didyniadau i bobl nad ydynt

³⁶ Cyfrifir hwn trwy uwchraddio didyniad isaf cyfredol i berson nad yw'n ddibynnydd yn 2019/20 a chymhwyso'r mesur chwyddiant a ddefnyddir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i uwchraddio Budd-daliadau blynnyddol.

yn ddibynyddion i aelwydydd oedran pensiwn ond mae hynny y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn.

Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor

Tabl 4.1: Model 1: Cyfanswm gostyngiadau treth gyngor y model (£ y flwyddyn)

	Model 1 cyfanswm gwerth gostyngiadau'r Dreth Gyngor	Cymhariaeth â chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y cynllun cyfredol		Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol yn 2021-22	
Grŵp ³⁷	£ y flwyddyn	Newid (£ y flwyddyn)	Newid (%)	Newid (£ y flwyddyn)	Newid (%)
Pawb o oedran gweithio	£177M	£21M	13%	£0.4M	0.3%
Cyfanswm	£304M	£39M	15%	£0.4M	0.1%

- 4.11 Bydd cyflwyno didyniadau cyfradd safonol i bobl nad ydynt yn ddibynyddion ac a osodir ar y gyfradd isaf yn golygu y bydd cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn yn £304M y flwyddyn erbyn 2021-22. Mae hyn yn £0.4M yn fwy na phe na bai dim newidiadau yn cael eu gwneud i'r cynllun erbyn 2021-22.

Dadansoddi Effaith: Diwygiad i'r Didyniad i Bobl Nad ydynt yn Ddibynyddion

Llwyth Achosion

- 4.12 Mae'r model hwn yn cynyddu'r cymorth i aelwydydd oedran gweithio sydd ar hyn o bryd yn destun didyniad person nad yw'n ddibynnydd sy'n uwch na'r gyfradd didynnu isaf.

³⁷ I aelwydydd oedran gweithio'n unig y mae diwygiadau i'r cynllun yn berthnasol gan fod y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol. Mae pob model yn cynhyrchu cynnydd o 17% (£18M) yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran pensiwn o'i gymharu â'r cynllun cyfredol. Fodd bynnag, nid oes gwahaniaeth pan fydd y cynllun cyfredol yn cael ei uwchraddio hyd at 2021/22.

- 4.13 Mae cyflwyno didyniad cyfradd safonol i bobl nad ydynt yn ddibynyddion wedi'i osod ar y gyfradd ddidynnu gyfredol isaf yn cynyddu'r gefnogaeth i 1,520 o aelwydydd o gymharu â phe bai'r cynllun cyfredol yn cael ei gadw yn 2021-22.
- 4.14 Mae cyflwyno didyniad cyfradd safonol i bobl nad ydynt yn ddibynyddion yn cynyddu haelioni'r cynllun. Efallai y bydd rhai aelwydydd nad ydynt yn gymwys ar gyfer cymorth gyda'r dreth gyngor ar hyn o bryd oherwydd didyniadau person nad yw'n ddibynnydd, yn dod yn gymwys i gael cymorth dan y mesur hwn.³⁸

Yr Effaith ar Ddyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor Wythnosol y rhai y mae'r Mesur hwn yn Effeithio Arnynt

- 4.15 Ni fydd cyflwyno didyniadau cyfradd safonol i bobl nad ydynt yn ddibynyddion yn cael effaith ar neb ac eithrio ar yr aelwydydd oedran gweithio hynny sydd ag oedolyn sy'n perthyn iddynt yn byw yn yr aelwyd ac y mae didyniad cyfredol yn berthnasol iddo.
- 4.16 Mae aelwydydd y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt yn gweld cynnydd o £5.70 mewn cymorth (37%) yr wythnos ar gyfartaledd o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22

Tabl 4.2: Model 1: Dyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor Wythnosol ar gyfartaledd, £ yr wythnos, ar gyfer Aelwydydd yr Effeithir arnynt

	Nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt	Gostyngiad cyfartalog aelwyd	Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol a gedwir hyd 2020-21	
Grŵp		£/yr wythnos	Newid (£/yr wythnos)	Newid (%)
Credyd Cynhwysol	470	£21.10	£6.80	48%
Budd-daliadau etifeddol	1,060	£21.30	£5.20	33%
Pawb o oedran gweithio	1,520	£21.30	£5.70	37%

³⁸ Gwneir gwaith modelu ar yr aelwydydd hynny sydd eisoes wedi'u cynrychioli yn y setiau data Detholiad Budd Aelwyd Sengl (SHBE) a Chymorth gyda'r Dreth Gyngor sydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Felly ni all gwaith modelu ystyried unrhyw lwyth achosion ychwanegol a allai ddeillio o ddiwygio cynllun.

- 4.17 Mae'r mesur hwn yn effeithio i'r un graddau ar aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o aelwydydd cyfredol sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor yn dangos bod y rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ar eu hennill fwy (£6.80 yr wythnos) na'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (£5.20 yr wythnos). Y rheswm dros hyn yw bod enillion rhai nad ydynt yn ddibynnyddion ychydig yn uwch yn yr aelwydydd Credyd Cynhwysol a ddefnyddir ar gyfer y dadansoddiad hwn. Mae'r effaith ar aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn debygol o fod yn gyfartal unwaith y bydd pob aelwyd wedi symud i Gredyd Cynhwysol.

Yr effaith ar aelwydydd sy'n agored i niwed

- 4.18 Mae cyflwyno didyniadau cyfradd safonol i bobl nad ydynt yn ddibynnyddion i aelwydydd oedran gweithio, wedi'u gosod ar y gyfradd gyfredol isaf (wedi'i huwchraddio i 2021-22), yn cynyddu cymorth i aelwydydd sy'n agored i niwed yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl aelwydydd oedran gweithio. Y rheswm am hyn yw bod llawer o aelwydydd sy'n byw gydag anabledd, neu sydd â gallu cyfyngedig i wneud gweithgaredd cysylltiedig â gwaith, eisoes wedi'u heithrio rhag taliadau person nad yw'n ddibynnydd. Mae'r mesur hwn, felly, yn debygol o gael effaith ar gyfran is o aelwydydd yn y grwpiau hyn nag yn y boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, i'r holl aelwydydd hynny sy'n agored i niwed y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt, mae cymorth yn cynyddu ar lefelau tebyg i aelwydydd nad ydynt yn agored i niwed (cynnydd o 37%).

Effaith Credyd Cynhwysol ar Aelwydydd y mae'r Mesur hwn yn cael Effaith Arnynt

- 4.19 Mae'r mesur hwn yn cynnal y driniaeth gyfartal gyfredol ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynnyddion wrth gyfrifo gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ac y rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Fodd bynnag, oherwydd bod person nad yw'n ddibynnydd yn cael ei asesu'n wahanol dan Gredyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol (Budd-dal Tai), bydd effaith gyffredinol ar incwm aelwyd y rhai nad ydynt yn ddibynnyddion yn wahanol.
- 4.20 Dan Gredyd Cynhwysol rhoddir didyniad cyfradd safonol i berson nad yw'n ddibynnydd o £73.89 y mis i elfen tai Credyd Cynhwysol. Dan fudd-daliadau

etifeddol, mae didyniadau'n amrywio o £67.60 o Fudd-daliadau Tai y mis i £436.15³⁹ y mis, gyda'r didyniad yn cael ei bennu gan incwm y sawl nad yw'n ddibynnydd. Felly, gall aelwydydd lle ceir pobl nad ydynt yn ddibynnyddion ac sy'n ennill cyflog uwch gael cymorth wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. Pe bai'r mesur hwn yn cael ei gyflwyno i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru, byddai'r aelwydydd hyn yn ennill incwm trwy Gredyd Cynhwysol a gostyngiad yn y dreth gyngor.

Yr effaith ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio

- 4.21 Ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio yng Nghymru, mae'r mesur hwn yn arwain at aelwydydd heb blant dibynnol yn gweld cynnydd ychydig yn uwch mewn cefnogaeth na'r rhai â phlant dibynnol. Gallai hyn adlewyrchu'r angen am ystafelloedd gwely ychwanegol ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynnyddion. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaethau'n ymylol gyda phob math o gyfansoddiad aelwydydd yn gweld llai na 0.5% o gynnydd yn y cymorth.

³⁹[Cyfraddau budd-dal 2019/20 Llywodraeth y Deyrnas Unedig](#)

Tabl 4.3: Model 1: Aelwydydd y mae newid mewn didyniadau i bobl nad ydynt yn ddibynyddion yn cael effaith arnynt - canfyddiadau allweddol

Nifer yr aelwydydd	1,520 o aelwydydd
Pwy sy'n cael eu heffeithio?	Aelwydydd Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol sydd â dibynyddion sy'n ennill cyflog uwch
Newid cyfartalog yn y dyfarniad ar gyfer aelwydydd yr effeithir arnynt	- Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd o £6.80 yr wythnos o'i gymharu â'r cynllun cyfredol yn 2021-22 - Mae aelwydydd budd-daliadau etifeddol yn gweld cynnydd o £5.20 yr wythnos o'i gymharu â'r cynllun cyfredol yn 2021-22 Sylwer: Mae'r codiadau hyn yn debygol o fod yn debyg unwaith y bydd pob aelwyd wedi ymfudo i Gredyd Cynhwysol.
Newid yng nghyfanswm gwerth y gostyngiadau	Cynnydd o £0.4M y flwyddyn yn 2021-22
Llwyth Achosion	Gallai llwyth achosion y cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor gynyddu. ⁴⁰ Gallai aelwydydd sydd â dibynyddion sy'n ennill cyflog uwch ac sydd ar hyn o bryd yn anghymwys i gael cymorth oherwydd cyfradd uchel y didyniad i bobl nad ydynt yn ddibynyddion, ddod yn gymwys i gael cymorth.
Aelwydydd Credyd Cynhwysol a Budd-daliadau Etifeddol	- Mae'r mesur hwn yn cael effaith debyg ar ostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd Credyd Cynhwysol a Budd-daliadau Etifeddol. - Efallai y bydd aelwydydd sy'n symud i Gredyd Cynhwysol y mae'r mesur hwn yn effeithio arnynt hefyd yn gweld cynnydd mewn cefnogaeth trwy Gredyd Cynhwysol.

Model 2: Tapr Diwygiedig

4.22 Ar hyn o bryd, caiff uchafswm y cymorth gyda'r dreth gyngor i aelwydydd yng Nghymru ei ostwng gan ddefnyddio tapr wedi'i osod ar 20%. Hynny yw, am bob punt sy'n incwm uwchlaw anghenion, mae'r cymorth yn gostwng £0.20. Mae'r

⁴⁰ Gwneir dadansoddiad o'r aelwydydd hynny y mae awdurdodau lleol yn cadw data arnynt ar hyn o bryd. Ni all y dadansoddiad ragweld aelwydydd a allai ddod yn gymwys i gael cymorth ar ôl cyflwyno'r newid gan nad yw'r aelwydydd hyn yn cael eu cynrychioli yn y set ddata.

gostyngiad hwn mewn cymorth gyda'r dreth gyngor yn eistedd ochr yn ochr â thapwyr eraill sy'n berthnasol i fudd-daliadau eraill sy'n dibynnu ar brawf modd:

- **Budd-daliadau Etifeddol:** Bydd aelwydydd sy'n derbyn Budd-dal Tai yn gweld eu Budd-dal Tai yn gostwng £0.65 am bob punt ychwanegol. Byddai aelwydydd sydd hefyd yn derbyn credydau treth yn gweld eu credydau treth yn gostwng £0.41 am bob punt ychwanegol. Mae'r rhain yn gweithio ochr yn ochr â throthwyon a diystyriadau gwarchodol amrywiol ond, er hynny, ni fydd rhai aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn gweld unrhyw gynnydd yn incwm yr aelwyd gydag enillion uwch.
- **Credyd Cynhwysol:** Mae aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld Credyd Cynhwysol yn gostwng £0.63 am bob punt ychwanegol. Nid yw hyn yn berthnasol oni bai bod enillion yn uwch na lwfansau gweithio (mae'r rhain yn symiau y gellir eu hennill cyn i fudd-dal gael ei leihau ac yn berthnasol i aelwydydd â phlant neu'r rheini nad oes disgwyl iddynt weithio oherwydd salwch).

- 4.23 Mae Llywodraeth Cymru eisiau cynyddu haelioni cynllun a sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio ac ar incwm isel yn cadw mwy o'u hincwm. Mae'r model hwn yn diwygio'r tapr, a ddefnyddir i dynnu gostyngiad yn y dreth gyngor, o'r 20% cyfredol i 10%. Bydd y model hwn yn cynyddu cymhellion gweithio.
- 4.24 Mae'r model hwn yn berthnasol i aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol. Bydd yn cael effaith ar y rheini'n unig sydd ag incwm uwchlaw anghenion (h.y. aelwydydd sydd, bron yn ddieithriad, yn gweithio) ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar lefel y gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith.
- 4.25 Mae gwaith dadansoddi'n berthnasol i aelwydydd oedran gweithio yn unig gan fod y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol, sy'n cael effaith ar ostyngiad treth gyngor aelwydydd oedran gweithio'n unig. Gallai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn newidiadau mewn cyfraddau tapro i aelwydydd oedran pensiwn ond mae hyn y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn.

Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor

Tabl 4.4: Model 2: Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor y Model (£ y flwyddyn) gyda'r Tapr wedi'i Ostwng i 10%

	Model 2 Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor	Cymhariaeth â chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y cynllun cyfredol		Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol yn 2021-22	
Grŵp ⁴¹	£ y flwyddyn	Newid £ y flwyddyn	Newid %	Newid £ y flwyddyn	Newid %
Pawb o oedran gweithio	£185M	£28M	18%	£8M	5%
Cyfanswm	£311M	£47M	18%	£8M	3%

- 4.26 Bydd gostwng y gyfradd tapro i 10% yn golygu mai £311M y flwyddyn erbyn 2021-22 fyddai cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn. Mae hyn yn £8M y flwyddyn yn fwy na phe bai'r tapr yn cael ei gadw ar y lefel gyfredol.
- 4.27 Roedd Llywodraeth Cymru hefyd eisiau archwilio effaith tapr 15%. Pe bai'r tapr yn cael ei ostwng i 15%, byddai cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn yn £4M y flwyddyn yn fwy na chadw'r tapr ar y gyfradd gyfredol.

⁴¹ I aelwydydd oedran gweithio'n unig y mae diwygiadau i'r cynllun yn berthnasol gan fod y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol. Mae pob model yn cynhyrchu cynnydd o 17% (£18M) yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran pensiwn o'i gymharu â'r cynllun cyfredol. Fodd bynnag, nid oes gwahaniaeth pan fydd y cynllun cyfredol yn cael ei uwchraddio hyd at 2021/22.

Tabl 4.5: Model 2: Cyfanswm Gwerth Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor y Model (£ y flwyddyn) gyda'r Tapr wedi'i Ostwng i 15%

	Model 2 Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor	Cymhariaeth â chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y cynllun cyfredol		Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol yn 2021-22	
Grŵp	£ y flwyddyn	Newid £ y flwyddyn	Newid %	Newid £ y flwyddyn	Newid %
Pawb o oedran gweithio	£180M	£24M	15%	£4M	2%
Oedran pensiwn	£127M	£18M	17%	£0	0%
Cyfanswm	£307M	£42M	16%	£4M	1%

Dadansoddi Effaith - Diwygiadau i'r Gyfradd Tapr

Llwyth Achosion

- 4.28 Mae newidiadau i'r gyfradd tapr yn cael effaith ar aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol ac sydd ag incwm sy'n uwch na'u hanghenion a aseswyd. Amcangyfrifir y bydd y mesur hwn yn cael effaith ar 26,400 o aelwydydd oedran gweithio ar draws Cymru.
- 4.29 Mae'r mesur hwn yn cynyddu haelioni cynllun ac mae'n debygol y bydd llwyth achosion yn cynyddu⁴². Efallai y bydd aelwydydd sy'n gweithio gydag incwm sy'n rhy uchel ar gyfer cymorth cyfredol, yn gymwys i gael cymorth gyda chyfradd tapr is.

⁴² Gwneir gwaith modelu ar yr aelwydydd hynny sydd eisoes wedi'u cynrychioli yn y setiau data Detholiad Budd Aelwyd Sengl (SHBE) a Chymorth gyda'r Dreth Gyngor sydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Felly ni all gwaith modelu ystyried unrhyw lwyth achosion ychwanegol a allai ddeillio o ddiwygio cynllun.

Yr Effaith ar Ddyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor Wythnosol y rhai y mae'r Mesur hwn yn Effeithio Arnynt

- 4.30 Mae gostwng y gyfradd tapr yn cael effaith ar aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol gydag incwm sy'n uwch na'r anghenion a aseswyd.
- 4.31 Pe bai'r gyfradd tapr yn cael ei gostwng i 10%, byddai'r aelwydydd yr effeithir arnynt yn gweld cynnydd o £6.00 yr wythnos ar gyfartaledd (51%) o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22

Tabl 4.6: Model 2: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar gyfartaledd, £ yr wythnos, gyda'r Tapr ar 10% (Aelwydydd yr Effeithir arnynt yn Unig)

	Nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt	Gostyngiad cyfartalog aelwyd	Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol a gedwir hyd 2020-21	
Grŵp		£/yr wythnos	Newid £/yr wythnos	Newid %
Credyd Cynhwysol	11,870	£16.90	£6.50	62%
Budd-daliadau etifeddol	14,500	£18.50	£5.70	45%
Pawb o oedran gweithio	26,400	£17.80	£6.00	51%

- 4.32 Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol y mae'r newid hwn yn effeithio arnynt yn gweld cynnydd cyfrannol ychydig yn uwch mewn cymorth gyda'r dreth gyngor (62%) na'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (45%). Y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw bod aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cadw cyfran uwch o'u henillion, felly, bydd ganddynt fwy o incwm uwchlaw anghenion a aseswyd, ac felly, yn ddarostyngedig i'r tapr. Hyd yn oed wrth ailddosbarthu'r gostyngiad hwn yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, mae aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt, yn cadw

lefelau cymorth uwch ar £18.50 yr wythnos ar gyfartaledd o'i gymharu â £16.90 yr wythnos ar gyfartaledd i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

- 4.33 Gan mai ar aelwydydd ag incwm uwchlaw anghenion yn unig y mae'r newidiadau i'r gyfradd tapr yn cael effaith, aelwydydd sy'n gweithio yw'r mwyafrif llethol o'r rhain yn bennaf. Mae aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd sylweddol o 225% mewn cymorth. Y rheswm am hyn yw'r gostyngiad isel iawn y mae'r aelwydydd hyn yn ei dderbyn yn y dreth gyngor os cedwir y cynllun cyfredol hyd 2021-22 (oherwydd defnyddio Llawr Isafswm Incwm). Felly, mae'r cynnydd yn ostyngiad y dreth gyngor yn sgîl y tapr gostyngedig yn gyfrannol fwy nag i aelwydydd eraill sy'n gweithio. Hyd yn oed gyda'r cynnydd hwn, mae'r gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (£13.10 yr wythnos ar gyfartaledd) yn parhau i fod yn sylweddol is nag i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (£24.60 yr wythnos ar gyfartaledd).
- 4.34 Mae aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol hefyd yn gweld cynnydd cyfartalog sylweddol mewn cymorth gyda'r dreth gyngor o 63% o'i gymharu â chynnydd o 23% ar gyfartaledd i aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Unwaith eto, y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw effaith gyfrannol y cynnydd ar ddyfarniadau dechrau is.

Yr Effaith ar Aelwydydd sy'n Agored i Niwed

- 4.35 Mae aelwydydd lle mae person yn sâl, yn anabl neu â chyfrifoldebau gofalu yn llai tebygol o fod mewn gwaith ac, felly mae gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer y grwpiau hyn yn llai tebygol o gael ei effeithio gan y newid yn y gyfradd tapr. Fodd bynnag, ar gyfer yr aelwydydd hynny sy'n agored i niwed sy'n gweithio, ac y mae'r mesur hwn, felly, yn cael effaith arnynt, mae'r cynnydd mewn gostyngiad yn y dreth gyngor yn sylweddol. Mae aelwydydd y mae'r mesur yn cael effaith arnynt, lle mae person yn sâl neu'n anabl, yn gweld codiadau o 35% ar gyfartaledd ac mae'r rhai lle mae'r person yn ofalwr yn gweld cynnydd o 29% ar gyfartaledd. Er hynny, mae'r codiadau hyn yn is na'r cynnydd ar draws yr holl aelwydydd y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt. Mewn cyferbyniad, mae unig rieni sydd â phlentyn dan bump oed yn gweld cynnydd mwy (65%) na'r cyfartaledd ar gyfer yr holl aelwydydd y caiff y mesur effaith arnynt (51%).

Effaith Credyd Cynhwysol ar Aelwydydd y mae'r Mesur hwn yn cael Effaith Arnynt

- 4.36 Mae'r mesur hwn yr un mor berthnasol i aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ag ydyw i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Bydd yn cynyddu dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor ac, felly, incwm aelwydydd i bob aelwyd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol ac i fwyafrif yr aelwydydd sy'n gweithio ac yn derbyn budd-daliadau etifeddol.
- 4.37 Mae aelwydydd cyflogedig yn debygol o gael cymorth gyda budd-daliadau wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol oherwydd yr incwm uwch a enillir ac a gedwir. Pe câi'r mesur hwn ei gyflwyno, byddai'r aelwydydd hyn yn ennill incwm trwy Gredyd Cynhwysol a chymorth gyda'r dreth gyngor.
- 4.38 Gallai'r Llawr Isafswm Incwm gael effaith ar aelwydydd hunangyflogedig pan fyddant yn symud i Gredyd Cynhwysol ac, felly, gallent gael llai o ostyngiad yn y dreth gyngor a Chredyd Cynhwysol. Bydd cyfradd tapr is yn gwneud iawn am rywffaint o'r golled hon mewn cymorth gyda'r dreth gyngor.

Yr effaith ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio

- 4.39 Ar draws pob aelwyd oedran gweithio mae'r gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu 5%. Nid yw'r mesur hwn yn effeithio ar aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith ac felly mae'r cynnydd cyfartalog ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio'n sylweddol is na'r cynnydd ar gyfer aelwydydd y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt (cynnydd cyfartalog o 51%).
- 4.40 Ymhlith yr aelwydydd incwm isel a gynrychiolir yn y set ddata, mae aelwydydd â phlant yn fwy tebygol o fod mewn gwaith nac aelwydydd heb blant. Wrth i ostyngiad yn y gyfradd tapr gynyddu cymorth i aelwydydd sy'n gweithio, mae, felly, yn cael effaith eilaidd o gynyddu'r dyfarniad cyfartalog i aelwydydd oedran gweithio â phlant. Ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio, mae cyplau â phlant yn gweld cynnydd o 7% ac unig rieni'n gweld cynnydd cyfartalog o 8%.

Tabl 4.7: Model 2: Aelwydydd y mae'r newid yn y Gyfradd Tapr yn cael effaith arnynt - canfyddiadau allweddol

Nifer yr aelwydydd	26,400 o aelwydydd
Pwy sy'n cael eu heffeithio?	Credyd Cynhwysol ac aelwydydd budd-daliadau etifeddol sydd ag incwm uwchlaw anghenion a aseswyd. Aelwydydd sy'n gweithio'n bennaf.
Newid cyfartalog yn y dyfarniad ar gyfer aelwydydd yr effeithir arnynt	• Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd o £6.50 yr wythnos o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22 • Mae aelwydydd budd-daliadau etifeddol yn gweld cynnydd o £5.70 yr wythnos o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22
Newid yng nghyfanswm gwerth y gostyngiadau	Cynnydd o £8M y flwyddyn yn 2021-22
Llwyth Achosion	Gall aelwydydd ag enillion uwchlaw'r lefel ar gyfer cymhwysedd cyfredol ddod yn gymwys i gael cymorth a gall y llwyth achosion gynyddu ⁴³
Aelwydydd Credyd Cynhwysol a Budd-daliadau Etifeddol	• Mae'r mesur hwn yr un mor berthnasol i aelwydydd Credyd Cynhwysol a Budd-daliadau Etifeddol. • Mae aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ar eu hennill fwy (£6.50 yr wythnos) na'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (£5.70 yr wythnos). Mae'r gwahaniaeth hwn oherwydd bod aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cadw lefelau uwch o incwm a enillir ac felly'n cael mwy o incwm yn cael ei effeithio gan y gyfradd tapr. Efallai y bydd aelwydydd Credyd Cynhwysol mewn cyflogaeth yn gweld incwm cartref uwch trwy Gredyd Cynhwysol a gostyngiad yn y dreth gyngor pe cai'r mesur hwn ei gyflwyno. Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol sy'n hunangyflogedig yn debygol o weld incwm cartref is o dan Gredyd Cynhwysol a gostyngiad yn y dreth gyngor. Bydd y mesur hwn yn gwneud iawn am rywfaint o'r golled hon.

⁴³Gwneir dadansoddiad o'r aelwydydd hynny y mae awdurdodau lleol yn cadw data arnynt ar hyn o bryd. Ni all y dadansoddiad ragweld aelwydydd a allai ddod yn gymwys i gael cymorth ar ôl cyflwyno'r newid gan nad yw'r aelwydydd hyn yn cael eu cynrychioli yn y set ddata.

Model 3: Cyflwyno Dyfarniad Gwarantedig

- 4.41 Mae'r model hwn yn cyflwyno isafswm gwarantedig o ran gostyngiad yn y dreth gyngor i bob aelwyd oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. Mantais cyflwyno isafswm yw ei fod yn fodd i roi neges syml ar gymhwysedd. Ar hyn o bryd, mae cymhlethdod yr asesiad ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor yn golygu ei bod yn anodd i aelwyd ddarganfod a yw'n gymwys ai peidio a gallai hyn atal ceisiadau. Fel rhan o'r prosiect ymchwil hwn, bydd arolygon a chyfweliadau'n ceisio rhoi barn ar bwysigrwydd sicrhau dyfarniad a bydd y canlyniadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol yng Ngwanwyn 2020.
- 4.42 I'r model hwn, y dybiaeth yw bod trothwy incwm wedi'i osod a'i fod ar lefel lle bydd yr holl aelwydydd cyfredol yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth. Pe bai Llywodraeth Cymru'n cyflwyno isafswm dyfarniad, byddai angen ystyried y trothwy incwm yn ofalus i sicrhau ei fod yn ddigon uchel i sicrhau nad oes unrhyw aelwyd yn colli cymorth ond yn ddigon isel i sicrhau nad yw'r llwyth gwaith yn cynyddu'n annisgwyl. Unwaith y bydd pob aelwyd wedi ymfudo i Gredyd Cynhwysol, gallai gwaith cyfrifo trothwy enillion fod yn seiliedig ar yr enillion y byddai eu hangen ar aelwyd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol i leihau maint yr holl ostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer y band treth gyngor moddol.
- 4.43 Dan y model hwn, bydd pob aelwyd, y mae ei ostyngiad yn y dreth gyngor dan 15% o atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor, yn derbyn dyfarniadau wedi'u gosod ar 15% o'r atebolrwydd. Felly bydd y model hwn yn cynyddu dyfarniadau i'r aelwydydd hyn. Ni fydd aelwydydd sydd â chymorth cyfredol sy'n uwch na 15% o atebolrwydd yn gweld unrhyw newid yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor.

Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor

Tabl 4.8: Model 3: Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y model (£ y flwyddyn)

	Model 3 Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor	Cymhariaeth â chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y cynllun cyfredol		Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol yn 2021-22	
Grŵp ⁴⁴	£ y flwyddyn	Newid £ y flwyddyn	Newid %	Newid £ y flwyddyn	Newid %
Pawb o oedran gweithio	£177M	£20M	13%	£0.2M	0.1%
Cyfanswm	£303M	£39M	15%	£0.2M	0.1%

4.44 Mae'r model hwn yn awgrymu y byddai cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn yn £303M y flwyddyn yn 2021-22, mae hyn yn £0.2M y flwyddyn yn fwy na phe na bai unrhyw newid wedi'i wneud i'r cynllun ar gyfer 2021- 22.

Dadansoddi Effaith - Dyfarniad Isafswm Gwarantedig.

Llwyth Achosion

4.45 Mae'r mesur hwn yn cynyddu'r gefnogaeth i aelwydydd oedran gweithio gyda dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor yn 2021-22 sy'n llai na 15% o atebolrwydd. Mae'n effeithio ar 2,620 o aelwydydd oedran gweithio. Mae'n debyg mai'r aelwydydd hyn fydd y rhai yn y set ddata sydd â'r incwm uchaf ac felly'n derbyn y lefelau isaf o ostyngiad yn y dreth gyngor.

4.46 Ni fydd cyflwyno isafswm dyfarniad gwarantedig yn cael effaith ar nifer yr aelwydydd sy'n gymwys i gael dyfarniadau gan fod y meini prawf asesu'n aros yr un fath. Fodd

⁴⁴ I aelwydydd oedran gweithio'n unig y mae diwygiadau i'r cynllun yn berthnasol gan fod y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol. Mae pob model yn cynhyrchu cynnydd o 17% (£18M) yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran pensiwn o'i gymharu â'r cynllun cyfredol. Fodd bynnag, nid oes gwahaniaeth pan fydd y cynllun cyfredol yn cael ei uwchraddio hyd at 2021/22.

bynnag, gall isafswm dyfarniad gwarantedig ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor wneud gwneud cais am ostyngiad yn y dreth gyngor yn fwy deniadol i'r rhai nad ydynt yn derbyn gostyngiad ar hyn o bryd, ond sy'n gymwys i gael un. Mae'n debygol y bydd y mesur hwn yn symleiddio negeseuon ar gymhwysedd, yn ogystal â chynnig dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor gwarantedig i'r rhai sy'n gymwys. Mae hyn yn debygol o gynyddu llwyth achosion.⁴⁵

Yr Effaith ar Ostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor y rhai y mae'r Mesur hwn yn Effeithio Arnynt

- 4.47 Mae cyflwyno isafswm dyfarniad yn cael effaith ar aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ac aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Y rhai fydd yn ennill gostyngiad yn y dreth gyngor fydd aelwydydd sydd ar hyn o bryd yn derbyn dyfarniadau ar lai na 15% o'u hatebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Ni fyddai'r un aelwyd yn gweld colled yn y cymorth gyda'r dreth gyngor dan y mesur hwn.
- 4.48 Bydd y gostyngiad wythnosol yn y dreth gyngor i'r rhai y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt yn cynyddu £1.60 yr wythnos ar gyfartaledd (86%) o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22.

Tabl 4.9: Model 3: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar Gyfartaledd, £ yr wythnos, i aelwydydd yr effeithir arnynt

	Nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt	Gostyngiad cyfartalog aelwyd	Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol a gedwir hyd 2020-21	
Grŵp		£/yr wythnos	Newid £/yr wythnos	Newid %
Credyd Cynhwysol	1,580	£3.50	£1.60	88%
Budd-daliadau etifeddol	1,040	£3.40	£1.50	82%
Pawb o oedran gweithio	2,620	£3.40	£1.60	86%

⁴⁵ Gwneir gwaith modelu ar yr aelwydydd hynny sydd eisoes wedi'u cynrychioli yn y setiau data Detholiad Budd Aelwyd Sengl (SHBE) a Chymorth gyda'r Dreth Gyngor sydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Felly ni all gwaith modelu ystyried unrhyw lwyth achosion ychwanegol a allai ddeillio o ddiwygio cynllun.

- 4.49 Mae aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn gweld cynnydd tebyg mewn dyfarniadau.
- 4.50 Mae aelwydydd hunangyflogedig y mae'r mesur hwn yn effeithio arnynt yn gweld cynnydd sylweddol yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor. Y grŵp hwn yw'r mwyaf tebygol o gael lefelau isel o ostyngiad yn y dreth gyngor ac, felly, y mwyaf tebygol o elwa ar gyflwyniad isafswm dyfarniad. Byddai aelwydydd hunangyflogedig a gâi eu heffeithio yn gweld cynnydd cyfartalog o 102% mewn dyfarniadau o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22.

Yr Effaith ar Aelwydydd sy'n Agored i Niwed

- 4.51 Mae aelwydydd oedran gweithio sy'n sâl, yn anabl neu sydd â chyfrifoldebau gofalu yn llai tebygol o fod mewn gwaith ac felly'n annhebygol o fod yn derbyn lefelau o ostyngiad yn y dreth gyngor sy'n disgyn dan 15% o atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Felly mae'n annhebygol y bydd cyflwyno isafswm dyfarniad yn cael effaith ar y grwpiau hyn. Mae cymorth gyda'r dreth gyngor ar gyfer pob grŵp sy'n agored i niwed yn aros yr un fath â phe bai'r cynllun cyfredol yn cael ei gadw hyd 2021-22.

Effaith Credyd Cynhwysol ar Aelwydydd y mae'r Mesur hwn yn cael Effaith Arnynt

- 4.52 Mae aelwydydd hunangyflogedig yn gweld llai o gymorth oherwydd Credyd Cynhwysol gostyngedig a llai o ostyngiad yn y dreth gyngor wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol oherwydd cyflwyno'r Llawr Isafswm Incwm. Y grŵp hwn yw'r mwyaf tebygol o gael lefelau isel o ostyngiad yn y dreth gyngor ac, felly, y mwyaf tebygol o elwa ar gyflwyniad isafswm dyfarniad. Byddai aelwydydd hunangyflogedig a gâi eu heffeithio gan y mesur hwn yn gweld cynnydd cyfartalog o 102% mewn dyfarniadau o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22. Ar gyfer pob gweithiwr hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (gan gynnwys y rhai nad yw'r mesur hwn yn effeithio arnynt) mae cynnydd o 9% ar gyfartaledd.
- 4.53 Bydd cyflwyno isafswm dyfarniad gostyngiad yn y dreth cyngor yn gwneud iawn am rai o'r colledion a wynebwr gan aelwydydd hunangyflogedig wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. Er hynny, mae'r mesur hwn yn cael cryn dipyn yn llai o effaith ar aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol na'r gostyngiad yn y gyfradd tapr i 10% (Model 2, uchod) lle mae'r gostyngiad yn y dreth gyngor i'r grŵp hwn yn cynyddu 225%.

- 4.54 Mae aelwydydd cyflogedig yn debygol o ennill cymorth wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol oherwydd cadw mwy o'r incwm a enillir. Pe câi'r mesur hwn ei gyflwyno, byddai aelwydydd sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor ar lai na 15% o atebolrwydd yn ennill incwm trwy Gredyd Cynhwysol a gostyngiad yn y dreth gyngor.

Effaith y mesur hwn ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio

- 4.55 Ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio yng Nghymru, bydd dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor yn codi llai nag 1% ar gyfartaledd.
- 4.56 Mae'r mesur hwn yn cael yr effaith fwyaf ar aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae cartrefi hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol y mae'r mesur hwn yn effeithio arnynt yn gweld cynnydd o 102% mewn dyfarniadau cyfartalog o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22. Ar gyfer pob aelwyd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (gan gynnwys y rhai nad yw'r mesur hwn yn effeithio arnynt) mae cynnydd o 9% ar gyfartaledd. Y rheswm am y cynnydd uwch i'r rhai yr effeithir arnynt yw'r cynnydd cyfrannol yn dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor y byddai'r aelwydydd hyn yn eu derbyn pe câi'r cynllun cyfredol ei gadw hyd 2021-22.

Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor

Tabl 4.10: Model 3: Aelwydydd y mae dyfarniad gwarantedig yn cael effaith arnynt – canfyddiadau allweddol

Nifer yr aelwydydd	2,620 o aelwydydd
Pwy sy'n cael eu heffeithio?	Aelwydydd Credyd Cynhwysol a Budd-daliadau Etifeddol gyda dyfarniadau yn 2021-22 sy'n llai na 15% o atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor. Aelwydydd sy'n gweithio yw'r rhain yn bennaf.
Newid cyfartalog yn y dyfarniad	• Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd o £1.60 yr wythnos o'i gymharu â'r cynllun cyfredol yn 2021-22 • Mae aelwydydd budd-daliadau etifeddol yn gweld cynnydd o £1.50 yr wythnos o'i gymharu â'r cynllun cyfredol yn 2021-22
Newid yng nghyfanswm gwerth y gostyngiadau	Cynnydd o £0.2M y flwyddyn yn 2021-22
Llwyth Achosion	Gall dyfarniad gwarantedig ar gyfer y rhai sy'n uwch na lefel incwm trothwy gynyddu'r nifer sy'n derbyn cymorth. Felly gallai'r llwyth achosion gynyddu.
Effaith Credyd Cynhwysol ar aelwydydd yr effeithir arnynt	• Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol yn ennill mwy (£1.60 yr wythnos) nag aelwydydd budd-daliadau etifeddol (£1.50 yr wythnos), o'i gymharu â'r cynllun cyfredol yn 2021-22. • Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol sy'n gweithio sy'n cael eu heffeithio gan y mesur hwn yn debygol o weld incwm aelwyd uwch wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. • Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol sy'n hunangyflogedig sy'n cael eu heffeithio gan y mesur hwn yn debygol o weld incwm aelwyd llai wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol o ganlyniad i'r Llawr Isafswm Incwm. Mae'r mesur hwn yn darparu 102% ychwanegol ar gyfartaledd yn y gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer yr aelwydydd hyn o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22.

Model 4: Lleihau'r Llawr Isafswm Incwm at ddibenion Lleihau'r Dreth Gyngor ar gyfer Aelwydydd Hunangyflogedig

- 4.57 Ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, ymdrinnir ag incwm o hunangyflogaeth mewn ffordd wahanol wrth asesu gostyngiad yn y dreth gyngor nag ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Dan fudd-daliadau etifeddol, mae asesiad o gymorth gyda'r dreth gyngor (a budd-daliadau eraill sy'n dibynnu ar brawf modd) yn seiliedig ar enillion hunangyflogedig yr adroddir amdanynt. Bydd y rhain yn debyg i enillion y rhoddir gwybod i Gyllid a Thollau EM amdanynt at ddibenion treth. Fodd bynnag, os yw'r aelwyd yn derbyn Credyd Cynhwysol, defnyddir incwm tybiannol yn seiliedig ar yr isafswm cyflog, ar gyfer Credyd Cynhwysol a chymorth gyda'r Dreth Gyngor. Yr enw ar hyn yw'r Llawr Isafswm Incwm.
- 4.58 Cyfrifir Terfyn Isaf yr Isafswm Incwm trwy luosi'r isafswm cyflog sy'n briodol i'r oedran â'r oriau y mae disgwyl i'r person weithio. Caiff yr oriau gwaith disgwyledig eu gosod gan y drefn amodoldeb Credyd Cynhwysol. I hawlwyr Credyd Cynhwysol nad oes ganddynt unrhyw gyfrifoldebau gofalu na rhwystrau i weithio, 35 awr yr wythnos yw hyn fel arfer. Felly, i hawliwr dros 25 oed, bydd y Llawr Isafswm Incwm yn 35 x £ 8.21 (y Cyflog Byw Cenedlaethol yn 2019-20 ar gyfer y rhai dros 25 oed). Mae hyn yn cyfateb i enillion gros o tua £1,245 y mis. I aelwydydd sydd â chyfrifoldebau gofalu, neu rwystrau i weithio, efallai na fydd y Llawr Isafswm Incwm yn berthnasol, neu gallai fod yn seiliedig ar 16 neu 24 awr yr wythnos. Mae cyfnod "gras" o 12 mis, pan fydd asesiad yn seiliedig ar enillion hunangyflogedig gwirioneddol, yn berthnasol i'r rhai aeth yn hunangyflogedig pan oeddynt yn derbyn Credyd Cynhwysol; y rhai sydd wedi bod yn hunangyflogedig am lai na blwyddyn; a'r rhai sy'n symud i Gredyd Cynhwysol trwy ymfudo a reolir. O fis Gorffennaf 2020, bydd pob aelwyd hunangyflogedig yn cael cyfnod gras o 12 mis o ddyddiad eu cais am Gredyd Cynhwysol. Ar ddiwedd y cyfnod gras, bydd yr asesiad ar gyfer yr holl grwpiau hyn yn seiliedig ar y Llawr Isafswm Incwm.
- 4.59 Oherwydd bod gan lawer o aelwydydd hunangyflogedig incwm gwirioneddol sy'n sylweddol is na'r Llawr Isafswm Incwm, mae lefel y cymorth gyda budd-daliadau'n gostwng yn sylweddol wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol neu pan ddaw unrhyw gyfnod o ras i ben. Gan fod y Llawr Isafswm Incwm yn berthnasol i asesu

Credyd Cynhwysol a gostyngiad yn y dreth gyngor, bydd llawer o aelwydydd hunangyflogedig yn gweld lleihad yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor ochr yn ochr â gostyngiad sylweddol yn incwm cyffredinol yr aelwyd.

- 4.60 Efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n dymuno cefnogi aelwydydd hunangyflogedig sy'n symud i Gredyd Cynhwysol wrth gadw symmrwydd yr asesiad a gyflwynir trwy ddefnyddio'r Llawr Isafswm Incwm. At hyn, efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n dymuno cadw egwyddor y Llawr Isafswm Incwm er mwyn sicrhau bod y rhai a allai symud allan o dlodi trwy gyflogaeth yn gwneud hynny a sicrhau nad yw'r gostyngiad yn y dreth gyngor yn fwy hael i aelwydydd hunangyflogedig nag i aelwydydd cyflogedig. Fodd bynnag, mae pryder y gallai bod yno rwystrau cudd i waith i rai aelwydydd y mae'r Llawr Isafswm Incwm yn berthnasol iddynt ac, felly, efallai na fyddai symud o hunangyflogaeth i gyflogaeth yn opsiwn.
- 4.61 Felly, mae'r model hwn yn cyflwyno Llawr Isafswm Incwm wedi'i ostwng wrth asesu gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae'n werth nodi na ellir gwneud diwygiad tebyg ar gyfer asesu Credyd Cynhwysol gan nad yw'r pŵer hwn wedi'i ddatganoli.
- 4.62 Mae'r model hwn yn archwilio effaith asesu incwm hunangyflogedig fel yr uchaf o naill ai incwm gwirioneddol neu Lawr Isafswm Incwm wedi'i osod ar 16 awr yr wythnos. Gan mai dyma'r lefel sy'n berthnasol i lawer o aelwydydd hunangyflogedig sydd â chyfrifoldebau gofalu, mae'r Llawr Isafswm Incwm hwn wedi'i ostwng yn rhoi mwy o ddiogelwch nag sy'n digwydd ar hyn o bryd i'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu cudd neu faterion iechyd. Mae enillion hunangyflogedig gwirioneddol yn parhau i gael eu defnyddio ar gyfer aelwydydd nad yw'r Llawr Isafswm Incwm yn berthnasol iddynt ac ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Nid yw gwaith modelu'n cymhwyso eithrio'r aelwydydd Credyd Cynhwysol hynny sydd wedi dechrau hunangyflogaeth yn ystod y 12 mis diwethaf o'r Llawr Isafswm Incwm gan nad yw'r data ar gyfer hyn ar gael. I'r aelwydydd hyn, mae gwaith modelu'n rhagdybio nad yw'r cyfnod gras yn berthnasol, neu ei fod wedi dod i ben.
- 4.63 Mae cyflwyno Llawr Isafswm Incwm gostyngedig yn debygol o fod yn gymhleth yn weinyddol a gallai defnyddio Llawr Isafswm Incwm gwahanol i'r hyn a gymhwysir i Gredyd Cynhwysol fod yn ddryslyd i rai ymgeiswyr. Ar hyn o bryd, i aelwydydd Credyd Cynhwysol, nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau'n rhoi gwybod i'r awdurdod

lleol am statws hunangyflogedig unigolyn er y gellir canfod hyn fel rheol trwy gymharu incwm a enillir â'r dyfarniad Credyd Cynhwysol sy'n deillio o hynny. Pe bai Llawr Isafswm Incwm gostyngedig yn cael ei gyflwyno ni allai awdurdodau lleol ddibynnu ar hysbysiadau Credyd Cynhwysol am wybodaeth incwm. Byddai angen iddynt gysylltu â'r aelwyd yn uniongyrchol ac asesu enillion hunangyflogedig. Gall hyn gynyddu costau gweinyddol i awdurdodau lleol. Serch hynny, nid yw nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr yn cymhwyso'r Llawr Isafswm Incwm i aelwydydd hunangyflogedig ac yn gofyn yn llwyddiannus am y wybodaeth hon gan ymgeiswyr er mwyn gweinyddu eu Cynlluniau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor.

Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor

Tabl 4.11: Model 4: Cyfanswm gostyngiadau treth gyngor y model (£ y flwyddyn)

	Model 4: Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor	Cymhariaeth â chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y cynllun cyfredol		Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol yn 2021-22	
Grŵp ⁴⁶	£ y flwyddyn	Newid £ y flwyddyn	Newid %	Newid £ y flwyddyn	Newid %
Pawb o oedran gweithio	£177M	£21M	13%	£0.4M	0.3%
Cyfanswm	£304M	£39M	15%	£0.4M	0.2%

4.64 Bydd gostwng y Llawr Isafswm Incwm o ran gostyngiadau yn y dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn golygu mai £304M y flwyddyn yw cyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor (i aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn). Mae hyn £0.4M y flwyddyn yn fwy na phe na bai

⁴⁶ I aelwydydd oedran gweithio'n unig y mae diwygiadau i'r cynllun yn berthnasol gan fod y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol. Mae pob model yn cynhyrchu cynnydd o 17% (£18M) yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran pensiwn o'i gymharu â'r cynllun cyfredol. Fodd bynnag, nid oes gwahaniaeth pan fydd y cynllun cyfredol yn cael ei uwchraddio hyd at 2021/22.

unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor Cymru erbyn 2021-22.

Dadansoddiad Effaith - Gostyngiad yn y Llawr Isafswm Incwm yn y CTRS

Llwyth Achosion

- 4.65 Yr aelwydydd hynny a gynrychiolir ar hyn o bryd yn y set ddata yw'r unig rai y mae dadansoddi effaith newid yn Llawr Isafswm yn y CTRS yn ei ystyried ac mae'n rhagdybio bod aelwydydd hunangyflogedig yn aros yn hunangyflogedig. Fodd bynnag, dangoswyd bod cyflwyno Llawr Isafswm Incwm yn cael effaith ymddygiadol⁴⁷ gyda'r mwyafrif o'r rhai y mae'r mesur yn cael effaith arnynt yn symud i ddiweithdra neu gyflogaeth. Nid oes modd rhagweld y newid ymddygiadol hwn yn gywir. Gan gymryd bod y rhai mewn hunangyflogaeth yn cynnal eu statws hunangyflogedig, bydd gostyngiad yn y Llawr Isafswm Incwm yn cynyddu dyfarniadau'r dreth gyngor i 510 o aelwydydd yn 2021-22. Mae cyflwyno Llawr Isafswm Incwm wedi'i ostwng yn cynyddu haelioni cynllun. Gallai rhai aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor ar hyn o bryd, oherwydd incwm wedi'i asesu'n uwch o dan y Llawr Isafswm Incwm cyfredol, ddod yn gymwys i gael cymorth o dan y mesur hwn, ac felly gallai llwyth achosion gynyddu.⁴⁸

Yr Effaith ar Ostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor y rhai y mae'r Mesur hwn yn Effeithio Arnynt

- 4.66 Ni fydd gostwng y Llawr Isafswm Incwm i aelwydydd hunangyflogedig yn cael effaith ar neb ac eithrio aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ac yn ddarostyngedig i'r Llawr Isafswm Incwm yn seiliedig ar fwy nag 16 awr yr wythnos.
- 4.67 Bydd aelwydydd yr effeithir arnynt yn gweld cynnydd sylweddol yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor cyfartalog o £16.60 yr wythnos (neu 696%) o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22.

⁴⁷ [Tystiolaeth i Gynulliad Llundain: The impact of Universal Credit on low income self-employed households](#) (Policy in Practice, Tachwedd 2018)

⁴⁸ Gwneir gwaith modelu ar yr aelwydydd hynny sydd eisoes wedi'u cynrychioli yn y setiau data Detholiad Budd Aelwyd Sengl (SHBE) a Chymorth gyda'r Dreth Gyngor sydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Felly ni all gwaith modelu ystyried unrhyw lwyth achosion ychwanegol a allai ddeillio o ddiwygio cynllun.

Tabl 4.12: Model 4: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar Gyfartaledd, £ yr wythnos, i aelwydydd yr effeithir arnynt

	Nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt	Gostyngiad cyfartalog aelwyd	Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol a gedwir hyd 2021-22	
Grŵp		£/yr wythnos	Newid £/yr wythnos	Newid %
Credyd Cynhwysol	510	£19.00	£16.60	696%
Budd-daliadau etifeddol	Dim effaith ar aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol			
Pawb o oedran gweithio	510	£19.00	£16.60	696%

4.68 Nid yw'r mesur hwn yn cael effaith ar gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Pe bai'r mesur hwn yn cael ei gyflwyno, byddai dyfarniadau cyfartalog i aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (£19.00 yr wythnos) yn aros yn is na'r dyfarniad cyfartalog o £22.80 yr wythnos i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.

Yr Effaith ar Aelwydydd sy'n Agored i Niwed

4.69 Bychan iawn yw effaith y mesur hwn ar yr holl aelwydydd a allai fod yn agored i niwed. Mae pob grŵp sy'n agored i niwed (aelwydydd lle mae rhywun yn anabl, yn rhy sâl i weithio, yn ofalwr, neu lle ceir plentyn dan bum mlwydd oed), yn gweld dyfarniadau tebyg o ran gostyngiad yn y dreth gyngor yn 2021-22 i'r rhai a gâi eu derbyn pe na cheid unrhyw newid. Mae hyn yn adlewyrchu'r tebygolrwydd isel y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n gosod amodoldeb ar dros 16 awr o waith yr wythnos i'r aelwydydd hyn.

Effaith gymdeithasol a dosbarthiadol ar draws yr holl hawliadau oedran gweithio

- 4.70 Ar draws yr holl aelwydydd o oedran gweithio sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor, mae'r gostyngiad wedi'i fodelu yn y llawr incwm lleiaf yn cynyddu dyfarniadau cyfartalog llai nag 1%.
- 4.71 Nid yw'r mesur hwn yn cael effaith ar neb ac eithrio aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ac sydd â Llawr Isafswm Incwm sy'n fwy nag 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Mae'r aelwydydd hyn yn gweld cynnydd sylweddol o 696% ar gyfartaledd mewn dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor. O'i gyfrifo fel cyfartaledd ar draws y llwyth achosion cyfan gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd hunangyflogedig, mae gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cynyddu 328% ar gyfartaledd. Nid yw'r mesur hwn yn effeithio ar ostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran gweithio cyflogedig nac aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith.
- 4.72 Bydd cyflwyno mesur i gynyddu'r gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol hefyd yn achosi cynnydd bychan mewn dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor cyfartalog i aelwydydd â phlant sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Y rheswm am hyn yw bod yr aelwydydd â phlant sy'n cael eu cynrychioli yn y setiau data a ddefnyddir ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn fwy tebygol o fod yn gweithio. Ar draws yr holl aelwydydd o oedran gweithio yng Nghymru sy'n cael gostyngiad yn y dreth gyngor, mae cyplau â phlant sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld eu gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu 3% ar gyfartaledd, tra bod rhieni sengl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld eu dyfarniadau'n cynyddu 1% ar gyfartaledd.

Effaith Credyd Cynhwysol ar Aelwydydd y mae'r Mesur hwn yn cael Effaith Arnynt

- 4.73 Bydd aelwydydd hunangyflogedig a gaiff eu hasesu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fel rhai sy'n gallu gweithio yn gweld gostyngiadau sylweddol mewn incwm wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol oherwydd defnyddio'r Llawr Isafswm Incwm. Caiff defnyddio Llawr Isafswm Incwm ei efelychu wrth asesu incwm ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae hyn yn golygu y bydd yr aelwydydd hyn yn colli incwm trwy Gredyd Cynhwysol a thrwy ostyngiad yn y dreth gyngor. Dangosodd

gwaith dadansoddi blaenorol gan Policy in Practice ar gyfer Cynulliad Llundain⁴⁹ fod y golled ar gyfartaledd yn incwm yr aelwyd wrth i weithwyr hunangyflogedig symud i Gredyd Cynhwysol oddeutu £220 y mis.

- 4.74 Bydd cyflwyno Llawr Isafswm Incwm wedi'i ostwng wrth asesu gostyngiad yn y dreth gyngor yn gwneud iawn am rywfaint o'r golled hon. Bydd aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol sy'n cael eu heffeithio gan y mesur hwn yn gweld eu gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu £16.60 yr wythnos (696%) dan y mesur hwn.
- 4.75 Mae'n werth nodi bod diwygiadau eraill a ystyrir yn yr adroddiad hwn hefyd yn cynyddu'r gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. At ddibenion cymharu, mae'r mesur hwn yn cynyddu'r cymorth ar draws yr holl aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol 328% ar gyfartaledd. Mae'r gostyngiad yn y gyfradd tapr i 10% yn cynyddu'r gostyngiad yn y dreth gyngor 225% ac mae cyflwyno isafswm dyfarniad gwarantedig wedi'i osod ar 15% o atebolrwydd yn cynyddu'r gostyngiad yn y dreth gyngor 9% ar gyfartaledd. Mae'r ddau ddiwygiad hyn yn arwain at gynnydd is mewn cymorth na phe bai'r Llawr Isafswm Incwm yn gostwng ond mae ganddynt y fantais o fod yn symlach yn weinyddol.

⁴⁹ [Tystiolaeth i Gynulliad Llundain: The impact of Universal Credit on low income self-employed households](#) (Policy in Practice, Tachwedd 2018)

Tabl 4.13: Model 4: Aelwydydd yr Effeithir arnynt gan Leihad yn y Llawr Isafswm Incwm - Canfyddiadau Allweddol

Nifer yr aelwydydd	510 o aelwydydd
Pwy sy'n cael eu heffeithio?	Aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gyda Llawr Isafswm Incwm yn seiliedig ar fwy nag 16 awr yr wythnos
Newid cyfartalog yn y dyfarniad ar gyfer aelwydydd yr effeithir arnynt	Mae aelwydydd Credyd Cynhwysol yr effeithir arnynt yn gweld cynnydd o £16.60 yr wythnos o'i gymharu â'r cynllun cyfredol yn 2021-22 Ni fydd aelwydydd budd-daliadau yn gweld unrhyw newid yn y gefnogaeth.
Newid yng nghyfanswm gwerth y gostyngiadau	Cynnydd o £0.4M y flwyddyn yn 2021-22
Llwyth Achosion	Gallai llwyth achosion y cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor gynyddu. ⁵⁰ Gallai aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol nad ydynt ar hyn o bryd yn gymwys i gael gostyngiad yn y dreth gyngor oherwydd enillion tybiannol uchel o dan y Llawr Isafswm Incwm ddod yn gymwys. Y rheswm am hyn yw y byddai ochr incwm y cyfrifiad yn lleihau gan arwain at lai o'r gostyngiad yn y dreth gyngor yn cael ei golli.
Effaith Credyd Cynhwysol ar aelwydydd yr effeithir arnynt	Mae aelwydydd hunangyflogedig yn gweld colled sylweddol mewn cefnogaeth trwy Gredyd Cynhwysol a gostyngiad yn y dreth gyngor pan fyddant yn symud i Gredyd Cynhwysol. Yn ôl peth tystiolaeth, mae'r golled hon mewn cefnogaeth yn arwain at fwyafrif yr aelwydydd hunangyflogedig yn rhoi'r gorau i hunangyflogaeth. ⁵¹ Bydd y mesur hwn yn gwneud iawn am rywfaint o'r golled honno.

⁵⁰ Gwneir dadansoddiad o'r aelwydydd hynny y mae awdurdodau lleol yn cadw data arnynt ar hyn o bryd. Ni all y dadansoddiad ragweld aelwydydd a allai ddod yn gymwys i gael cymorth ar ôl cyflwyno'r newid gan nad yw'r aelwydydd hyn yn cael eu cynrychioli yn y set ddata.

⁵¹ [Tystiolaeth i Gynulliad Llundain: The impact of Universal Credit on low income self-employed households](#) (Policy in Practice, Tachwedd 2018)

Model 5: Cael gwared â'r terfyn dau blentyn (aelwydydd UC)

- 4.76 Mae'r asesiad o anghenion dan Gredyd Cynhwysol yn cynnwys lwfans personol i'r hawliwr a'i bartner a symiau ychwanegol ar gyfer pob plentyn. Fodd bynnag, mae terfyn dau blentyn yn berthnasol i blant a anwyd ar ôl 6 Ebrill 2017. Os yw trydydd plentyn neu blentyn dilynol yn cael ei eni ar ôl y dyddiad hwn yna caiff elfen plentyn Credyd Cynhwysol (£2,780 y plentyn) ei chynnwys ar gyfer y ddau blentyn cyntaf yn unig. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu, i lawer o deuluoedd â mwy na dau o blant, na ddarperir unrhyw gefnogaeth i unrhyw drydydd plentyn neu blentyn dilynol. Mae ystadegau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM⁵² yn dangos bod y polisi hwn wedi effeithio ar 161,000 o aelwydydd ledled y DU ym mis Chwefror 2019, gan gynnwys 8,000 o aelwydydd yng Nghymru. Mae hyn yn 19% o'r holl aelwydydd gyda thrydydd plentyn neu blentyn dilynol yn hawlio un ai credydau treth neu Gredyd Cynhwysol. Bydd y gyfran hon yn tyfu dros amser wrth i fwy o aelwydydd â thri o blant neu fwy gynnwys plentyn a anwyd ar 6 Ebrill 2017 neu wedi hynny.
- 4.77 I aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, mae asesu anghenion at ddibenion gostyngiad yn y dreth gyngor yn adlewyrchu'r asesiad angen ar gyfer Credyd Cynhwysol. Golyga hyn bod elfen anghenion yr asesiad ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor hefyd wedi'i chyfyngu i ddau blentyn ac, fel gyda Chredyd Cynhwysol, nid yw'n adlewyrchu anghenion unrhyw blentyn ychwanegol a anwyd ar ôl Ebrill 2017.
- 4.78 Dan reoliadau cyfredol CTRS Cymru, nid yw'r terfyn dau blentyn wedi'i ymestyn i ostyngiadau yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol er bod y mesur wedi'i gymhwyso i Gredyd Treth Plant. Mae hyn yn arwain at rywfaint o annhegwch yn lefel y cymorth i aelwydydd â mwy na dau o blant gan iddi gael ei phennu gan y drefn fudd-daliadau sy'n berthnasol i'r aelwyd.
- 4.79 Mae Llywodraeth Cymru'n dymuno hyrwyddo tegwch rhwng aelwydydd budd-daliadau etifeddol a Chredyd Cynhwysol, a chefnogi teuluoedd. Mae'r model hwn yn cael gwared â'r terfyn dau blentyn wrth asesu ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor

⁵² [Child Tax Credit and Universal Credit claimants: statistics related to the policy to provide support for a maximum of 2 children, April 2019](#) (Gov.uk, Gorffennaf 2019)

i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Nid oes modd cymhwyso'r diwygiad hwn i waith asesu Credyd Cynhwysol gan nad yw hyn o fewn pŵer y Llywodraeth ddatganoledig.

- 4.80 Ni fydd y diwygiad hwn i'r asesiad o ostyngiad yn y dreth gyngor yn cael effaith ar ddim ac eithrio ar y cymorth i aelwydydd oedran gweithio â thri neu fwy o blant sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ac ni fydd yn cael effaith ar lefel y dyfarniad i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.

Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor

Tabl 4.14: Model 5: Gwerth Gostyngiadau'r Dreth Gyngor y Model (£ y flwyddyn)

	Model 5 Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor	Cymhariaeth â chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y cynllun cyfredol		Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol yn 2021-22	
Grŵp ⁵³	£ y flwyddyn	Newid £ y flwyddyn	Newid %	Newid £ y flwyddyn	Newid (%)
Pawb o oedran gweithio	£177M	£20M	13%	£0.2M	0.1%
Cyfanswm	£303M	£38M	15%	£0.2M	0.0%

- 4.81 Bydd cael gwared â'r terfyn dau blentyn i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn golygu mai £303M y flwyddyn fydd cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor yn 2021-22 i aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn. Mae hyn £0.2M y flwyddyn yn fwy na phe bai newidiadau'n cael eu gwneud i'r cynllun erbyn 2021-22.

⁵³ I aelwydydd oedran gweithio'n unig y mae diwygiadau i'r cynllun yn berthnasol gan fod y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol. Mae pob model yn cynhyrchu cynnydd o 17% (£18M) yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran pensiwn o'i gymharu â'r cynllun cyfredol. Fodd bynnag, nid oes gwahaniaeth pan fydd y cynllun cyfredol yn cael ei uwchraddio hyd at 2021/22.

Dadansoddi Effaith - Cael Gwared â'r Terfyn Dau Blentyn yn y CTRS

Llwyth Achosion

- 4.82 Dim ond ar aelwydydd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol ac sydd â thrydydd plentyn (neu ddilydol) wedi'i eni ar ôl Ebrill 2017 y bydd y mesur hwn yn cael effaith. O'r herwydd, mae nifer yr aelwydydd y mae'r mesur yn cael effaith arnynt yn fach ar hyn o bryd gyda 343 o aelwydydd yn unig yn gweld effaith y mesur. Fodd bynnag, bydd nifer yr aelwydydd y mae'r mesur yn cael effaith arnynt yn cynyddu dros amser wrth i fwy o deuluoedd gael trydydd plentyn neu blentyn dilydol a anwyd ar ôl Ebrill 2017.
- 4.83 Mae'r mesur hwn yn cynyddu haelioni cynllun. Gall aelwydydd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol lle ganwyd trydydd plentyn neu blentyn dilydol ar ôl Ebrill 2017, ac nad yw'n gymwys ar hyn o bryd i gael gostyngiad yn dreth gyngor, ddod yn gymwys i gael cymorth a gallai llwyth achosion gynyddu.⁵⁴

Yr Effaith ar Ddyfarniadau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor Wythnosol y rhai y mae'r Mesur hwn yn Effeithio Arnynt

- 4.84 Bydd y mesur hwn yn cynyddu'r gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gyda thrydydd plentyn (neu ddilydol) wedi'i eni ar ôl Ebrill 2017. Ni fydd yn cael effaith ar aelwydydd nad ydynt yn gweithio gan fod yr aelwydydd hyn yn derbyn y cymorth uchaf ar 100% o atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.
- 4.85 I aelwydydd y mae'r newid hwn yn cael effaith arnynt, mae eu gostyngiad wythnosol cyfartalog yn y dreth gyngor yn cynyddu £9.41 yr wythnos (109%) o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22.

⁵⁴ Gwneir dadansoddiad o'r aelwydydd hynny y mae awdurdodau lleol yn cadw data arnynt ar hyn o bryd. Ni all y dadansoddiad ragweld aelwydydd a allai ddod yn gymwys i gael cymorth ar ôl cyflwyno'r newid gan nad yw'r aelwydydd hyn yn cael eu cynrychioli yn y set ddata.

Tabl 4.15: Model 5: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar Gyfartaledd, £ yr wythnos, aelwydydd yr effeithir arnynt yn unig

	Nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt	Gostyngiad cyfartalog aelwyd	Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol a gedwir hyd 2020-21	
Grŵp		£/yr wythnos	Newid £/yr wythnos	Newid (%)
Credyd Cynhwysol	343	£18.05	£9.41	109%
Budd-daliadau etifeddol	Dim effaith ar aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol			
Pawb o oedran gweithio	343	£18.05	£9.41	109%

4.86 Nid yw'r mesur hwn yn cael effaith ar aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.

4.87 Dim ond ar aelwydydd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol lle ganwyd trydydd plentyn neu blentyn dilynol ar ôl Ebrill 2017 y bydd y mesur hwn yn effeithio arnynt. Mae'r cynnydd yn y gostyngiad yn y dreth gyngor yn sylweddol i aelwydydd â phlant y mae'r mesur hwn yn effeithio arnynt. Gwêl unig rieni, y mae'r Mesur hwn yn cael effaith arnynt, eu gostyngiad cyfartalog yn y dreth gyngor yn cynyddu 146% a chyplau â phlant yn gweld eu gostyngiad cyfartalog yn y dreth gyngor yn cynyddu 96%.

Yr effaith ar aelwydydd a allai fod yn agored i niwed

4.88 Nid yw cael gwared â'r terfyn dau blentyn i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cael fawr ddim effaith ar aelwydydd sy'n agored i niwed gan fod yr aelwydydd hyn yn debygol o dderbyn y dyfarniadau uchaf yn seiliedig ar 100% o atebolrwydd. Mae dyfarniadau cyfartalog i'r rhai sydd â salwch, anabledd neu gyfrifoldebau gofalu yn debyg i'r hyn a geid pe cedwid y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol. Ymhlith grwpiau sy'n agored i niwed, dim ond unig rieni sydd

â phlentyn dan bump oed sy'n gweld cynnydd bychan yn eu dyfarniad cyfartalog (0.2%).

Effaith credyd cynhwysol ar aelwydydd y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt

- 4.89 Ni fydd aelwydydd â thrydydd plentyn neu blentyn dilynol a anwyd ar ôl Ebrill 2017 yn derbyn cymorth gyda budd-daliadau i'r plentyn hwnnw dan reoliadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol. Bydd hyn yn arwain at golli hyd at £231 y mis⁵⁵ mewn perthynas â phob plentyn a anwyd ar ôl y dyddiad hwn. Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol Cymru yn cymhwyso'r terfyn dau blentyn ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ond nid ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Felly, bydd aelwydydd y mae'r mesur yn cael effaith arnynt ac sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn colli cymorth trwy Gredyd Cynhwysol a gostyngiad yn y dreth gyngor. Bydd aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn colli cymorth trwy gredydau treth yn unig.
- 4.90 Bydd cael gwared â'r terfyn dau blentyn wrth asesu cymorth gyda'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd Credyd Cynhwysol yn gwneud iawn am rywfaifaint o'r golled mewn cymorth i'r aelwydydd hyn ac yn sicrhau cydraddoldeb ag aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.
- 4.91 Byddai'r mesur hwn yn ychwanegu rhywfaint o gymhlethdod gweinyddol. Y rheswm dros hyn yw bod gostyngiad yn y dreth gyngor ar hyn o bryd yn defnyddio'r dyfarniad Credyd Cynhwysol uchaf fel mesur o angen ac mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfyngiad ar nifer y plant a gefnogir. Byddai angen i awdurdodau lleol ddefnyddio'r data a roddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddeall a oedd yr uchafswm Credyd Cynhwysol wedi cymhwyso terfyn dau blentyn ac, os oedd, i ychwanegu unrhyw elfen plentyn ychwanegol at y swm y rhoddwyd gwybod iddynt amdano.

⁵⁵ [Cyfraddau Credyd Cynhwysol 2019/20](#)

Effaith y mesur hwn ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio

- 4.92 Mae dyfarniadau cyfartalog yn cynyddu llai nag 1% ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor. Y rheswm am hyn yw bod y mesur hwn yn cael effaith ar aelwydydd oedran gweithio sydd â thrydydd plentyn a anwyd ar ôl Ebrill 2017 yn unig. Mae'n debygol y bydd y mesur hwn yn cael effaith ar fwy o aelwydydd dros amser wrth i fwy o blant gael eu geni ar ôl y dyddiad hwn.
- 4.93 Ar draws y llwyth achosion oedran gweithio cyfan yng Nghymru, mae cyplau â phlant sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld cynnydd cyfartalog o 2% o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22 a gwêl rhieni unig gynnydd cyfartalog o 0.4%. Nid yw'r mesur hwn yn cael effaith ar unrhyw grŵp arall.
- 4.94 Mae'r mesur hwn yn cynyddu tegwch rhwng y rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Er hynny, mae dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd â phlant sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn parhau i fod tua £4 yr wythnos yn is ar gyfartaledd nag i aelwydydd tebyg sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Y rheswm am hyn yw bod mesurau eraill yn cael effaith ar ostyngiadau yn y dreth gyngor i'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cynnwys cadw mwy o incwm a enillir a'r gwahanol asesiad o anghenion (er enghraifft, cael gwared â'r premiymau anabledd).

Tabl 4.16: Model 5: Aelwydydd yr Effeithir arnynt gan Gael Gwared â'r Terfyn Dau Blentyn - Canfyddiadau Allweddol

Nifer yr aelwydydd	343 o aelwydydd (byddai disgwyl i hyn gynyddu dros amser).
Pwy sy'n cael eu heffeithio?	Aelwydydd Credyd Cynhwysol mewn gwaith gyda phlentyn a anwyd ar ôl Ebrill 2017.
Newid cyfartalog yn y dyfarniad i'r rhai yr effeithir arnynt.	Ar gyfartaledd byddai aelwydydd Credyd Cynhwysol yr effeithir arnynt gan y mesur hwn yn gweld cynnydd o £9.41 yr wythnos o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22. Nid yw'r mesur hwn yn cael effaith ar aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.
Newid yng nghyfanswm gwerth y gostyngiadau	Cynnydd o £0.2M y flwyddyn yn 2021-22
Llwyth Achosion	Gallai llwyth achosion y cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor gynyddu. ⁵⁶ Gall aelwydydd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol gyda thrydydd plentyn a anwyd ar ôl Ebrill 2017, ac nad yw'n gymwys ar hyn o bryd i gael gostyngiad yn dreth gyngor, ddod yn gymwys i gael cymorth. Y rheswm am hyn yw y byddai ochr anghenion y cyfrifiad yn cynyddu gan arwain at lai o'r gostyngiad yn y dreth gyngor yn cael ei golli.
Effaith Credyd Cynhwysol ar aelwydydd yr effeithir arnynt	Bydd aelwydydd y mae'r terfyn dau blentyn yn effeithio arnynt yn colli hyd at £231 y mis, y plentyn, o Gredyd Cynhwysol neu gredydau treth. Ar hyn o bryd, mae aelwydydd yr effeithir arnynt sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld colled ychwanegol o ganlyniad i lai o ostyngiad yn y dreth gyngor. Bydd y mesur hwn yn sicrhau cydraddoldeb o ran y gostyngiad yn y dreth gyngor rhwng aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol a bydd yn gwrthbwysu peth o'r golled mewn cefnogaeth i aelwydydd Credyd Cynhwysol.

⁵⁶ Gwneir dadansoddiad o'r aelwydydd hynny y mae awdurdodau lleol yn cadw data arnynt ar hyn o bryd. Ni all y dadansoddiad ragweld aelwydydd a allai ddod yn gymwys i gael cymorth ar ôl cyflwyno'r newid gan nad yw'r aelwydydd hyn yn cael eu cynrychioli yn y set ddata.

Model 6: Cynllun Band Incwm

- 4.95 Mae llawer o awdurdodau lleol yn Lloegr yn ystyried cyflwyno newid radical i'w cynllun lleol. Cynlluniau Gostyngiad yn y Dreth Gyngor â band incwm yw'r opsiwn mwyaf poblogaidd ar gyfer diwygio. Mae'r newidiadau hyn o ddiddordeb i gynghorau am y rhesymau a ganlyn:
- Mae asesiad dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor cyfredol yn debyg i asesiad o Fudd-dal Tai ac, ar gyfer tenantiaid, caiff y ddau eu hasesu gyda'i gilydd. Gan fod y ddau gynllun yn gofyn am asesiad cymhleth tebyg o incwm ac anghenion, caiff cost y gweinyddu ei drawsnoddi'n rhannol gan y cymhorthdal gweinyddu Budd-dal Tai. Dros amser, wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol, bydd Budd-dal Tai yn peidio â bodoli ar gyfer aelwydydd oedran gweithio, a bydd y cymhorthdal Budd-dal Tai yn dod i ben. Felly bydd cost gweinyddu achos annibynnol gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu.
 - Dan Gredyd Cynhwysol, gall dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor newid bob mis gan ddibynnu ar yr incwm a dderbynnir gan yr aelwyd yn y mis hwnnw. Caiff y newidiadau incwm hyn eu trosglwyddo'n awtomatig i'r awdurdod lleol gan Gyllid a Thollau EM, trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau, a hynny ar gyfer eu hailasesu ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae hyn yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr ailasesiadau ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor ac at gostau gweinyddol ychwanegol, cysylltiedig i'r cyngor.
 - Dan Gredyd Cynhwysol, ceir cynnydd yn y biliau a gynhyrchir oherwydd cynnydd mewn ailasesiadau. Mae hyn yn achosi dryswch ymhlith hawl wyr a risgiau sy'n arwain at beidio â thalu unrhyw dreth gyngor weddilliol heb ostyngiad yn y dreth gyngor.
- 4.96 Mae cynlluniau â band incwm yn amrywiol ledled y Deyrnas Unedig. Mae ganddyn nhw, fel arfer, rhwng 3 ac 8 band incwm yr un gyda gostyngiad cysylltiedig o atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor. Mae'r cynlluniau'n amrywio o ran mathau'r incwm sy'n cael eu hystyried, yr hyn a ddiystyrir, ymdrin â chyfalaf, ac ymdrin â phersonau nad ydynt yn ddibynyddion. Mae rhai yn syml iawn, a rhai mor gymhleth â'r cynllun cyfredol. Felly, dim ond effaith y cynllun penodol hwnnw y bydd unrhyw fodel yn ei

gynrychioli. Mae'n hawdd gwneud pob model band incwm yn fwy neu'n llai hael neu ei gynllunio i gynorthwyo grwpiau penodol.

4.97 Er mwyn diwallu anghenion Llywodraeth Cymru, mae gwaith modelu'n seiliedig ar y cynllun â band incwm a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Gyngor Newcastle.⁵⁷

Dewiswyd y cynllun hwn gan fod Cyngor Newcastle yn flaenorol wedi gweithredu cynllun tebyg i gynllun Cymru (yn seiliedig ar 100% o atebolrwydd) ac wedi cynllunio eu cynllun â band incwm i gadw cymorth hael i breswylwyr. Felly mae'r amcan ar gyfer Cyngor Newcastle wrth ddylunio cynllun yn efelychu amcan Llywodraeth Cymru.

Nodweddion allweddol Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cyngor Dinas Newcastle

4.98 Mae Cyngor Dinas Newcastle yn gweithredu cynllun â band incwm sy'n asesu lefel uchaf y gostyngiad yn y dreth gyngor yn seiliedig ar incwm net yr ymgeisydd a'i bartner.

- Pan fydd yr ymgeisydd (neu ei bartner) yn derbyn budd-daliadau pasbort (Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn gysylltiedig ag incwm neu'r Credyd Cynhwysol Uchaf) byddant yn cael eu rhoi yn awtomatig ym mand uchaf y cynllun.
- Ni fydd unrhyw un sydd â chynilion o £6,000 neu fwy yn gymwys.
- Diystyrir hyd at £175.00 o gost gofal plant ar enillion ar gyfer un plentyn a £300.00 ar gyfer dau neu fwy.
- Diystyrir £7.50 ar enillion i bobl sengl, £12.50 i gyplau a £27.50 i rieni sengl.
- Diystyrir peth incwm e.e. budd-daliadau anabledd, Budd-dal Plant a thaliadau cynhaliaeth plant.
- Anwybyddir elfen cost tai Credyd Cynhwysol.
- Codir tâl cyfradd unffurf o £2.50 yr wythnos ar gyfer pob aelod o'r cartref nad yw'n ddibynnydd.
- Ceir isafswm dyfarniad o £1 yr wythnos.

⁵⁷ [Nodweddion allweddol Cynllun Cyngor Dinas Newcastle](#). [Manylion Llawn Cynllun Cyngor Dinas Newcastle](#)

Tabl 4.17: Bandiau Incwm ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cyngor Dinas Newcastle

Gostyngiad	Budd-daliadau Pasbort	Sengl £/yr wythnos	Cyplau £/yr wythnos	Teulu 1 plentyn (£ / yr wythnos)	Teulu 2+ o blant (£ / yr wythnos)
Band A - 90%	Budd-dal Perthnasol	<£110	<£160	<£210	<£260
Band B - 85%	Ddim yn berthnasol	£110.01 i £150	£160.01 i £200	£210.01 i £250	£260.01 i £300
Band C - 50%	Ddim yn berthnasol	£150.01 i £230	£200.01 i £270	£250.01 i £330	£300.01 i £370
Band D - 25%	Ddim yn berthnasol	£230.01 i £300	£270.01 i £350	£330.01 i £400	£370.01 i £450

4.99 Mae'r gwaith modelu'n cymhwyso'r cynllun â band incwm i aelwydydd oedran gweithio yn unig gan fod y gwaith ymchwil hwn yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol sy'n cael effaith ar yr aelwydydd hyn yn unig. Pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno math o gynllun â band incwm, gallai hefyd gael ei ymestyn i aelwydydd oed pensiwn.

Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor

Tabl 4.18: Model 6: Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y model (£ y flwyddyn)

	Model 6 Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor	Cymhariaeth â chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y cynllun cyfredol		Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol yn 2021-22	
Grŵp ⁵⁸	£ y flwyddyn	Newid £ y flwyddyn	Newid %	Newid £ y flwyddyn	Newid %
Pawb o oedran gweithio	£170M	£14M	9%	£-7M	-4%
Cyfanswm	£297M	£32M	12%	£-7M	-2%

4.100 Bydd cyflwyno cynllun â band incwm Newcastle yn golygu mai £297M y flwyddyn fydd cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio ac oedran pensiwn yn 2021-22. Mae hyn yn £7M yn llai na phe bai'r cynllun cyfredol yn cael ei gadw hyd 2021-22.

Dadansoddi Effaith - Model Band Incwm

Llwyth Achosion

4.101 Byddai cyflwyno cynllun â band incwm yn cael effaith ar bob aelwyd oedran gweithio sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor yng Nghymru.

4.102 Byddai 13,900 o aelwydydd yn colli'r holl gymorth gyda'r dreth gyngor dan y model hwn. Mae hyn oddeutu 11% o'r llwyth achosion oedran gweithio. Teuluoedd sy'n gweithio yw'r rhain yn bennaf.

4.103 Mae'n debygol y gallai aelwydydd sy'n gweithio ac sydd ag asesiad isel o anghenion ar hyn o bryd ond nad ydynt ar hyn o bryd yn gymwys i gael cymorth

⁵⁸ I aelwydydd oedran gweithio'n unig y mae diwygiadau i'r cynllun yn berthnasol gan fod y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol. Mae pob model yn cynhyrchu cynnydd o 17% (£18M) yng nghyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer aelwydydd oedran pensiwn o'i gymharu â'r cynllun cyfredol. Fodd bynnag, nid oes gwahaniaeth pan fydd y cynllun cyfredol yn cael ei uwchraddio hyd at 2021/22.

gyda'r dreth gyngor, ddod yn gymwys.⁵⁹ Y rheswm am hyn yw bod incwm yn cael ei gymharu ag angen a aseswyd dan y cynllun cyfredol, ac mae unrhyw incwm uwchlaw anghenion yn arwain at leihad yn y gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae cynlluniau â band incwm yn dibynnu'n llwyr ar incwm ac nid ydynt yn cynnwys asesiad o anghenion.

Yr Effaith ar Ostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor y rhai y mae'r Mesur hwn yn Effeithio Arnynt

- 4.104 Mae'r model hwn yn cael effaith ar bob aelwyd oedran gweithio sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor.
- 4.105 Yn sgîl cyflwyno cynllun â band incwm tebyg i gynllun Newcastle bydd y gostyngiad wythnosol ar gyfartaledd i aelwydydd oedran gweithio yn gostwng £0.80 yr wythnos (-4%).

Tabl 4.19: Model 6: Gostyngiad Wythnosol yn y Dreth Gyngor ar Gyfartaledd, £ yr wythnos, ar draws pob Aelwyd

	Nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt	Gostyngiad cyfartalog aelwyd	Cymhariaeth â'r cynllun cyfredol a gedwir hyd 2020-21	
Grŵp		£/yr wythnos	Newid £/yr wythnos	Newid %
Credyd Cynhwysol	51,160	£18.50	-£0.90	-5%
Budd-daliadau etifeddol	113,730	£20.40	-£0.70	-3%
Pawb o oedran gweithio	164,880	£19.80	£0.80	-4%

⁵⁹ Gwneir dadansoddiad o'r aelwydydd hynny y mae awdurdodau lleol yn cadw data arnynt ar hyn o bryd. Ni all y dadansoddiad ragweld aelwydydd a allai ddod yn gymwys i gael cymorth ar ôl cyflwyno'r newid gan nad yw'r aelwydydd hyn yn cael eu cynrychioli yn y set ddata.

- 4.106 Mae cynllun â band incwm yn cael effaith debyg ar aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol â'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.

Aelwydydd a allai fod yn agored i niwed

- 4.107 Mae cynlluniau â band incwm yn tueddu i gael yr effaith fwyaf ar aelwydydd sy'n gweithio. Felly, mae aelwydydd a allai fod yn agored i niwed yn gweld gostyngiadau is yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor na'r cyfartaledd ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio. Mae aelwydydd lle mae person yn sâl, yn derbyn budd-daliadau anabledd, neu'n ofalwr yn gweld lefelau cymorth tebyg i'r hyn a welid pe bai'r cynllun cyfredol yn cael ei gadw hyd 2021-22. Mae unig rieni sydd â phlentyn dan bum mlwydd oed yn gweld eu gostyngiad yn y dreth gyngor yn gostwng 2%.

Effaith credyd cynhwysol ar aelwydydd y mae'r mesur hwn yn cael effaith arnynt

- 4.108 Bydd llawer o aelwydydd yn gweld newid mewn cymorth gyda budd-daliadau wrth iddynt symud o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol. Gall Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gyda Band Incwm liniaru effaith newidiadau mewn cymorth budd-daliadau trwy ddyfarnu gostyngiad yn y dreth gyngor yn seiliedig ar incwm o bob ffynhonnell, gan gynnwys budd-daliadau. Golyga hyn y gallai'r rhai sy'n colli cymorth dan Gredyd Cynhwysol weld mwy o ostyngiad yn y dreth gyngor a'r rhai hynny sy'n cael mwy o gymorth dan Gredyd Cynhwysol weld llai o ostyngiad yn y dreth gyngor.

Effaith y mesur hwn ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio

- 4.109 O dan gynlluniau â band incwm, mae aelwydydd sy'n gweithio gyda symiau is o angen a aseswyd yn tueddu i ennill cymorth, ac mae aelwydydd sy'n gweithio ag anghenion a aseswyd uwch (er enghraifft, oherwydd plant neu anabledd) yn tueddu i golli cefnogaeth. Felly cyplau heb blant sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yw'r unig grŵp, yn ôl cyfansoddiad yr aelwyd, sy'n gweld cynnydd yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor o dan y model hwn (cynnydd o 2% ar gyfartaledd).
- 4.110 Mae'r model hwn yn parhau i roi lefelau uchel o ostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith ond yn gostwng y gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n gweithio. Mae aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld gostyngiad sylweddol o 45% yn eu gostyngiad yn y

dreth gyngor o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22, ac mae aelwydydd hunangyflogedig yn gweld gostyngiadau cyfartalog o dros 30%.

- 4.111 Mae aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith yn gweld cynnal lefel eu gostyngiad yn y dreth gyngor ar lefelau tebyg i'r hyn a welid pe bai'r cynllun cyfredol yn cael ei gadw hyd 2021-22.

Tabl 4.20: Model 6: Aelwydydd y mae cynllun band incwm Newcastle yn cael effaith arnynt: - canfyddiadau allweddol


Nifer yr aelwydydd	Pob aelwyd sy'n gweithio
Pwy sy'n cael eu heffeithio?	Mae'r model hwn yn hynod ailddosbarthol a bydd yn cael effaith ar ddyfarniadau'r mwyafrif o'r aelwydydd sy'n gweithio. Bydd aelwydydd sydd allan o waith yn gweld cymorth yn aros ar lefelau tebyg i'r cynllun cyfredol yn 2021-22.
Newid cyfartalog yn y dyfarniad i'r rhai yr effeithir arnynt	Gostyngiad cyfartalog o £0.80 yr wythnos o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22.
Newid yng nghyfanswm gwerth y gostyngiadau	Gostyngiad o £7M y flwyddyn yn 2021-22.
Llwyth Achosion	Bydd 13,900 o aelwydydd yn colli eu gostyngiad yn y dreth gyngor yn gyfan gwbl. Efallai y bydd rhai aelwydydd sy'n gweithio ac nad ydynt yn gymwys i gael cymorth dan y cynllun cyfredol, yn dod yn gymwys i gael cymorth. Yn bennaf, aelwydydd yr aseswyd bod eu hangen yn isel dan y cynllun cyfredol fydd y rhain.
Effaith Credyd Cynhwysol ar aelwydydd yr effeithir arnynt	Bydd llawer o aelwydydd yn gweld newid mewn cymorth budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau wrth iddynt symud i Gredyd Cynhwysol. Mae cynlluniau â band incwm yn rhoi gostyngiad yn y dreth gyngor yn seiliedig ar holl incwm yr aelwyd, gan gynnwys incwm budd-daliadau. Golyga hyn y gall y rhai sy'n colli cymorth dan Gredyd Cynhwysol ennill gostyngiad yn y dreth gyngor dan gynllun â band incwm a gallai'r rhai hynny sy'n ennill cymorth dan Gredyd Cynhwysol weld lai o ostyngiad yn y dreth gyngor.

Cymharu Modelau

Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor

4.112 Dylai cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor ar gyfer pob model, ac eithrio Model 5 (cael gwared â'r terfyn dau blentyn), gael ei ystyried fel un esboniadol yn unig gan y gellir gwneud modelau'n fwy, neu'n llai, hael. Dewiswyd y paramedrau ar gyfer y modelau i fodloni orau amcanion Llywodraeth Cymru. Dangosir isod gyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor sy'n berthnasol i'r holl fodelau:

Ffigwr 4.13: Cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y cynllun cyfredol, y cynllun cyfredol yn 2021-22 a'r holl fodelau



Mae modd addasu cyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor y modelau i'w gwneud yn fwy, neu'n llai, hael, a hynny fel a ganlyn:

- **Model 1 (didyniadau cyfradd safonol ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion):** newid lefel y didyniad.
- **Model 2 (cyfradd tapr ostyngedig):** newid canran y tapr
- **Model 3 (dyfarniad gwarantedig):** newid isafswm y dyfarniad NEU newid y trothwyon incwm torbwynt

- **Model 4 (Llawr Isafswm Incwm Diwygiedig - Aelwydydd UC):** diwygio nifer yr oriau y mae'r Llawr Incwm Isafswm wedi'i seilio arno neu gael gwared ar y Llawr Isafswm Incwm
- **Model 5: (Gwneud i ffwrdd â'r terfyn dau blentyn - aelwydydd UC):** dengys y model hwn effaith absoliwt gwneud i ffwrdd â'r terfyn dau blentyn ac, felly, nid oes modd cynyddu na gostwng cyfanswm gwerth y gostyngiad yn y dreth gyngor.
- **Model 6: (band incwm):** diwygio bandiau incwm, disgownt neu gyflwyno (neu wneud i ffwrdd ag) elfennau diystyru.

Cymharu Modelau Canfyddiadau allweddol

- 4.113 Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau sy'n cael eu hystyried yn cael effaith ar grŵp cul, penodol o aelwydydd sy'n derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor. Dim ond Model 6, cyflwyno cynllun â band incwm, sy'n cael effaith eang sy'n berthnasol ar draws yr holl aelwydydd oedran gweithio.
- 4.114 Mae dau o'r mesurau sy'n cael eu hystyried; gwneud i ffwrdd â'r terfyn dau blentyn (Model 5) a'r gostyngiad yn y Llawr Isafswm Incwm (Model 4), ond yn effeithio ar aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae disgwyl i'r ddau hyn gael effaith ar lai na 1,000 o aelwydydd ledled Cymru yn 2021-22. Bydd nifer yr aelwydydd y mae'r mesurau hyn yn cael effaith arnynt yn cynyddu wrth i fwy o boblogaeth Cymru symud i Gredyd Cynhwysol. Mae'r ddau fesur hyn yn creu mwy o gydraddoldeb wrth ymdrin ag aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol a'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, ac mae'r ddau fesur yn adfer rhyw gymaint o'r golled mewn cymorth budd-daliadau wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol. Er bod taeniad y ddau fesur hyn yn gyfyngedig ar hyn o bryd, bydd y cynnydd yn y gostyngiad yn y dreth gyngor i'r rhai y bydd y mesur yn cael effaith arnynt, yn sylweddol a gwneir iawn yn rhannol am golli cymorth budd-daliadau eraill wrth i'r aelwydydd y bydd y mesur yn cael effaith arnynt symud i Gredyd Cynhwysol. O'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22, mae gwneud i ffwrdd â'r terfyn dau blentyn (Model 5) yn cynyddu'r gostyngiad yn y dreth gyngor £9.41 yr wythnos i aelwydydd y bydd y mesur yn cael effaith arnynt ac mae'r gostyngiad yn y Llawr Isafswm Incwm (Model 4) yn cynyddu'r gostyngiad yn y dreth gyngor £16.60 yr wythnos i aelwydydd y bydd y mesur yn cael effaith arnynt.

- 4.115 Cyflwyno didyniadau cyfradd safonol ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion (Model 1) yw'r unig fesur fydd yn cael effaith ar aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau allan o waith yn ogystal ag aelwydydd sy'n gweithio. Dim ond ar aelwydydd sy'n gweithio y mae'r holl fesurau eraill sy'n cael eu hystyried yn cael effaith. Mae'r gostyngiad yn y gyfradd tapr i 10% (Model 2) yn cael effaith sylweddol ar bron pob aelwyd sy'n gweithio gyda dyfarniadau cyfartalog yn codi dros £5 yr wythnos.
- 4.116 Mae dau o'r modelau; y gostyngiad yn y tapr (Model 2) a'r isafswm dyfarniad gwarantedig (Model 4), yn cael yr effaith fwyaf ar lefelau gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae modd cymharu effaith y mesurau hyn â'r gostyngiad yn y Llawr Isafswm Incwm (Model 4) sydd wedi'i gynllunio'n benodol i gefnogi aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae'r cynnydd yn y gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (nid y rhai y mae mesur yn cael effaith arnynt yn unig), o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22, i'w weld isod:
- Gostyngiad yn y tapr (Model 2): cynnydd cyfartalog o 225%
 - Isafswm dyfarniad gwarantedig (Model 4): cynnydd cyfartalog o 102%
 - Gostyngiad yn y Llawr Isafswm Incwm (Model 5): cynnydd cyfartalog o 328%
- 4.117 Hyd yn oed gyda'r codiadau sylweddol hyn mewn cymorth, mae'n werth nodi bod y dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor cyfartalog ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn parhau i fod yn is na lefel yr aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol dan bob model.
- 4.118 Bydd pob model sy'n cynyddu'r gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n gweithio, hefyd yn cynyddu'r gostyngiad cyfartalog yn y dreth gyngor i aelwydydd â phlant. Ymhlith y boblogaeth incwm isel yr edrychwyd arnynt ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, mae aelwydydd â phlant yn fwy tebygol o fod mewn gwaith. Mae cael gwared â'r terfyn dau blentyn (Model 5) a'r cynllun â band incwm (Model 6) y darparu cynnydd o 2% ar gyfartaledd yn y gostyngiad yn y dreth gyngor i gyplau â phlant.
- 4.119 Ar gyfartaledd, nid yw'r mesurau yr edrychir arnynt yn yr adroddiad hwn yn cael fawr ddim effaith ar ddyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor a roddir i aelwydydd

sy'n agored i niwed (y rhai sy'n byw ag anabledd neu salwch, gofalwyr, ac unig rieni sydd â phlentyn dan bum mlwydd oed). Y rheswm am hyn yw bod yr aelwydydd hyn yn debygol o dderbyn yr uchafswm (yn seiliedig ar 100% o atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor) ac nid yw hyn yn newid dan unrhyw un o'r mesurau hyn.

- 4.120 Mae'r holl fesurau sy'n cael eu hystyried, ac eithrio'r cynllun â band incwm (Model 6), yn debygol o gynyddu llwyth achosion.
- 4.121 Mae Tabl 4.21 yn nodi effaith debygol pob model ar lwyth achosion. Nodwch: mae'r holl waith modelu ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar lwyth achosion y flwyddyn gyfredol (2018-19).
- 4.122 Yn Nhabl 4.21 mae'r dadansoddiad o'r mathau o aelwydydd sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan gynllun yn gyfartaledd ar draws y math carfan gyfan, nid dim ond y rhai y mae pob model yn effeithio arnynt.

Tabl 4.21: Cymharu Modelau Canfyddiadau allweddol

	Model 1: Didyniad cyfradd safonol i'r rhai nad ydynt yn ddibynyddion	Model 2: Newid tapr i 10%	Model 3: Dyfarniad Gwarantedig	Model 4: Llawr Isafswm Incwm yn y CTRS yn seiliedig ar 16 awr	Model 5: Cael gwared â'r terfyn dau blentyn yn y CTRS	Model 6: Cynllun â Band Incwm
Grŵp yr effeithir arnynt	Aelwydydd Budd-daliadau Etifeddol a UC gyda phersonau sy'n gweithio nad ydynt yn ddibynyddion	Aelwydydd Budd-daliadau Etifeddol a UC gydag enillion uwchlaw anghenion (aelwydydd sy'n gweithio)	Aelwydydd Budd-daliadau Etifeddol a UC gyda dyfarniad sy'n llai na 15% o'r atebolrwydd (aelwydydd sy'n gweithio)	Aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn UC y mae disgwyl iddynt weithio mwy na 16 awr yr wythnos	Aelwydydd sy'n gweithio ac yn derbyn UC ac sydd â mwy na dau o blant a phlentyn a anwyd ar ôl Ebrill 2017	Pawb o oedran gweithio
Nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt	1,520	26,400	2,620	510	343	Pawb o oedran gweithio
Newid mewn dyfarniad (£/yr wythnos) i aelwydydd yr effeithir arnynt: UC	+£6.80 (+48%)	+£6.50 (+62%)	+£1.60 (+88%)	+£16.60 (+696%)	+£9.41 (+109%)	-£0.90 (-5%)
Newid mewn dyfarniad (£/yr wythnos) i aelwydydd yr effeithir arnynt: Etifeddol	+£5.10 (+33%)	+£5.70 (+45%)	+£1.50 (+82%)	Dim effaith	Dim effaith	-£0.80 (-3%)
Effaith ar gyfanswm y Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor (CTR) (£ y flwyddyn)	+£0.4M (+0.1%)	+£8M (+3%)	+£0.2M (+0.1%)	+£0.4M (+0.2%)	+ £0.2M (+0.0%)	-£7M (-2%)
Effaith ar lwyth achosion	Tebygol o gynyddu Gallai rhai aelwydydd gyda phersonau nad ydynt yn ddibynyddion ddod yn gymwys.	Tebygol o gynyddu Gallai rhai aelwydydd gydag incwm uwchlaw anghenion ddod yn gymwys.	Yn debygol o gynyddu oherwydd y meini prawf cymhwysedd syml.	Tebygol o gynyddu Gallai rhai aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn UC ddod yn gymwys.	Tebygol o gynyddu Gallai aelwydydd sy'n derbyn UC ac sydd â phlentyn a anwyd ar ôl Ebrill 2017 ddod yn gymwys.	Nid yw 13,900 o aelwydydd yn gymwys bellach Gallai rhai aelwydydd ddod yn gymwys.

Y mathau o aelwydydd sydd fwyaf tebygol o ennill o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22*	Wedi'i daenu'n eithaf teg ar draws gwahanol grwpiau demograffig	UC hunangyflogedig +225% UC cyflogedig + 63% Etifeddol cyflogedig + 23%	UC hunangyflogedig + 9%	UC hunangyflogedig +328%	Cwpl â phlant + 2% Bydd yr effaith yn cynyddu dros amser wrth i fwy o blant gael eu geni ar ôl Ebrill 2017	Cwpl â phlant + 2% Mae pob grŵp aelwyd arall yn colli cefnogaeth
---	---	---	-------------------------	--------------------------	---	---

5. Casgliadau a Chamau Nesaf

- 5.1 I lawer o aelwydydd, gall symud i Gredyd Cynhwysol gael effaith sylweddol ar ddyfarniadau gostyngiadau'r dreth gyngor. Mae hyn yn bennaf oherwydd gwahaniaethau yn yr asesiad o gymorth dan Gredyd Cynhwysol a than systemau budd-daliadau etifeddol. Nid yw'r gwahaniaethau hyn yn cael effaith ar y rhai sy'n derbyn dyfarniadau uchaf gostyngiadau'r dreth gyngor nad oes ganddynt incwm: maent yn parhau i dderbyn dyfarniadau'n seiliedig ar atebolrwydd o 100% i dalu'r dreth gyngor dan Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, i aelwydydd eraill, gall symud i Gredyd Cynhwysol beri lleihad sylweddol yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor.
- 5.2 Caiff y gwahaniaeth hwn mewn dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor rhwng y ddwy gyfundrefn fudd-daliadau ei ddwysáu yng Nghymru gan nad yw'r cynllun Cymreig cyfredol ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol, yn cynnwys mesurau diwygio lles diweddar Llywodraeth y Deyrnas Unedig, megis cyflwyno'r terfyn dau blentyn neu gael gwared â'r premiwm teulu. Fodd bynnag, mae'r mesurau hyn wedi'u cynnwys yn yr asesiad o ostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Golyga hyn nad oes gan lawer o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol hawl i gymaint o ostyngiad yn y dreth gyngor. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried diwygiadau i'r cynllun cymorth gyda'r dreth gyngor fydd yn cynyddu cydraddoldeb rhwng y ddwy gyfundrefn fudd-daliadau.
- 5.3 Pryder arall i Lywodraeth Cymru yw bod llwyth achosion gostyngiadau yn y dreth gyngor wedi bod yn gostwng. Dechreuodd y gostyngiad hwn mewn llwyth achosion cyn i nifer sylweddol o breswylwyr symud i Gredyd Cynhwysol ac felly mae'n gysylltiedig â ffactorau eraill (megis amodau economaidd). Bydd astudiaeth o lwyth achosion ac ymchwil ansoddol i agwedd aelwydydd at ostyngiad yn y dreth gyngor yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol yn 2020 ac, felly, dylid gallu deall mwy am y duedd hon. Serch hynny, mae pryder y bydd llwyth achosion yn gostwng hyd yn oed ymhellach wrth i fwy o aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol, oherwydd gwahanu'r prosesau hawlio cymorth tai a gostyngiad y dreth gyngor. Os yw hyn yn wir, mae Llywodraeth Cymru yn debygol o ystyried mesurau i gynnal, neu gynyddu

llwyth achosion i sicrhau bod dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor yn cyrraedd mwy o'r rhai sy'n gymwys.

- 5.4 Yn 2018-19, cyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor yng Nghymru oedd £265M y flwyddyn a rhoddwyd dyfarniadau i 271,600 o aelwydydd. Edrycha'r adroddiad hwn ar effaith diwygiadau i'r gostyngiad yn y dreth gyngor i aelwydydd oedran gweithio wrth iddo ganolbwyntio ar effaith Credyd Cynhwysol. Gallai Llywodraeth Cymru ymestyn llawer o'r mesurau i aelwydydd oedran pensiwn a byddir yn ystyried cynnwys hyn yn yr adroddiad terfynol. At ddibenion budd-daliadau etifeddol, daw cyplau dan y rheolau oedran gweithio os yw dau aelod y cwpl dan oedran pensiwn. I aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, ystyrir bod cyplau o oedran gweithio os yw un person yn y cwpl dan oedran pensiwn. Bydd y 111,070 o aelwydydd oedran pensiwn yn parhau i gael yr amddiffyniad mwyaf posibl a gynigir gan Fudd-dal y Dreth Gyngor.
- 5.5 Ar hyn o bryd, mae aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn derbyn gostyngiad cyfartalog wythnosol is yn y dreth gyngor ar £16.30 yr wythnos nag aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol ar gyfartaledd o £18.50 yr wythnos.
- 5.6 Pe câi'r cynllun cyfredol ei gynnal hyd 2021-22, byddai cyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor yn cynyddu 14% i £303M y flwyddyn. Fodd bynnag, ni fyddai lefelau gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu'n gyfartal ar draws y boblogaeth. Bydd symud i Gredyd Cynhwysol yn cael effeithiau gwahanol gyda rhai grwpiau yn gweld gostyngiad sylweddol cyfartalog yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor:
- Ar gyfartaledd, bydd aelwydydd hunangyflogedig yn gweld gostyngiad sylweddol o 79% yn eu gostyngiad wythnosol cyfartalog yn y dreth gyngor. Y rheswm am hyn yw bod aelwydydd yn ymfudo o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol a bod y newid i asesu gostyngiad yn y dreth gyngor yn seiliedig ar y Llawr Isafswm Incwm, yn hytrach nag ar incwm hunangyflogedig gwirioneddol. Y gostyngiad cyfartalog yn y dreth gyngor ar gyfer aelwyd hunangyflogedig sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol fydd £22.75 yr wythnos, o'i gymharu â chyfartaledd o £4.04 yr wythnos ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.

- Bydd aelwydydd sy'n gweithio, lle mae person yno yn byw gydag anabledd, yn gweld gostyngiad o 22.24% yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor. Achosir hyn gan asesu'n wahanol anghenion aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae gwaith asesu'r gostyngiad yn y dreth gyngor i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn cynnwys symiau ychwanegol (premiymau anabledd) ar gyfer y rhai sy'n byw gydag anabledd. Nid oes dim sydd gyfwerth â'r rhain yn yr asesiad ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor i'r rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Bydd y rhai sy'n derbyn Premiwm Anabledd Difrifol mewn buddion etifeddol yn cael eu gwarchod yn drosiannolgan na fyddant yn symud i Gredyd Cynhwysol nes bod ymfudo a reolir yn digwydd. Fodd bynnag, bydd yr aelwydydd hyn yn colli unrhyw warchodaeth drosiannol os ceir newid mewn amgylchiadau. Ni chaiff aelwydydd sydd, ar hyn o bryd yn derbyn premiymau anabledd eraill (y Premiwm Anabledd a'r Premiwm Anabledd Uwch) eu gwarchod yn yr un modd. Mae dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfartaledd i'r rheini sy'n dod o dan Gredyd Cynhwysol, ac sy'n derbyn Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) neu Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) ac nid Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA), yn £ 11.52 yr wythnos. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o £21.35 yr wythnos ar gyfer aelwydydd tebyg sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.
- Mae aelwydydd cyflogedig oedran gweithio'n gweld gostyngiad cyfartalog o 11.6% yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor erbyn 2021-22. Er bod hyn yn cael ei achosi'n rhannol gan incwm aelwyd uwch oherwydd codiadau yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, mae hyn yn bennaf oherwydd y ceir llai o ostyngiad yn y dreth gyngor wrth i aelwydydd symud i Gredyd Cynhwysol. Mae aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol yn gweld dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfartaledd o £16.69 yr wythnos o gymharu â £10.42 yr wythnos ar gyfartaledd ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Un o'r rhesymau dros y gwahaniaeth hwn yw cadw mwy o enillion dan Gredyd Cynhwysol sy'n arwain at lai o ostyngiad yn y dreth gyngor. Mewn gwirionedd, mae'r aelwydydd hyn yn annhebygol o weld gostyngiadau yn incwm cyffredinol yr aelwyd. Fodd bynnag, yr ail reswm allweddol dros yr anghyfartaledd hwn yw bod y rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn cael eu heffeithio gan fesurau diwygio lles llai hael, sydd wedi'u heithrio o'r asesiad o ostyngiad yn y dreth gyngor i'r rhai sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.

Mae hyn yn achosi gwahaniaeth mewn dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor ar draws aelwydydd sy'n derbyn gwahanol fathau o fudd-daliadau.

- 5.7 Mae Llywodraeth Cymru'n dymuno deall sut y gellid cynnal cydraddoldeb rhwng aelwydydd sy'n dod dan y gwahanol systemau budd-daliadau yn ogystal â llwyth achosion.
- 5.8 Bydd yr adroddiad terfynol yn ystyried ai Credyd Cynhwysol yw'r rheswm dros y gostyngiad mewn llwyth achosion. Os dyma'r achos, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried gwneud y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn fwy hael a chyflwyno neges syml ynghylch cymhwysedd er mwyn cynnal llwyth achosion. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi effaith a chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor i gyflawni'r amcanion hyn: cyflwyno didyniadau safonol ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion a thapr is i gynyddu haelioni; a chyflwyno isafswm dyfarniad gostyngiad yn y dreth gyngor fydd yn fodd i roi neges gymhwysedd syml.
- 5.9 Mae'r diwygiadau i'r cynllun a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys dau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i gynyddu cydraddoldeb rhwng y ddwy drefn fudd-daliadau: cyflwyno Llawr Isafswm Incwm is a chael gwared ar y terfyn dau blentyn fel rhan o'r asesiad ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor. Dim ond i aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol y mae'r ddau fesur yn berthnasol. Mae'r cyntaf yn cael effaith ar ddyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer aelwydydd hunangyflogedig; mae'r ail yn cael effaith ar ostyngiadau'r dreth gyngor a gaiff aelwydydd sy'n gweithio â phlant. Y disgwyl yw y bydd y ddau fesur yn cael effaith ar lai na 1,000 o aelwydydd yn 2021-22 ond byddant yn cael effaith sylweddol ar lefelau gostyngiadau yn y dreth gyngor ac felly'n gwneud rhyw gymaint o iawn am yr incwm a gollir wrth i'r aelwydydd hyn symud i Gredyd Cynhwysol.
- 5.10 Ceir isod grynodedd byr o'r prif ganfyddiadau ar gyfer diwygio'r cynllun:
- Byddai **cyflwyno didyniadau safonol ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynyddion (Model 1)** a osodir ar y gyfradd gyfredol isaf yn cael effaith ar 1,520 o aelwydydd ledled Cymru yn 2021-22. Byddai'r aelwydydd hyn yn gweld newid sylweddol yn y cymorth gyda chynnydd o £5.70 yr wythnos ar gyfartaledd o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd at 2021-22. Aelwydydd heb blant dibynnol fyddai'n gweld y

cynnydd cyfartalog mwyaf yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor. Byddai cyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor yn 2021-22 yn cynyddu £0.4M.

- Byddai **newid y gyfradd tapr i 10% (Model 2)** yn cael effaith ar 26,400 o aelwydydd ledled Cymru yn 2021-22. Mae'r aelwydydd hyn yn gweld cynnydd o £6.00 yr wythnos ar gyfartaledd o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22. Yr aelwydydd fyddai fwyaf ar eu hennill ar y mesur hwn fyddai teuluoedd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol. Aelwydydd hunangyflogedig fyddai'n gweld y cynnydd cyfartalog mwyaf yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor (225%). Bydd cyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor hyd 2021-22 yn cynyddu £8M.
- Amcangyfrifir y byddai **cyflwyno isafswm dyfarniad wedi'i osod ar 15% o atebolrwydd** (Model 3) yn cael effaith ar 2,620 o aelwydydd ledled Cymru yn 2021-22. Byddai'r aelwydydd hyn ar eu hennill o £1.60 yr wythnos ar gyfartaledd o gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22. Y rhai fyddai'n fwyaf tebygol o fod ar eu hennill fyddai teuluoedd sy'n gweithio ac yn derbyn Credyd Cynhwysol. Aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol fyddai'n gweld y cynnydd cyfartalog mwyaf yn eu gostyngiad yn y dreth gyngor (9%). Byddai'r effaith ar gyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor hyd 2021-22 yn gynnydd o lai nag 1%.
- Byddai **lleihau'r Llawr Isafswm Incwm (Model 4)** fel rhan o'r asesiad ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor i 16 awr yr wythnos yn effeithio ar 510 o aelwydydd ledled Cymru yn 2021-22. Byddai'r aelwydydd hyn yn gweld cynnydd o £6.00 yr wythnos o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol hyd 2021-22. Byddai aelwydydd hunangyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld eu gostyngiad yn y dreth gyngor yn cynyddu 328%. Byddai'r effaith ar gyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor hyd 2021-22 yn gynnydd o lai nag 1%.
- Amcangyfrifir y bydd **dileu'r terfyn dau blentyn (Model 5)** fel rhan o'r asesiad ar gyfer gostyngiad yn y dreth gyngor yn cael effaith ar 343 o aelwydydd. Fodd bynnag, byddai'r nifer hon yn debygol o dyfu wrth i fwy o aelwydydd gael plant wedi'u geni ar ôl dyddiad gweithredu'r polisi sef mis Ebrill 2017. Byddai'r aelwydydd yr effeithir arnynt yn gweld cynnydd mewn dyfarniadau o £9.40 yr wythnos ar gyfartaledd o'i gymharu â chadw'r cynllun cyfredol yn 2021-22. Yr aelwydydd fyddai'n fwyaf tebygol o fod ar eu hennill fyddai cyplau â phlant (cynnydd o 2% ar gyfartaledd). Byddai'r

effaith ar gyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor yn 2021-22 yn gynydd cyfartalog o lai nag 1%.

- Byddai **cyflwyno cynllun â band incwm (Model 6)** yn seiliedig ar y cynllun a gyflwynwyd gan Gyngor Dinas Newcastle yn ailddosbarthol iawn ac ni fyddai 13,900 o aelwydydd yn gymwys i gael cymorth mwyach. Byddai'r model hwn yn golygu y bydd cyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor £7M yn llai na phe câi'r cynllun cyfredol ei gadw hyd 2021-22.

5.11 Bydd effaith a chyfanswm gwerth gostyngiadau'r dreth gyngor a fodelwyd yn yr adroddiad hwn yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i bennu modelau pellach i'w cynnwys yn yr adroddiad terfynol yn 2020. Efallai y byddai Llywodraeth Cymru'n dymuno cyfuno rhai o'r mesurau hyn i ddeall sut mae mesurau'n gweithio gyda'i gilydd neu gyflwyno mesurau newydd.

6. Atodiadau

Atodiad A: Y Cynghorau sydd wedi cymryd rhan

- 6.1 Mae data gweinyddol gan yr awdurdodau lleol a ganlyn wedi'u defnyddio at ddibenion y dadansoddiad data fel rhan o'r adroddiad interim hwn:

Blaenau Gwent

Pen-y-bont ar Ogwr

Caerffili

Caerdydd

Sir Gaerfyrddin

Ceredigion

Conwy

Sir Ddinbych

Gwynedd

Ynys Môn

Merthyr Tudful

Castell-nedd Port Talbot

Casnewydd

Sir Benfro

Abertawe

Wrecsam

Atodiad B: Codiadau yn y Dreth Gyngor a ddefnyddiwyd wrth Fodelu

Tabl 6.1: Codiadau yn y Dreth Gyngor a ddefnyddiwyd wrth Fodelu

Cynnydd blynyddol yn y Dreth Gyngor a ddefnyddiwyd ar gyfer modelu gostyngiadau'r dreth gyngor yn 2021-22, yn ôl awdurdod lleol⁶⁰

Awdurdod lleol	Cyfartaledd Cynnydd yn y Dreth Gyngor %
Cyfartaledd	5.01
Blaenau Gwent	4.39
Pen-y-bont ar Ogwr	4.84
Caerffili	4.33
Caerdydd	5.02
Sir Gaerfyrddin	4.48
Ceredigion	5.65
Conwy	6.12
Sir Ddinbych	4.68
Sir y Fflint	5.87
Gwynedd	4.63
Ynys Môn	5.49
Merthyr Tudful	4.75
Sir Fynwy	5.05
Castell-nedd Port Talbot	3.88
Casnewydd	4.85
Sir Benfro	8.76
Powys	6.56
Rhondda Cynon Taf	3.67
Abertawe	5.10
Torfaen	4.87
Bro Morgannwg	4.44
Wrecsam	4.18

⁶⁰ Mae'r cynnydd yn y dreth gyngor yn cael ei gyfrif fel cyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf fesul ALI (Ffynhonnell: [StatsCymru](#))

Atodiad C: Nodiadau Methodoleg

Ffynonellau data

- 6.2 Mae'r dadansoddiad a'r gwaith modelu a geir yn yr adroddiad hwn ar lefel aelwyd. Mae Policy in Practice yn defnyddio data llwyth achosion Budd-dal Tai a gostyngiad yn y dreth gyngor ar lefel weinyddol, a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan, i gyflawni'r ymchwil hwn.
- 6.3 Y cyntaf o'r setiau data hyn yw'r Detholiad Budd Aelwyd Sengl (SHBE), a gofnodir yn fisol gan awdurdodau lleol ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r data hwn yn cynnwys y data gweinyddol ar gyfer pob aelwyd sy'n derbyn Budd-dal Tai. Yr ail set ddata yw'r detholiad Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) ac mae'n cadw gwybodaeth debyg iawn i'r SHBE, ond ni chaiff y data hwn ei drosglwyddo i'r Adran Gwaith a Phensiynau yn fisol. Felly, mae'n bosib, er yn brin, na all awdurdod lleol gael mynediad ôl-weithredol i'r detholiad CTRS.
- 6.4 Mae'r detholiad CTRS yn cadw data ar bob aelwydydd sydd wedi derbyn gostyngiad yn y dreth gyngor. Mae'r detholiad hwn yn cynnwys y rhai hynny sy'n derbyn Budd-dal Tai a Chredyd Cynhwysol.
- 6.5 Mae'r setiau data hyn yn cynnwys yr holl ddata ar lefel aelwyd sydd eu hangen i gyfrifo Dyfarniadau Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor, megis gwybodaeth am incwm aelwydydd unigol, amgylchiadau teuluol a statws anabledd. Cyn cael ei throsglwyddo i Policy in Practice, caiff yr holl wybodaeth bersonol ac eithrio'r cod post ei golygu. Roedd y setiau data hyn yn fodd i Policy in Practice fodelu effaith dewisiadau amgen Credyd Cynhwysol a CTRS ar hawlwr budd-daliadau go iawn.
- 6.6 Gan fod gwybodaeth bersonol wedi'i golygu, mae Policy in Practice yn defnyddio cyfeirnodau budd-dal tai fel dynodwr unigryw ar gyfer aelwyd. Mae hyn yn caniatáu i Policy in Practice olrhain amgylchiadau aelwyd dros amser a chyfuno SHBE a CTRS â setiau data ychwanegol fel ôl-ddyledion Treth Gyngor neu ddata ôl-ddyledion rhent cymdeithasol.

Prosesu data

- 6.7 Mae Policy in Practice yn glanhau, prosesu a throsi'r Detholiadau SHBE a CTRS hyn yn fformat y gellir ei ddefnyddio yn ein meddalwedd cynhwysfawr sy'n modelu polisïau, y Gyfrifiannell Budd-daliadau a Chyllidebu (BBC). Mae'r BBC yn tynnu'r newidynnau perthnasol o'r Detholiadau SHBE a CTRS ac yn cyfrifo dyfarniadau budd-daliadau ar lefel aelwyd (gan gynnwys hawl i Ostyngiad yn y Dreth Gyngor) i raddau uchel o gywirdeb. Wrth wneud hynny, mae'r gyfrifiannell yn ffactorio newidiadau polisi ehangach (megis trosglwyddiad aelwyd i Gredyd Cynhwysol) a gall brosesu'r canlyniadau dan ystod o ddyluniadau CTRS.
- 6.8 Ar ôl i'r data gael ei redeg drwy'r BBC, ceir gweithdrefn 'paru' i sicrhau bod cyfrifiadau'r peiriant yn gywir. Mae angen y weithdrefn hon gan fod pob awdurdod lleol yn storio'u data CTRS mewn fformatau ychydig yn wahanol a all arwain at ganlyniadau anghywir pe bai pob awdurdod lleol yn cael ei drin yn union yr un fath. Pan fydd y broses baru hon wedi'i chwblhau, bydd cyfanswm gwerth y gostyngiadau fesul awdurdod lleol o fewn 1% i'r data crai a dyfarniadau gostyngiad yn y dreth gyngor wythnosol yn cyfateb i'r data crai ar gyfer dros 90% o aelwydydd.

Rhagdybiaethau modelu a'r broses ddadansoddol

- 6.9 Mae modelu ar gyfer 2021-22 yn cynnwys newidiadau tebygol i gyfraddau cymorth lles, yr isafswm cyflog cenedlaethol, lwfansau treth, cyfraddau Lwfans Tai Lleol (LHA), costau rhent, a newid rheoliadol hysbys. Mae cyfraddau budd-daliadau'n unol â'r mesur chwyddiant a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer cynyddu budd-daliadau (y codiad blynyddol a ddefnyddir gyda chyfraddau budd-daliadau, ym mis Ebrill fel arfer). Mae newidiadau eraill yn cael eu llywio gan ragfynegiadau o gyfradd chwyddiant a gyhoeddir yn flynyddol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Caiff cyfraddau LHA eu modelu gan dybio y daw unrhyw uwchraddio o'r lefel sylfaen gyfredol yn hytrach nag o fynd yn ôl i gyd-fynd â thrydydd ddegradd rhentu cyfanswm gwerth gostyngiadau yn y dreth gyngor
- 6.10 Mae'n werth nodi na all modelu blynyddoedd i ddod ystyried amodau macro-economaidd na newidiadau mewn polisi sy'n deillio o newid llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn benodol, nid yw'r gwaith modelu'n ystyried unrhyw effeithiau

economaidd o adael yr Undeb Ewropeaidd nac unrhyw newidiadau polisi a allai ddeillio o newid llywodraeth rhwng 2019 a 2022.

- 6.11 Dim ond aelwydydd a gynrychiolir yn y setiau data a ddefnyddir ar gyfer y gwaith ymchwil hwn y caiff gwaith modelu ei ystyried. O'r herwydd ni all fodelu'r effaith ar lwyth achosion ac, felly, gost mesurau sy'n arwain ar lwyth achosion uwch.
- 6.12 Cynhwysir lefel o ymfudo y cytunwyd arni i Gredyd Cynhwysol hefyd. Bydd modelu yn cynnwys ymfudiad disgwyledig o 15.5% o aelwydydd ychwanegol i Gredyd Cynhwysol erbyn 2021-22. Cytunwyd ar y lefel hon gyda Llywodraeth Cymru ac mae'n seiliedig ar y lefelau cyfredol a arsylwyd o 10% y flwyddyn yn cael eu cario drwodd i 2021-22 a rhagdybiaeth o lefelau ymfudo yn gostwng i 5% y flwyddyn erbyn 2021-22.
- 6.13 Er mwyn galluogi cymharu cynlluniau wedi'u modelu yn erbyn y cynllun cyfredol yn 2021-22, mae cynnydd blynyddol cytunedig yn y dreth gyngor wedi'i gynnwys. Mae cyfradd y cynnydd yn y dreth gyngor a ddefnyddir yr un fath â'r cyfartaledd ar gyfer pob cyngor dros y tair blynedd diwethaf. Caiff hon ei chymhwyso, ar wahân, i dâl treth gyngor pob cyngor cyn dadansoddi data. Rhoddir codiadau'r Dreth Gyngor a ddefnyddir yn y modelu yn Atodiad A.
- 6.14 Er bod yr holl awdurdodau lleol yn cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn, adeg y dadansoddiad, dim ond Detholiad Budd Aelwyd Sengl (SHBE) a Detholiad Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS), ar gyfer Mawrth 2019 yr oedd Policy in Practice wedi'u derbyn gan 16 o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Am y rheswm hwn, defnyddir ffactor cydraddoli ar gyfer aelwydydd i gynrychioli cyfanswm gwerth gostyngiadau ledled Cymru'n well.
- 6.15 Mae'r holl waith modelu ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar lwyth achosion y flwyddyn gyfredol (2018-19). Fel y cyfryw, nid yw gwaith modelu'n ystyried unrhyw newid yng nghynrychiolaeth gyfrannol gwahanol fathau o aelwydydd.

Mae'r holl ffigurau drwyddi draw wedi'u talgrynnu i raddau priodol i adlewyrchu cywirdeb y dadansoddiad.